# RHYBUDD O GYFARFOD

***Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri***

***Jonathan Cawley***
***Prif Weithredwr***
***Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri***
***Penrhyndeudraeth***
***Gwynedd LL48 6LF***
***Ffôn: (01766) 770274***
***E.bost: parc@eryri.llyw.cymru***

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 9 Gorffennaf 2025 |
| **Amser:** | 10:00 y.b. |
| **Man Cyfarfod:** | Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth a thrwy Zoom |

***Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn yr amser cychwyn dynodedig***

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd***
*Y Cynghorwyr: Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths, Annwen Hughes, Louise Hughes, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy***
*Y Cynghorwyr: Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Nia Owen;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru***
*Rhys Evans, Salamatu Fada, Tim Jones, Naomi Luhde-Thompson, Delyth Lloyd, Wyn Thomas.*

# R H A G L E N

| | | Rhif Tudalen |
|---|---|---|
| 1.* | **Cadeirydd**<br>Ethol Cadeirydd y Pwyllgor | |
| 2.* | **Is-gadeirydd**<br>Ethol Is-gadeirydd y Pwyllgor | |
| 3. | **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**<br>Derbyn ymddiheuriadau gan yr Aelodau | |
| 4. | **Datgan Diddordeb**<br>Derbyn datganiad o ddiddordeb mewn unrhyw eitem gan aelod neu swyddog. | |
| 5. | **Cofnodion**<br>Bydd y Cadeirydd yn cynnig fod cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 19 Mawrth 2025 yn cael eu harwyddo fel cofnod cywir a derbyn y materion sy'n codi, er gwybodaeth. (Copi yma). | 4 - 7 |
| 6. | **Taflen Weithredu**<br>Cyflwyno'r Daflen Weithredu er gwybodaeth a phenderfyniad. (Copi yma) | 8 - 9 |
| 7. | **Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol. (Copi yma) | 10 - 20 |
| 8. | **Adroddiad diweddaru Grantiau Ariannu Allanol**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr. (Copi yma) | 21 - 36 |
| 9. | **Rhaglen Waith Corfforaethol 2024-25: Diweddariad ar yr Amcanion Llesiant**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma) | 37 - 81 |
| 10. | **Proffil Risg yr Awdurdod**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma) | 82 - 97 |
| 11. | **Adroddiad Monitro Cwynion**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer. (Copi yma) | 98 - 100 |
| 12. | **Adroddiad Alldro Refeniw a Chyfalaf 2024/25**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid. (Copi yma) | 101 - 117 |

13. **Adroddiad Rheolaeth Trysorlys 2024/25** 118 - 121
Cyflwyno adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid. (Copi yma)

14. **Datganiad Polisi Tâl 2025-26 ac Adroddiad Blynyddol Polisi Tâl 2024-25** 122 - 127
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Adnoddau Dynol. (Copi yma)

15. **Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024: Dangosyddion Perfformiad Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu** 128 - 169
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Cyfathrebu. (Copi yma)

* Tynnir eich sylw at orchymyn sefydlog 5.8 sy'n datgan "Ni fydd unrhyw Aelod yn gwasanaethu fel Cadeirydd neu Is-gadeirydd mwy nag un Pwyllgor".

**COFNODION**
**PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU**
DYDD MERCHER 19 MAWRTH 2025
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol

***YN BRESENNOL:***

**Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd**
Cynghorwyr Elfed Powell Roberts (Cadeirydd), Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes, Edgar Wyn Owen, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;

**Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Nia Owen;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Brian Angell, Tim Jones, Delyth Lloyd;

**Swyddogion**
Jonathan Cawley, G. Iwan Jones, Dewi Aeron Morgan, Sian Owen, Angela Jones, Etta Trumper, Bethan Hughes, Naomi Jones, Eifion Jones.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo gwirio'r cofnodion ac y byddai'r recordiad ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Delyth Lloyd Griffiths, John Pughe Roberts, a Naomi Luhde-Thompson.

2. **Datgan Diddordeb**

Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb yn unrhyw eitem gan aelod na swyddog.

3. **Cofnodion**

*Mabwysiadwyd* cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar y 27 Tachwedd 2024, a llofnododd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

4. **Taflen Weithredu**

*Cyflwynwyd* y Daflen Weithredu gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

*Adroddwyd* bod yr Awdurdod yn parhau i aros am arweiniad ac ymateb Llywodraeth Cymru i'r ddwy eitem oedd ar y daflen a dylid eu cadw fel ag yr oeddynt.

*Argymhellwyd*: – cadw'r ddwy eitem ar y daflen fel ag yr oeddynt.

*Penderfynwyd:* — **derbyn** yr Argymhelliad**.**

5. **Adroddiad Cwblhau Prosiect Treftadaeth Treflun Dolgellau**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol.

*Adroddwyd*:

- cefndir y prosiect, a chyflwynwyd manylion ar brosiectau unigol;
- bod pandemig Covid 19 wedi cael effaith ar amserlen y prosiect;
- bod llwyddiant y cynllun presennol wedi arwain at gyflwyno Datganiad o Ddiddordeb i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer prosiect newydd yn Nolgellau;
- bod y prosiect arfaethedig yn cwmpasu rhychwant ehangach o weithgaredd, gan gynnwys ffocws manylach ar effeithlonrwydd adeiladau rhestredig, ymgysylltu cymunedol, adfer natur a gwelliannau amgylcheddol.

*Argymhellwyd*: –

1. bod Aelodau'n derbyn yr adroddiad er gwybodaeth
2. bod Aelodau'n cefnogi'r bwriad i ddatblygu prosiect cadwraethol newydd yn ardal gadwraeth Dolgellau

*Penderfynwyd:* — **derbyn** yr Argymhelliad**.**

6. **Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth – Adroddiad Blynyddol**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer.

*Adroddwyd*:

- bod 42 o geisiadau wedi dod i law yn ystod y flwyddyn 2024
- bod 16 o'r 42 cais wedi eu trin o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol a 26 o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth
- na chyflwynwyd yr un gŵyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch gwrthod rhyddhau gwybodaeth
- bod pob un cais wedi derbyn ymateb o fewn y terfyn amser statudol o 20 diwrnod

*Argymhellwyd***:** – bod y pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad.

*Penderfynwyd:* — **derbyn** yr Argymhelliad**.**

7. **Proffil Risg Yr Awdurdod**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr (Dros Dro).

*Adroddwyd*:

- bod 20 risg wedi eu hadnabod ar y Proffil;
- bod 3 wedi cael eu nodi fel risgiau Uchel, 14 fel risgiau canolig a 3 fel risgiau Isel
- bod risg Newydd wedi ei adnabod (Risg 20 – Risg ariannol ac i new da ynglŷn â dyfodol Plas Tan y Bwlch)
- bod Risg 18, sef risg o Adolygiad Barnwrol ar gyflwyno'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 wedi'i gynyddu o risg Isel i risg Ganolig ar y Gofrestr Risg;
- bod tri risg arall wedi eu lleihau ar y Gofrestr Risg: Risg 4, Risg 5 a Risg 17;
- y barnwyd bod Risg 17 (Gwydnwch y Tîm Rheoli) oherwydd y penderfyniad diweddar i gynyddu nifer y swyddogion ar y Tîm Rheoli, bellach wedi cael sylw llawn a gellid ei dynnu oddi ar y Gofrestr Risg.

*Argymhellwyd:* –

1. trafod cynnwys yr adroddiad ac adolygu'r newidiadau i rai o'r graddfeydd risg;
2. cytuno i ddileu Risg 17 o'r Gofrestr Risg fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad;

*Penderfynwyd:* — **derbyn** yr Argymhelliad**.**

8. **Diweddariad ar y Gyllideb 2024/25**

*Cyflwynwyd* adolygiad o gyllideb 2024/25 gan gynnwys crynodeb o'r cyllidebau refeniw a chyfalaf diwygiedig o ddechrau'r flwyddyn ariannol h.y., 1 Ebrill 2024 i 31 Ionawr 2025 gan y Pennaeth Cyllid.

*Adroddwyd*:

- ➢ bod grant ychwanegol o £1.1M wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru ers cyflwyno'r adroddiad ysgrifenedig;
- ➢ bod y diffyg disgwyliedig ar ddiwedd y flwyddyn ariannol tua £500,000, ond oherwydd y grant diweddar ni ddisgwylid y byddai'n rhaid i'r diffyg gael ei ariannu o'r gronfa wrth gefn bellach.

*Argymhellwyd:* – cymeradwyo'r adroddiad a nodi'r sefyllfa ariannol bresennol ar gyfer 2024/25

*Penderfynwyd:* — **derbyn** yr Argymhelliad**.**

9. **Adroddiad Blynyddol Gwirfoddoli a Lles 2024**

*Cyflwynwyd* adroddiad ddiweddaru'r Awdurdod ar gynnydd y Strategaeth Gwirfoddoli 2021-2026 gan y Swyddog Gwirfoddoli a Lles.

*Adroddwyd* bod yr adroddiad blynyddol wedi ei rannu yn 5 rhan, gan roi trosolwg o'r datblygiadau mewn cyfleoedd gwirfoddoli a lles a oedd yn cynnwys;

- ➢ Cynllun gwirfoddoli
- ➢ Digwyddiadau lles
- ➢ Llogi trampyr
- ➢ Diweddariadau manwl ar ddangosyddion perfformiad allweddol
- ➢ Targedau 2025

*Argymhellwyd:* – cymeradwyo cynnwys adroddiad blynyddol 2024 a chynghori ar unrhyw nodau neu amcanion o'r Strategaeth datblygu gwirfoddolwyr 2021-2026.

*Penderfynwyd:* — **derbyn** yr Argymhelliad**.**

10. **Rhaglen Waith Corfforaethol 2024-25**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr Dros Dro ar y cynnydd a wnaed yn y 3ydd a'r 4ydd chwarter yn 2024-25 i gyflawni'r wahanol brosiectau a'r mentrau y cytunwyd arnynt ar gyfer cyflawni Amcanion Gwelliant yr Awdurdod.

*Argymhellwyd:* – archwilio a thrafod y Rhaglen Waith Corfforaethol.

*Penderfynwyd:* — **derbyn** yr Argymhelliad**.**

11. **Rhaglen Waith Corfforaethol 2025-26**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Prif Weithredwr ar y gwaith/prosiectau a fyddai'n cael eu cwblhau yn ystod 2025-26 mewn ymateb i Amcanion Llesiant yr Awdurdod.

*Adroddwyd:*

- bod cyfnod yr Amcanion Llesiant presennol yn dod i ben eleni, a'i fod yn bryd adolygu'r Amcanion ar gyfer y 5 mlynedd nesaf;
- ei fod yn fwriad gohirio'r adolygiad llawn hwn am ryw flwyddyn i allu cwblhau adolygu'r *Cynllun Datblygu Lleol* a *Chynllun Eryri* yn gyntaf, oherwydd:
    - fod yr Amcanion Llesiant yn bwydo i mewn i *Gynllun Eryri* ac, yn ôl pob tebyg,
    - fe fyddai'n rhaid newid yr Amcanion unwaith eto pe caent eu hadolygu cyn adolygu *Cynllun Eryri*.
- bod y Prif Weithredwr yn bwriadu dod ag adroddiad gerbron yr Awdurdod fis Mehefin i ohirio'n ffurfiol.

*Argymhellwyd:* – mabwysiadu'r Rhaglen Waith Corfforaethol (Drafft) fel dogfen weithredol ar gyfer 2025-26.

*Penderfynwyd:* — **mabwysiadu'r** Rhaglen Waith Corfforaethol (Drafft)**.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 10:55**

# TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

## PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU – 12.07.2023

| EITEM: RHIF A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| 7. Adroddiad Incwm – Archwilio Cymru | **PENDERFYNWYD aros am adroddiad ar ddull strategol o arallgyfeirio i gyfarfod o'r Gweithgor Aelodau yn y dyfodol tua diwedd 2023 / dechrau 2024.** | Y Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli i baratoi adroddiad. | PW | Adroddiad cynnydd wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau Tachwedd '23. Aros am arweiniad gan Lywodraeth Cymru ar arallgyfeirio incwm yn dilyn adroddiad 3 APC ar Arallgyfeirio Incwm gan Archwilio Cymru. Cyflwynwyd adroddiad penodol ar reolaeth Plas Tan y Bwlch i Weithgor yr Aelodau ym mis Ionawr 2024 ac fe'i hystyriwyd yn ffurfiol yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 7 Chwefror 2024. **Parhau i aros am arweiniad LlC.** | **NA** |

# TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

## PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU – 29.11.2023

| EITEM: RHIF A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| 8. Arallgyfeirio Incwm | **PENDERFYNWYD gohirio rhagor o waith ar A1 nes bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried ac wedi mynd i'r afael â'r materion a nodwyd ar eu cyfer yn Adroddiad Archwilio Cymru.** | Y Prif Weithredwr i aros am ymateb gan Lywodraeth Cymru a chyflwyno adroddiad maes o law. | PW | Mae swyddogion wedi cwblhau rhestr wirio hunanasesu.<br><br>**Parhau i aros am ymateb LlC** | |

**EITEM RHIF 7**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 9 Gorffennaf 2025 |
| **TEITL** | **ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL** |
| **ADRODDIAD GAN:** | Pennaeth Archwilio Mewnol |
| **PWRPAS** | Adroddiad Blynyddol |

## 1. CYFLWYNIAD A CHYD-DESTUN

**Safonau Archwilio Mewnol Byd-Eang a'r Nodyn Gweithredu: Safonau Archwilio Mewnol Byd-Eang yn Sector Gyhoeddus y DU**

1.1 Mae Nodyn Gweithredu, adran 10B, Casgliadau cyffredinol ac adrodd blynyddol yn nodi ***"Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS[1]) 11.3 (Cyfathrebu Canlyniadau) yn cyfeirio at y posibilrwydd y gallai fod yn ofynnol i'r prif weithredwr archwilio ddod i gasgliad ar lefel y sefydliad ynghylch effeithiolrwydd llywodraethu, rheoli risg a neu/reolaeth. Yn y sector gyhoedd yn y DU, rhaid i brif weithredwr archwilio baratoi casgliad cyffredinol o'r fath o leiaf yn flynyddol i gefnogi adroddiadau llywodraethu ehangach, gan ystyried unrhyw rwymedigaethau neu brosesu o fewn y sector benodol. Rhaid i'r casgliad cyffredinol hwn gynnwys materion llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol."***

1.2 Mae angen statudol am wasanaeth Archwilio Mewnol mewn Awdurdodau Parc Cenedlaethol. Caiff yr angen ei ymhlygu yn Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, sydd yn gofyn fod awdurdodau yn "gwneud trefniadau ar gyfer gweinyddiaeth briodol o'u materion ariannol ac yn sicrhau fod un o'u swyddogion yn gyfrifol am weinyddiaeth y materion hyn". Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn gosod cyfrifoldeb ar yr Awdurdod i gynnal gwasanaeth archwilio mewnol.

1.3 Darperir y gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gan Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd. Er bod y gwasanaeth wedi ei leoli yn allanol i'r Awdurdod, mae'n darparu gwasanaeth i'r holl awdurdod fel arf i reolwyr i ymwybyddu a chryfhau rheolaeth fewnol, ac yn cynnig i "Swyddog Adran 151" yr Awdurdod (y Prif Swyddog Cyllid) y sicrwydd angenrheidiol fel sy'n ofynnol dan ddeddf gwlad.

1.4 Mae defnydd priodol o'r adnoddau sydd ar gael i Awdurdod y Parc yn hanfodol er mwyn sicrhau fod ansawdd y gwasanaethau a gynigir o safon uchel. Nod y gwasanaeth Archwilio Mewnol yw cynnig hyder i'r Prif Swyddog Cyllid, ac fel canlyniad i'r holl Awdurdod, fod yr adnoddau hynny sydd ar gael wedi eu rheoli a'u defnyddio'n briodol, gyda thryloywder.

1.5 Mae'r adroddiad blynyddol yma yn cynnwys:

- Disgrifiad o'r cyd-destun ar gyfer paratoi'r adroddiad blynyddol
- Crynodeb o waith a gyflawnwyd gan Archwilio Mewnol yn ystod 2023/24 a 2024/25
- Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2025/26.

[1] Global Internal Audit Standards

## 2. GWAITH ARCHWILIO MEWNOL

2.1 Mae'r rhan yma o'r adroddiad yn crynhoi casgliad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar dair agwedd o drefniadau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, sef llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol.

2.2 Wrth roi fy nghasgliad blynyddol, dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn llwyr. Y mwyaf y gall Archwilio Mewnol ei ddarparu yw cyngor rhesymol nad oes gwendidau mawr yn y system gyfan o reolaeth fewnol.

**2.3 Ar sail gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2023/24 a 2024/25, yn fy marn i mae gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri fframwaith gadarn o reolaeth fewnol. Mae hyn yn cynorthwyo i roi hyder yn y trefniadau i sicrhau cyflawniad effeithiol ac effeithlon o amcanion yr Awdurdod, gan fod y camau a gymerwyd ganddo yn ystod y flwyddyn ariannol i sefydlu a chryfhau rheolaethau mewnol ac i sicrhau fod camau gweithredu i gywiro gwendidau a adnabuwyd gan Archwilio Mewnol wedi bod yn dda ar y cyfan.**

2.4 Roedd tri darn o waith yng nghynllun Archwilio Mewnol gwreiddiol 2023/24, sef:

- Trefniadau cyfathrebu gwasanaeth cynllunio
- Partneriaeth Tirwedd y Carneddau
- Cefnogaeth i Aelodau

2.5 Cymeradwywyd yr uchod fel cynllun Archwilio Mewnol 2023/24 gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn ei gyfarfod ar 29 Tachwedd 2023. Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn, cytunwyd i ganslo archwiliad Partneriaeth Tirwedd y Carneddau er mwyn rhyddhau rhagor o adnoddau i gynnal gweddill yn cynllun.

2.6 Cynhaliwyd archwiliad ar Wirfoddolwyr yn 2024/25.

2.7 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod.

| | | |
|---|---|---|
| **LEFEL SICRWYDD** | **UCHEL** | Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. |
| | **DIGONOL** | Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach. |
| | **CYFYNGEDIG** | Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt. |
| | **DIM SICRWYDD** | Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion. |

2.8 Mae adroddiadau archwiliadau mewnol llawn wedi eu cynnwys yn Atodiadau 1 i 3.

## 2.9 Trefniadau cyfathrebu gwasanaeth cynllunio (Atodiad 1)

2.9.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer gweinyddu ceisiadau ac ymholiadau cynllunio drwy'r Awdurdod, yn benodol trefniadau cyfathrebu gyda'r cyhoedd. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio sampl o geisiadau cynllunio, yn ogystal ag ymholiadau cyffredinol a cheisiadau cyn cyflwyno er mwyn sicrhau bod trefniadau cyfathrebu digonol mewn lle a'u bod yn dilyn polisïau'r Awdurdod megis cydlynu i amserlen ymateb ayb.

2.9.2 **Rhoddwyd lefel sicrwydd "Digonol" i'r adroddiad yma, i adlewyrchu barn yr archwiliwr bod rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.**

## 2.10 Cefnogaeth i Aelodau (Atodiad 2)

2.10.1 Bwriad yr archwiliad oedd rhoi sicrwydd bod y gefnogaeth sydd ar gael i Aelodau gan yr Awdurdod yn eu galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio trefniadau'r Awdurdod o gynnig cefnogaeth tuag at eu gwaith, ynghyd â chefnogaeth llesiant, a chylchredeg holiadur er mwyn canfod barn yr Aelodau ar y gefnogaeth, a sut gellir gwella.

2.10.2 **Rhoddwyd lefel sicrwydd "Uchel" i'r adroddiad yma, i adlewyrchu barn yr archwiliwr y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.**

## 2.11 Gwirfoddolwyr (Atodiad 3)

2.11.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle i uchafu'r defnydd o wirfoddolwyr, a hynny mewn modd priodol a diogel. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio trefniadau'r Awdurdod o hybu cyfleoedd i wirfoddoli, trefniadau gweinyddu a chyd-gordio gweithgareddau, ynghyd a threfniadau iechyd a diogelwch y gwirfoddolwyr.

2.11.2 **Rhoddwyd lefel sicrwydd "Digonol" i'r adroddiad yma, i adlewyrchu barn yr archwiliwr bod rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.**

## 2.12 Gwaith Dilyniant

2.12.1 Bwriad y gwaith dilyniant oedd sicrhau bod yr Awdurdod wedi gweithredu ar y gweithrediadau cytunwyd er mwyn lliniaru y risgiau adnabuwyd fel rhan o waith archwilio mewnol 2022/23. O'r dystiolaeth dderbyniwyd, gwelwyd bod gweithrediad llawn ar y camau gweithredu.

## 3. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2025/26

3.1 Mae cynllun Archwilio Mewnol 2025/26 wedi ei ddatblygu ar sail y Siarter Archwilio Mewnol a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar ran yr Awdurdod.

3.2 Mae'r dogfennau ac adroddiadau canlynol wedi derbyn sylw penodol gennyf wrth lunio'r cynllun drafft yn unol â'r Siarter Archwilio Mewnol:

- Cynllun Busnes a Gwelliant yr Awdurdod
- Proffil Risg yr Awdurdod
- Cyllideb yr Awdurdod a Lefi ar Awdurdodau Cyfansoddol

3.3 Yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r risgiau, trafodaethau gyda swyddogion yr Awdurdod, ac ystyriaeth o'r archwiliadau diweddaraf mewn rhai meysydd, awgrymir y canlynol fel cynllun archwilio mewnol ar gyfer 2025/26:

| **Archwiliad** | **Cynllun (Dyddiau)** | **Rheswm** |
|---|---|---|
| Defnydd o Ymgynghorwyr | **13** | Disgwylir bod rhesymau priodol a phroses caffael digonol mewn lle cyn penodi ymgynghorwyr i gyflawni gwaith ar ran yr Awdurdod. |
| Canolfannau Gwybodaeth | **13** | Mae Canolfannau Gwybodaeth yn darparu amryw o wasanaethau ar ran yr Awdurdod. |
| Gwaith Dilyniant | **2** | Dilyniant i archwiliadau 2023/24 a 2024/25. |
| *Eraill:* | | |
| Rheolaeth a Phwyllgorau | **2** | Amser wedi ei neilltuo i swyddogion Archwilio Mewnol fynychu pwyllgorau'r Awdurdod ac i reoli gwaith. |
| ***Cyfanswm*** | **30** | |

3.4 Mae'r cynllun yma yn ddarostyngedig i addasiadau a'i wneud yn derfynol ar sail cyfarfodydd rhwng y Pennaeth Archwilio Mewnol a'r Prif Weithredwr, Prif Swyddog Cyllid, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a/neu'r Pennaeth Cyllid.

## 4. GOBLYGIADAU ADNODDAU

4.1 Ni fydd oblygiadau adnoddau ychwanegol fel canlyniad i argymhellion yr adroddiad yma.

## 5. ARGYMHELLION

5.1 Gofynnir i’r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn fel “Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol” yn unol â gofyn y Safonau Archwilio Mewnol Byd-Eang.

5.2 Gofynnir i’r pwyllgor hefyd ystyried y Cynllun Archwilio Gweithredol ar gyfer cyfnod cyfrifo 2025/26, ac unai ddarparu argymhellion penodol perthnasol a/neu dderbyn y cynllun.

Atodiad 1

# TREFNIADAU CYFATHREBU CYNLLUNIO

## 1. Cefndir

1.1 Mae Cynllun Datblygu Lleol yn gosod safon a pholisïau ar gyfer datblygu o fewn y parc cenedlaethol ac yn cyfeirio at y cynllun ar gyfer penderfyniadau cynllunio. Mae dyletswyddau'r Gwasanaeth yn cynnwys darparu cyngor cynllunio cyffredinol, cyngor cyn cyflwyno cais, cais am ganiatâd cynllunio, ceisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig ac ymdrin ag apeliadau cynllunio.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer gweinyddu ceisiadau ac ymholiadau cynllunio drwy'r Awdurdod, yn benodol trefniadau cyfathrebu gyda'r cyhoedd. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio sampl o geisiadau cynllunio, yn ogystal ag ymholiadau cyffredinol a cheisiadau cyn cyflwyno er mwyn sicrhau bod trefniadau cyfathrebu digonol mewn lle a'u bod yn dilyn gofynion/polisïau'r Awdurdod megis cydlynu i amserlen ymateb ayb.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 3 |
| **ISEL** | 0 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Gwelwyd bod trefniadau mewn lle ar gyfer derbyn ac ymateb i ymholiadau, ceisiadau cynllunio a chais cyn cyflwyno. Adroddodd y gwasanaeth bod swyddogion ar ddyletswydd yn derbyn galwadau ac ymholiadau ond bod pob cais cynllunio a cheisiadau cyn cyflwyno yn cael eu dosbarthu i swyddogion i'w gweithredu ar lif gwaith. Mae gohebiaeth cydnabod yn cael ei anfon i'r ymgeiswyr ar gyfer pob cais gyda manylion y cais megis rhif y cais, swyddog dynodedig ac amserlen ymateb. Er hynny, ni welwyd bod trefniadau/hyfforddiant wedi cael eu ffurfioli mewn canllawiau/llawlyfr i staff ar gyfer gweithdrefnau'r gwasanaeth a chanllawiau ar sut i ddefnyddio'r system cynllunio. Golyga hyn bod risg o staff ddim yn ymwybodol o drefniadau/gweithdrefnau'r gwasanaeth ar gyfer delio â cheisiadau cynllunio a'r posibilrwydd bod anghysondebau wrth weithredu ar geisiadau cynllunio'r awdurdod.

5.2 Derbyniwyd rhestr o geisiadau cynllunio a gyflwynwyd am y cyfnod Ebrill 2022 hyd at Ebrill 2023, yn ogystal â rhestr o geisiadau cyn cyflwyno. Detholwyd sampl o geisiadau o’r ddwy restr a dadansoddwyd amserlen yr awdurdod ar gyfer cydnabod/ ymateb a dod i benderfyniad ar y ceisiadau. Gwelwyd ar gyfartaledd bod yr awdurdod wedi cymryd 7 diwrnod gwaith i gydnabod/ymateb i gais gan swyddogion cynllunio a 10 wythnos i benderfynu ar y sampl o 24 o geisiadau a wiriwyd. Cyfeiriwyd sampl o’r dyddiadau uchel i’r gwasanaeth i’w gwirio ac eglurodd yr Uwch Dechnegydd bod mwyafrif yn eithriadau ble mae’r cais yn un cymhleth neu wedi mynd i bwyllgor ond bod ambell un heb reswm.

5.3 Gwelwyd ar wefan yr awdurdod bod canllawiau cynllunio glir ar gyfer yr ymgeisydd a’r cyhoedd.

5.4 Gwelwyd bod pob ymgeisydd yn derbyn llythyr cydnabod gyda manylion y cais a dyddiad arfaethedig ymateb ble gall ymgeisydd holi am ddiweddariad ar ôl y dyddiad hynny os na fydd yn clywed yn ôl gyda phenderfyniad yr awdurdod cyn hynny. Gwelwyd bod 10 o geisiadau wedi derbyn penderfyniad ar ôl y dyddiad arfaethedig (5 dros 8 wythnos o’r dyddiad derbyn a 5 arall dros 13 o wythnosau gan eu bod yn geisiadau cymhleth). Er hynny, ni welwyd llythyr ffurfiol yn gofyn am estyniad amser i’r dyddiad penderfyniad ar gyfer yr un o rain. Golyga bod risg bydd yr awdurdod methu gydymffurfio â gofynion statudol all arwain at gwynion i'r ombwdsmon.

5.5 O’r sampl o geisiadau am ymholiadau cyn cyflwyno cais cynllunio, gwelwyd bod rhan fwyaf wedi mynd dros yr amserlen o 21 diwrnod gwaith i ymateb ar ôl y dyddiad derbyn (3 wythnos). Ymddengys bod oedi yn y broses all arwain at gynnydd mewn cwynion.

5.6 O’r sampl a archwiliwyd, gwelwyd bod trywydd archwilio yn bodoli ar gyfer pob cais a wiriwyd.

5.7 O’r sampl o geisiadau a wrthodwyd, gwelwyd bod trefniadau priodol ar gyfer eu gweinyddu wedi cymryd lle h.y. bod pob penderfyniad wedi cael eu cyflwyno i’r ymgeisydd yn ffurfiol. Ymddengys yn y ffeiliau bod 4 allan o 5 o’r ceisiadau a wrthodwyd, bod hawliau/trefn apelio yn y nodiadau ychwanegol ynghlwm â’r llythyrau penderfyniad. Cyfeiriwyd yr un heb nodiadau ychwanegol i sylw’r Uwch Dechnegydd i’w wirio.

5.8 Gwelwyd bod pob cais gyda phenderfyniad wedi cael eu cyflwyno i uwch swyddog i’w cymeradwyo cyn eu cyhoeddi.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae’r Gwasanaeth Cynllunio wedi ymrwymo i weithredu’r camau canlynol i liniaru’r risgiau a amlygwyd:**

- **Mae’r system cynllunio yn y broses o gael ei huwchraddio, fydd yn golygu bod y gwasanaeth yn datblygu hyfforddiant ffurfiol i’r holl staff ar gyfer y newidiadau yn y system a sut i’w ddefnyddio sydd yn cyd-fynd a gweithdrefnau’r awdurdod ynghyd â gofynion cynllunio statudol.**
- **Hysbysu’r ymgeisydd o estyniadau i’r dyddiad penderfyniad ar ôl 6 wythnos o’r dyddiad derbyn cais.**
- **Mae system cynllunio yn ganol cael ei huwchraddio bydd yn galluogi i’r gwasanaeth fewnbynnu paramedrau megis dyddiadau atgoffa sydd yn annog y swyddog i weithredu ar y cam nesaf yn brydlon.**

# CEFNOGAETH I AELODAU

## 1. Cefndir

1.1 Mae gan yr Awdurdod 18 Aelod, 9 a benodir gan Gyngor Gwynedd, 3 a benodir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, a 6 aelod a benodir gan Lywodraeth Cymru. Mae’r aelodau yn gyfrifol am ddarparu arweiniad effeithiol i Awdurdod y Parc Cenedlaethol, am bennu ei bolisïau ac am sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcanion o fewn y fframwaith statudol, y fframwaith polisi a'r fframwaith ariannol a bennwyd ar ei gyfer.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd rhoi sicrwydd bod y gefnogaeth sydd ar gael i Aelodau gan yr Awdurdod yn eu galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio trefniadau’r Awdurdod o gynnig cefnogaeth tuag at eu gwaith, ynghyd â chefnogaeth llesiant, a chylchredeg holiadur er mwyn canfod barn yr Aelodau ar y gefnogaeth, a sut gellir gwella.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i’r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| UCHEL | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

## 4. Prif Ddarganfyddiadau

4.1 Fel rhan o’r archwiliad, gwiriwyd trefniadau cefnogi Aelodau yr Awdurdod, ynghyd â chanfod barn yr Aelodau ar y trefniadau yma. Dosbarthwyd holiadur byr at 17 o’r 18 Aelod, gan fod un sedd yn wag ar amser yr archwiliad. Yn anffodus, dim ond 4 ymateb dderbyniwyd. Mae’n anodd dehongli arwyddocâd y nifer isel o ymatebion, ond o bosib yn adlewyrchu'r ffaith nad oes teimladau cryf ar y mater.

4.2 Roedd yr ymatebion dderbyniwyd yn gadarnhaol ar y cyfan, gan i bob un o’r 4 ymateb nodi eu bod yn gwybod sut i dderbyn gwybodaeth gan swyddogion, ac o’u profiad hwy bod y broses unai yn rhwydd, neu yn rhwydd iawn.

4.3 O’r ymatebion, roedd pawb o’r farn bod rhwydwaith ddigonol o gefnogaeth ymysg eu cyd-Aelodau. Mae’r Awdurdod eisoes wedi holi barn yr Aelodau am sefydlu mentora ar gyfer pob Aelod newydd, ond isel oedd y lefel o ymatebion (3 allan o 18) a drwy hynny felly isel oedd y galw am fentora. Mae’n bwysig bod rhwydwaith o gefnogaeth, gan fod pryder bod y symudiad tuag at weithio rhithiol wedi lleihau’r cyfleon i Aelodau gwrdd yn anffurfiol a hybu perthnasau cefnogol a chynhyrchiol, ymysg eu gilydd a gyda swyddogion. Mynegodd un Aelod bod hyn o bryder, gan ddatgan bod y gefnogaeth sydd ar gael ddim mor dda wrth gymharu gyda chyfnod cyn COVID a gweithio’n rhithiol. Nid oes gwahaniaeth yn ôl yr ymatebion eraill. Mae’r risgiau ynghlwm â gweithio yn rhithiol yn wybodus i’r Awdurdod, ac yn un o’r rhesymau dros gynnwys yr archwiliad yma yn y cynllun blynyddol. Fodd bynnag, dewis yr Aelodau yw mynychu cyfarfodydd yn rhithiol neu wyneb yn wyneb. Mae ffigyrau presenoldeb prif gyfarfodydd yn dangos cysondeb o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

4.4 Mynegodd pob ymateb eu bod yn ymwybodol sut mae derbyn cefnogaeth gan yr Awdurdod am eu llesiant. Cafwyd cadarnhad bod yr Awdurdod wedi bod yn treialu pecyn gwasanaeth 360-Wellbeing gyda staff yr Awdurdod gyda'r bwriad o ymestyn y gwasanaeth i'r Aelodau os oedd y gwasanaeth yn profi'n addas. Mae cymorth iechyd meddwl, cwnsela ayyb, yn cael ei gynnig fel rhan o'r pecyn. Ym mis Chwefror 2024, cymeradwyodd y Tîm Rheoli i gynnig y pecyn 360-Wellbeing i'r Aelodau, a bydd ar gael iddynt yn fuan.

4.5 Gwelwyd fod gan yr Awdurdod amryw o swyddogion wrth law i gynnig cefnogaeth i'r Aelodau, gan gynnwys Swyddog Gwasanaethu Aelodau, a derbyniwyd rhestr o'r holl gyfleoedd hyfforddiant sydd ar gael iddynt. Mynychodd yr Archwiliwr 'ddiwrnod datblygu aelodau' fel rhan o waith ar archwiliad gwahanol, sy'n ddiwrnod pob chwe mis i'r Aelodau ddysgu ac i ymweld â gwaith yr Awdurdod, sy'n cael ei weld fel cyfle gwerthfawr i Aelodau a swyddogion gymysgu. Cafwyd cadarnhad bod yr Aelodau yn cael eu gwerthuso gan y Cadeirydd yn flynyddol ac mae unrhyw sylwadau neu anghenion yn cael eu bwydo ymlaen i'r Tîm Rheoli. Sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen Adolygu Llywodraethu er mwyn cryfhau trefniadau llywodraethu, ac fel rhan o waith y Grŵp, rhannwyd holiadur er mwyn, ymysg eraill, holi am yr angen am fentora ac unrhyw ofynion hyfforddiant.

4.6 Yn dilyn yr ymatebion dderbyniwyd, er gwaethaf y niferoedd isel, gan fod dim tystiolaeth i'r gwrthwyneb wedi dod i'r amlwg, gellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn y gefnogaeth sydd ar gael. Yn unfrydol, roedd yr ymatebwyr yn argymell i eraill ymgeisio i fod yn Aelod o'r Awdurdod.

4.7 Roedd yr holiadur yn gofyn cwestiwn atodol, thu hwnt cwmpas yr archwiliad yma, sef holi os yw'r Aelodau wedi cael cynnig rhodd neu letygarwch o werth materol gan unigolyn neu sefydliad allanol yn y dair blynedd diwethaf, ac os ydynt yn ymwybodol o drefniadau'r Awdurdod o ran ei ddatgelu. Mynegwyd yn y 4 ymateb eu bod yn ymwybodol o'r drefn ond dim ond un fynegodd ei fod wedi cael cynnig rhodd neu letygarwch.

# GWIRFODDOLWYR

## 1. Cefndir

1.1 Mae modd gwirfoddoli yn uniongyrchol gyda'r Parc Cenedlaethol neu drwy gynllun Caru Eryri sy'n cael ei redeg mewn partneriaeth â Chymdeithas Eryri, y Bartneriaeth Awyr Agored a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae'r cyfleoedd gwirfoddoli yn cynnwys casglu sbwriel, plannu coed a bod yn wardeiniaid gwirfoddol ar Yr Wyddfa neu mewn gwahanol leoliadau.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle i uchafu'r defnydd o wirfoddolwyr, a hynny mewn modd priodol a diogel. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio trefniadau'r Awdurdod o hybu cyfleoedd i wirfoddoli, trefniadau gweinyddu a chyd-gordio gweithgareddau, ynghyd a threfniadau iechyd a diogelwch y gwirfoddolwyr.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| **DIGONOL** | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| **UCHEL IAWN** | 0 |
| **UCHEL** | 0 |
| **CANOLIG** | 1 |
| **ISEL** | 0 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Derbyniwyd copi o'r Strategaeth Gwirfoddoli 2021-26, sy'n cynnwys gwybodaeth am y broses recriwtio, sesiynau hyfforddiant, iechyd a diogelwch, yswiriant, costau, diogelu plant, ymddygiad a chyfrinachedd, yn ogystal â diogelu data. Mae hefyd llawlyfrau penodol ar wahanol gynlluniau ar gael e.e. Warden Yr Wyddfa. Gwelwyd bod cyfrifoldebau a disgwyliadau yr Awdurdod a'r gwirfoddolwyr wedi eu cynnwys yn y dogfennau yma.

5.2 Mae'r Awdurdod wedi sefydlu tudalen Gwirfoddoli ar eu gwefan. Mae'r dudalen yn gwneud ymdrech dda i geisio annog gwirfoddolwyr i ymuno, ac yn nodi pa gyfleoedd sydd yno a sut i gofrestru. Yn ogystal, mae linciau at sefydliadau allanol, megis Caru Eryri wedi eu cynnwys ac astudiaethau achos o wahanol wirfoddolwr, ynghyd â ffurflen gais syml er mwyn cofrestru diddordeb mewn gwahanol feysydd. Holwyd ynglŷn â threfniadau diogelu data wrth lenwi'r ffurflen gais, a cadarnhaodd y Swyddog Gwirfoddoli nad yw'r data yma yn cael ei gadw gan yr Awdurdod, ond bod cwmni'r wefan yn cadw'r data am gyfnod o flwyddyn ac yna byddant yn cael eu dileu. Ni welwyd yn ystod yr archwiliad bod llawer o wybodaeth ynglŷn â diogelu data ar y dudalen gwirfoddoli, ond wedi trafodaeth ychwanegwyd linc at y polisi preifatrwydd ar y dudalen.

5.3 Unwaith bydd gwirfoddolwyr yn gwneud ymholiad drwy wefan yr Awdurdod, mae angen iddynt greu cyfrif drwy blatfform 'BetterImpact', caiff ei weinyddu gan Gymdeithas Eryri er mwyn cynllunio digwyddiadau ymlaen llaw, ac i alluogi cynllunio eu cyfranogiad yn effeithiol. Gwiriwyd os oedd yr Awdurdod yn diogelu data personol ar y system yn briodol, ond nid oedd y Swyddog Gwirfoddoli yn ymwybodol am ba mor hir oedd y system yn cadw dogfennau personol, ond gwelwyd enghraifft o e-byst sy'n cael eu hanfon allan yn flynyddol i gadarnhau os yw'r gwirfoddolwyr yn hapus i barhau i gael eu manylion ar y system a'u peidio. Os bydd manylion y gwirfoddolwyr yn cael eu dileu, yna byddant yn mynd i ffolder 'Archif.' Mae'n ymddangos nad oes trefniadau pendant mewn lle i ddileu rhain, gan welwyd bod manylion ers rhai blynyddoedd yn parhau ar y system.

5.4 Darganfuwyd bod yr Awdurdod yn darparu naill ai sesiwn anwytho a hyfforddiant neu sesiwn briffio a goruchwyliaeth i bawb sy'n cael eu derbyn fel gwirfoddolwyr. Mae'r sesiynau hyfforddiant yn ddibynnol ar hyd y cyfnod gwirfoddoli a gofynion y gweithgaredd ac yn rhoi dealltwriaeth o amcanion yr Awdurdod a galluogi gwirfoddolwyr i gymryd rhan yn ddiogel ac yn effeithiol. Gwelwyd bod cymwysterau yn cael eu nodi ar y platfform 'MyImpact', a chadarnhaodd y Swyddog Gwirfoddoli bod staff yn gwirio os yw'r gwirfoddolwyr wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol ar gyfer y gweithgaredd penodol. Mae disgwyliad i'r gwirfoddolwyr gwblhau ffurflen cyn cychwyn y gweithgaredd ac yna bydd y swyddogion yn eu gwirio ac yn edrych ar eu proffiliau ar y platfform. Derbyniwyd gopi o asesiadau risg a bod copi caled o'r asesiad ar gael ar y diwrnod, ble mae'r staff yn mynd dros y risgiau ar ddechrau'r diwrnod gwaith.

## 6. <u>Camau Gweithredu</u>

**Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Cysylltu gyda gwirfoddolwyr yn flynyddol er mwyn diweddaru data personol sy'n cael ei gadw ar system 'Better Impact' a gadael iddynt wybod bod modd iddynt ddileu eu proffil oddi ar y system yn gyfan gwbwl (yn cynnwys yr archif) drwy gysylltu gyda aelod o staff Cymdeithas Eryri neu Swyddog Gwirfoddoli APCE.**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD:** | 09 Gorffennaf, 2025 |
| **TEITL:** | **ADRODDIAD DIWEDDARU GRANTIAU ARIANNU ALLANOL** |
| **AWDUR:** | Prif Weithredwr |
| **PWRPAS:** | Darparu diweddariad ar y prosiectau a gefnogir gan yr Awdurdod a chadarnhau blaenoriaethau ar gyfer cymorth grant allanol yn y dyfodol |

**1. CEFNDIR:**

1.1 Yn y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mis Tachwedd 2022 cyflwynwyd adroddiad cynhwysfawr yn amlinellu sut mae'r Awdurdod wedi defnyddio cyllid grant allanol yn y blynyddoedd diwethaf. Mae diweddariad wedi'i ddarparu bob 6 mis ac mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar y prosiectau a gefnogir gan yr Awdurdod.

1.2 Yn dilyn gohebiaeth â Swyddfa’r Gweinidog ar gymhlethdodau darparu grantiau tymor byr a’r angen i sicrhau bod Aelodau’n cymryd rhan yn y broses o gymeradwyo prosiectau/rhaglenni, bu’r Aelodau’n trafod ac yn mabwysiadu’r broses fel y’i hatodwyd yn Atodiad 2. (Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau Mawrth 2022).

1.3 Amlygodd Archwilio Cymru y pwysau y mae cefnogi darpariaeth trwy ffynonellau grant yn ei roi ar sefydliad. Mae mesurau wedi’u rhoi ar waith i fynd i’r afael â rhai o’r materion a nodwyd. Mae'r pecyn cymorth prosiect mabwysiedig (a gymeradwywyd gan Weithgor aelodau 22.05.19 ac a ddiwygiwyd ers 28.01.22 i gynnwys y Polisi Iaith Gymraeg ar Ddyfarnu Grantiau) yn cael ei ddefnyddio gan swyddogion i asesu effaith unrhyw brosiect ar yr Awdurdod.

**DIWEDDARIADAU AR BROSIECTAU**:

2. **Tirweddau Cynaliadwy Llefydd Cynaliadwy (TCLIC). Arian Cyfalaf Llywodraeth Cymru:**

2.1 **2022-2025:** Yn 2022 cymeradwyodd Llywodraeth Cymru raglen cyllid cyfalaf tair blynedd ar gyfer y cyfnod 01 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2025 – cyfanswm o hyd at £2,5000, 000 dros y cyfnod o dair blynedd. Y themâu strategol a'r dyraniad grant ar gyfer cyllid TCLIC 2022-25 oedd:

- Twristiaeth Gynaliadwy £897,000
- Cefnogi Cymunedau £480,000
- Datgarboneiddio £553,000
- Adfer Natur £570,000

Erbyn diwedd mis Mawrth 2025, roedd yr holl brosiectau a ariannwyd o fewn y cyfnod tair blynedd wedi'u cwblhau a'u cyflawni o fewn y gyllideb a'r amserlen. Mae adroddiad llawn ar ganlyniadau a chyflawniad y cyllid grant drwy gydol ei gyfnod rhwng 2022-25 yn cael ei baratoi a bydd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru mis Gorffennaf. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau nesaf.

2.2 **2025-2027**: Gan adeiladu ar raglen 3 blynedd flaenorol y Cynllun TCLIC, cymeradwyoedd Llywodraeth Cymru raglen fuddsoddi cyfalaf 2 flynedd bellach ar draws yr wyth Tirwedd Dynodedig yng Nghymru i sicrhau y gallent gyfrannu at amcanion allweddol Llywodraeth Cymru. Mae cyllid o hyd at £1m yr un wedi'i gymeradwyo dros y ddwy flynedd. Yn ogsytal â'r rhaglen dargedig hon, mae dyraniad o £330k y flwyddyn o gyllid cyfalaf cyffredinol pellach wedi'i ddyfarnu.

Mae gan y Gronfa Natur a Charbon 2025-27 gysylltiad polisi cryf â blaenoriaethau LIC a dibenion statudol a chyfrifoldebau allweddol Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a bydd yn darparu dull wedii dargedu i fynd i'r afael â nhw.

Mae gan y Gronfa ddau brif gainc:

- **Hyrwyddo Bioamrywiaeth ac Adfer Natur** – yn cynnwys prosiectau sy'n gwella cysylltedd a gwydnwch ecosystemau mewn ardaloedd dynodedig, a/neu'n defnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur i liniaru effeithiau newid hinsawdd.

- **Cyflymu Datgarboneiddio** – trwy ddatgarboneiddio gweithgaredd ac asedau'r Awdurdod tuag at sero net, cynlluniau i alluogi datgarboneiddio mewn cymunedau gan gynnwys ynni adnewyddadwy priodol, a chynlluniau atafaelu carbon yn y dirwedd.

Yn dilyn cyflwyno amrywiaeth o brosiectau, mae prosiectau 2 flynedd Eryri bellach wedi'u cadarnhau gan Lywodraeth Cymru:

2.2.1 **Prosiect Nos Eryri: £170k**
Mae'r prosiect yn deillio o waith prosiect NOS ac yn ymchwilio ymhellach i agweddau bioamrywiaeth tywyllwch a'r rhywogaethau sy'n ddibynnol ar amodau tywyll i ffynnu. Bydd y gwaith yn diogelu ac yn gwella amodau cynefinoedd rhywogaethau wedi'u blaenoriaethu gan greu amodau gwell i ffynnu a bridio'n fwy effeithiol. Mae gennym ffocws penodol ar glwydfannau ystlumod.

2.2.2 **Dŵr Gwyllt Eryri: £300k**
Bydd y prosiect dyfrol hwn yn edrych ar gyflawni'r prosiectau adfer afonydd gan arwain at naturioli sianeli a llifau, cael gwared ar rwystrau mudo pysgod gan agor mwy o gynefinoedd a gwell cysylltedd ar hyd ardaloedd glannau afonydd. Bydd hyn yn gwella amodau ar gyfer rhywogaethau allweddol fel eog yr Iwerydd, lamprai, brithyll a dyfrgwn i enwi ond ychydig. Mae'r rhain yn rhywogaethau allweddol mewn sawl Ardal Cadwraeth Arbennig yn Eryri.

2.2.3 **Coed a Choetiroedd Hynafol: £170k**
Cefnogaeth barhaus i'r Arolwg Coetiroedd Hynafol a'r rhaglen waith.

2.2.4 **Cynhyrchu Trydan Adnewyddadwy ar safloedd: £160k**
Gwaith gosod to ffotofoltaig solar a gwella inswleiddio to yng Nghanolfan Wybodaeth Aberdyfi. Gosod to ffotofoltaig solar ar Fwngalo Yr Ysgwrn, tŷ cychod, swyddfa, toiledau a chawodydd cyhoeddus blaendraeth Llyn Tegid.

2.2.5 **Dadgarboneiddio Dolgellau Hanesyddol: £200k**
Bydd y prosiect yn datblygu cyfleoedd i adfer natur o fewn Ardal Gadwraeth Dolgellau trwy osod blychau bioamrywiaeth (ystlumod, gwenoliaid at ati) ar adeiladau traddodiadol. Bydd y prosiect hefyd yn gweithredu ar gyfleoedd i wella cyflwr awyr dywyll yr ardal gan wella cynefinoedd ac amodau ar gyfer bioamrywiaeth.

2.3 Mae dyraniad y pot cyllid cyfalaf cyffredinol yn Eryri wedi'i drafod ac mae prosiectau cychwynnol wedi'u cytuno yn cynnwys ariannu prosiectau datgarboneiddio o fewn Cronfa Cymunedau Eryri a llwyfan twristiaeth gynaliadwy.

3. **CRYNODEB O BROSIECTAU/ RHAGLENNI GWEITHREDOL CYFREDOL:**

3.1 Gellir gweld statws diweddaraf y prosiectau cyfredol yn Atodiad 3.

3.2 **Partneriaeth y Parciau Cenedlaethol a Sefydliad y Parc Cenedlaethol:**
Mae cyfleoedd ariannu pellach ar raddfa lai yn cael eu darparu trwy ymdrechion naill ai Partneriaeth y Parc Cenedlaethol neu Sefydliad y Parc Cenedlaethol. Bydd y rhain yn cael eu hadrodd i'r aelodau wrth iddynt gael eu cynnig i'r Awdurdod.

3.3. **Cronfa Rhwydwaith Natur:**
Adroddwyd i'r Pwyllgor diwethaf fod cais wedi'u chyflwyno i'r Gronfa gwerth tua £968k yn canolbwyntio ar reoli coetiroedd hynafol yn well o fewn ardaloedd fforestydd glaw tymherus er mwyn gwella cyflwr yr ACA a'r SoDDGA. Yn anffodus, ni chymeradwywyd y cais yn 2024 ond gwahoddwyd yr Awdurdod i ailgyflwyno'r cais yn 2025.

**4. PROSIECTAU NEWYDD:** Isod rhai o'r prosiectau newydd fydd wedi/yn dechrau yn 2025:

4.1 **Ffermio Bro:** Mae Ffermio Bro yn rhaglen grantiau cyfalaf tair blynedd ar gyfer Tirweddau Dynodedig Cymru sy'n rhedeg tan 2028. Mae'n rhaglen drawsnewid i haen gydweithredol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd. Mae gan y cynllun gyllideb o £1.8M ym mlwyddyn un, a chyllideb wedi'i hamserlennu o £3.2M y flwyddyn ym mlynyddoedd dau a thri.
Mae cylch gorchwyl cenedlaethol ar gyfer y paneli cymeradwyo wedi'i sefydlu gan Lywodraeth Cymru.
Mae gan Eryri gyfrifoldeb cyflawni yn AHNE Llŷn a Môn.
Mae swyddogion wedi'u penodi ac wedi dechrau yn eu swyddi.

4.2 **Rhaglen Gweithredu Cenedlaethol Mawndiroedd. Eryri+ 2025-2028**
Gan adeiladu ar ein llwyddiant blaenorol yn y maes hwn, cyfanswm o £1,200,000 o gyllid grant dros dair blynedd o £400k y flwyddyn. Bydd y gwaith yn cynnwys arolwg a rhaglen adfer o fewn Eryri a thu allan, gan gwmpasu hyd at 15km y tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol, yn ogystal ag ar ACA Berwyn, Hiraethog a Phen Llŷn. Mae themâu'r rhaglen yn cynnwys prosiectau i reoli erydiad, draenio, rheolaeth gynaliadwy o fawndiroedd blanced a thir isel, adfer mawndiroedd wedi'u coedwigo a rhai wedi'i haddasu'n eithafol.

Dechreuodd y prosiect ar 01.04.2025 ac mae swyddogion wrthi'n arolygu safleoedd, yn paratoi caniatâd a thrwyddedau, yn ysgrifennu cynlluniau adfer, ac yn dylunio dogfennau tendro. Mae gwaith yn y flwyddyn ariannol hon wedi'i gynllunio ar 14 safle sy'n cwmpasu 136ha, ond gallai hyn newid.

4.3 **Waliau Eryri:** Rhaglen werth £300k a ariennir gan y Grid Cenedlaethol i adfer a chodi waliau cerrig sych a ffensys neidio newydd. Mae cytundebau gwaith yn cael eu gosod gyda'r tirfeddianwr yn gyfrifol am gyflawni'r gwaith.

4.4 **Cyllideb cronfa y Pethau Pwysig 2025-26**:
Derbyniwyd £300k ar gyfer gwaith gwella toiledau cyhoeddus yng Nghwellyn, Llangywer a Nant Gwynant.

Derbyniwyd £300k tuag at waith tirlunio a dehongli yn y cwrt y tu allan i Ganolfan Groeso Betws y Coed, rhan o'r gwaith ailddatblygu ar y safle.

5. **PROSIECTAU'R DYFODOL:**

5.1 Ers 2020 mae Aelodau wedi darparu cyfeiriad strategol i Swyddogion o ran blaenoriaethau'r Awdurdod wrth wneud cais am arian grant. Yn dilyn yr adroddiad diwethaf gofynnodd yr aelodau am i flaenoriaethau o'r fath gael eu grwpio fel penawdau thematig yn hytrach na rhestr o brosiectau a ffafrir. Mae hwn wedi'i ddiweddaru a gellir ei weld yn Atodiad 1.

5.2 Mae'r Aelodau'n ymwybodol o'r amserlenni sy'n ymwneud â rhai ceisiadau grant a dyna pam mae'r Awdurdod yn adolygu ei flaenoriaethau yn flynyddol.

Mae Atodiad 2 yn amlinellu'r siart llif sy'n dangos sut mae'r Awdurdod yn ystyried/cymeradwyo cynigion grant. Yn dilyn cyngor Archwilio Cymru, mae Aelodau wedi cadarnhau bod angen cymeradwyaeth yr Aelodau ar gyfer cynigion grant yn y sefyllfaoedd a ganlyn:

- Unrhyw brosiectau aml-flwyddyn.
- Unrhyw gynnig nad yw'n cyd-fynd â blaenoriaethau strategol cytûn.
- Unrhyw gynnig a gyfeirir at aelodau gan y Cadeirydd neu'r Prif Weithredwr
- Unrhyw gynnig yn ystod y flwyddyn uwchlaw terfyn ariannol y cytunwyd arno (£150,000)

Cynigion y dylid eu nodi yw:

- Rhandaliadau blynyddol mewn rhaglen aml-flwyddyn gymeradwy
- Unrhyw brosiect yn ystod y flwyddyn islaw trothwy y cytunwyd arno.

**6. BLAENORIAETHAU APCE AR GYFER CYNNIGION CYFALAF A REFENIW: (Gweler Atodiad 1)**

6.1 Ar gyfer 2025-26 ymlaen rwy'n cynnig cynnwys dau bennawd thematig pellach:

- ➢ Cynyddu cyfleoedd i bobl mewn grwpiau agored i niwed neu dan anfantais elwa o'r dirwedd.

- ➢ Sicrhau bod Cymunedau'r Parc Cenedlaethol yn ymwybodol o brosiectau'r Awdurdod ac yn elwa ohonynt.

7. **ARGYMHELLION:**

**7.1 Nodi'r diweddariad ar y prosiectau arian cyfalaf**
**7.2 Nodi prosiectau gweithredol cyfreol a newydd**
**7.3 Ystyried a chymeradwyo'r ddau bennawd thematig ychwanegol a chadarnhau meysydd blaenoriaeth ar gyfer cynigion yn y dyfodol (Atodiad 1)**
**7.4 Nodi'r Siart Llif Datblygu a Chymeradwyo Prosiectau (Atodiad 2)**
**7.5 Nodi cynnydd ar brosiectau byw (Atodiad 3)**

**ATODIAD 1**

## BLAENORIAETHAU APCE AR GYFER CYNIGION CYFALAF A REFENIW:

Mae’r Aelodau’n ystyried blaenoriaethau ceisiadau grant yr Awdurdod yn flynyddol. Mewn blynyddoedd blaenorol, nodwyd y rhain fel prosiectau penodol. Yn unol â chais yr aelodau, mae'r rhain bellach o dan benawdau thematig strategol y gellir eu cysylltu â'n dogfennau strategol a statudol.

1. Adferiad Natur,
2. Addasu a lliniaru newid yn yr hinsawdd,
3. Rheoli ein treftadaeth ddiwylliannol,
4. Mynd i'r afael â heriau pwysau pobl ar ein hamgylchedd a'n cymunedau,
5. Datblygu cyfleoedd hamdden newydd/gwell (cerdded/beicio/marchogaeth),
6. Datblygu cyfleoedd lles,
7. Cynigion datgarboneiddio – mewnol ac allanol i'r Awdurdod,
8. Hyrwyddo’r defnydd o’r Gymraeg gyda’n defnyddwyr/cwsmeriaid,
9. Datblygu economi twristiaeth gynaliadwy,
10. Cefnogi pobl ifanc,
11. Rheolaeth a dealltwriaeth o'n Rhinweddau Arbennig.

**Ar gyfer 2025-26 ymlaen rwy’n cynnig cynnwys dau bennawd thematig pellach:**

12. Cynyddu cyfleoedd i bobl mewn grwpiau agored i niwed neu dan anfantais elwa o’r dirwedd.

13. Sicrhau bod Cymunedau’r Parciau Cenedlaethol yn ymwybodol o brosiectau’r Awdurdod ac yn elwa ohonynt.

## CYLLID ALLANOL : DATBLYGU A CHYMERADWYO RHAGLENNI / PROSIECTAU

- CYNLLUN RHEOLAETH Y PARC CENEDLAETHOL
- DATGANIAD LLESIANT
- CYNLLUN DATBLYGU ERYRI
- BLAENORIAETHAU LLYWDORAETH CYMRU A GWEINIDOGAETHOL

↓

BLAENORIAETHAU AELODAU/AWDURDOD ar gyfer PROSIECTAU A RHAGLENNI (CYLLID ALLANOL)

↓

AELODAU'N ADOLYGU BLAENORIAETHAU A MONITRO CYNNYDD

↓

DATBLYGU PROSIECT / RHAGLEN (Swyddog)

- Cyfleoedd Ariannu
- Partneriaethau
- Cydweddu â Dibenion y Parc Cenedlaethol
- Cydweddu â Blaenoriaethau'r Awdurdod
- Pecyn Cymorth Rheoli Prosiectau (Amserlenni, Costau, Gallu i Gyflawni, Cynhwysedd, Strategaeth Ymadael, Risgiau i Enw Da ac ati)

↓

Y BWRIAD: Tim Rheoli / Cadeirydd

↓

Y CYNNIG: Derbyn / Gwrthod (PW / Cadeirydd)

↓

HYSBYSU AELODAU (Awdurdod / PaA)

(↺ yn ôl i: AELODAU'N ADOLYGU BLAENORIAETHAU A MONITRO CYNNYDD)

# TROSOLWG O BRIF BROSIECTAU CYFREDOL PCE DIWEDDARIAD 6 MISOL: Hyd at Mehefin, 2025 — ATODIAD 3.

| PROSIECT A Manylion | Dyddiad Dechrau / Diweddd Cyfanswm Cyllid | (PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod | CRYNODEB O'R TARGEDAU / ALLBYNNAU | CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ALLBYNNAU<br>CYNNYDD TACHWEDD 2024 – MEHEFIN 2025 |
|---|---|---|---|---|
| **PARTNERIAETH TIRWEDD Y CARNEDDAU**<br><br>Helpu i warchod treftadaeth o dan fygythiad y Carneddau | Ionawr 2020<br>⇩<br>~~30.09.2024~~<br>31.12.2025<br>⇩<br>Gyda dyddiad cau swyddogol y prosiect Mawrth 2026.<br><br>**£4,170,776**<br><br>APCE yn arwain gyda phartneriaid | Dim pryderon a risgiau wedi'u lleihau'n sylweddol yng nghyfnod olaf y prosiect | Cylchdaith y Carneddau: Creu llwybr cerdded lefel isel 63km + arwyddion, gatiau ac ati<br><br>Rhaglen Weithgaredd Ysgolion / Gwirfoddolwyr.<br>Eiriolaeth dros yr Ucheldiroedd:<br>Ymgysylltu Treftadaeth Ddiwylliannol â'r Amgylchedd Hanesyddol<br>Cadwraeth Adnoddau Naturiol<br>Lleisiau'r Carneddau | **Mae'r Cynllun yn ei flwyddyn olaf bellach.**<br><br>**Bydd yr elfen weithredol yn cael ei gwblhau erbyn Rhagfyr 2025 a'r elfen weinyddol a chynllunio gwaddol erbyn 2026. Mae'r holl incwm wedi'i gadarnhau erbyn hyn a'r gyllideb yn parhau i gael ei hadolygu'n barhaus.**<br><br>**Mae'r cynllun wedi cyflawni ar y mwyafrif llethol o allbynnau a chanlyniadau ac rydym yn rhagweld byddent wedi'u cyflawni yn llawn erbyn diwedd y Cynllun.**<br><br>**Mae'r gwaith dehongli yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd, drwy weithio gydag ymgynghorydd llawrydd. Mae'r cydweithio hwn yn gweithio'n dda.**<br><br>**Mae digwyddiadau dathlu'r gwaith rheoli eithin wedi'u trefnu ar gyfer yr Haf a bwriedir cynnal digwyddiad lansio prosiect Lleisiau'r Carneddau yn yr Hydref.**<br><br>**Rydym yn hynod falch o ymroddiad y tim staff i'r gwaith a chynllunio'r gwaddol (cynllun 5-10 mlynedd ar ôl diwedd y Cynllun) yn digwydd ar y cyd â phartneriaid. Bydd diweddariad llawn ar gael ar yr elfen bwysig hon erbyn mis Medi.** |

| PROSIECT A Manylion | Dyddiad Dechrau / Diweddd Cyfanswm Cyllid | (PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod | CRYNODEB O'R TARGEDAU / ALLBYNNAU | CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ALLLBYNNAU<br>CYNNYDD TACHWEDD 2024 – MEHEFIN 2025 |
|---|---|---|---|---|
| **PROSIECT COEDWIGOEDD GLAW CELTAIDD CYMRU LIFE**<br>Cynnyrch degawd o ymdrech i gaffael cyllid trwy raglen Natur a Bioamrywiaeth LIFE y Comisiwn Ewropeaidd i fynd i'r afael â bygythiad *Rhododendron ponticum* (Rp) ar goetiroedd derw brodorol ffin môr yr Iwerydd yng Nghymru. | ~~Awst 2018~~<br>⇩<br>~~Gorffennaf 2025~~<br><br>Gorffennaf 2027<br><br>**£7,604,648**<br><br>APCE yn arwain gyda phartneriaid | ❖ Methu â chyflawni'r holl allbynnau, yn bennaf oherwydd problemau staffio<br><br>❖ Risg uchel o golli staff wrth i'r prosiect fynd i mewn i'w ddwy flynedd olaf a dyddiadau diwedd contractau yn agosau<br><br>Mae'r prosiect i raddau helath yn parhau i fod ar y trywydd iawn i gyflawni'r targedau a'r cerrig milltir, er bod problemau gyda rôl y Swyddog Ymgysylltu dros y 4 blynedd diwethaf yn golygu bydd y Camau Gweithredu penodol sy'n ymwneud â recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr yn cael eu methu oni bai eu bod yn cael eu rhoi ar gontract allanol i'w cyflawni. | 1. Gwaredu *Rhododendron ponticum* o 5 ACA a'r ardal glustogi<br>DPA = **7,961.20ha**<br><br>2. Ymgymryd â rheolaeth coetirol arall gan gynnwys **adfer 180ha** o goetir PAWS a chyflwyno pori cadwraeth ar safleoedd coetirol.<br><br>3. Creu Pecyn Cymorth Rheoli Rp sy'n cymeradwyo'r dull 3 cham o ddileu Rp, ac yn cynnal lleiafswm o 20 o ddigwyddiadau arddangos a rhwydweithio a 12 astudiaeth achos sy'n gysylltiedig ag amcanion y prosiect.<br><br>4. Ymgysylltu ag o leiaf 2,100 aelod o'r cyhoedd wedi'u lleoli mewn cymunedau targed yng Nghymru, gan gynnwys o leiaf 800 o ddisgyblion ysgol. (80 sesiwn ysgol) | **Erbyn diwedd mis Mawrth 2025 mae 9,940.04ha o dir o dan gytundebau rheoli Rp.**<br><br>**177.79 ha o waith adfer coetir PAWS wedi ei gwblhau neu ar waith**<br><br>**Wedi cyflwyno pori cadwraethol i 297ha o goetir (yn erbyn DPA o 227 ha).**<br><br>**242.1 ha o waith rheoli coetir "arall" wedi'i gwblhau (yn erbyn targed DPA o 130ha)**<br><br>➢ **Mae'r pecyn cymorth Rp wedi ei gyhoeddi**<br>➢ **Cynhaliwyd 24 o ddigwyddiadau arddangos, gan gyrraedd cynulleidfa o 452 o bobl**<br>➢ **Cynhyrchwyd 7 astudiaeth achos hyd yma**<br><br>➢ **Mae'r nifer o bobl wedi'u ymgysylltu â hwy yn sylweddol uwch na targed y DPA o 2,100, gyda dros 9,219 wedi'u hymgysylltu**<br>➢ **Cwblhawyd 78 o sesiynau ysgol/coleg gan gyrraedd 1,601 o ddisgyblion a 199 o athrawon/staff . (Yn erbyn DPA o 800)**<br>➢ **Cynhaliwyd 5 sesiwn "hyfforddi'r hyfforddwyr" gan gyrraedd 36 o uniglion.**<br><br>**Mae trefniadau bellach yn cael eu cwblhau ar gyfer Cynhadledd Diwedd y Prosiect, sef un o brif ganlyniadau'r prosiect, a gynhelir ym Mhrifysgol Bangor ar 14 a 15 Ebrill, 2026. Bydd y digwyddiad deuddydd yn dathlu cyflawniadau prosiect LIFE Coed Glaw Celtaidd, gan roi cyfleoedd i gynrychiolwyr a rhanddeiliaid gyfrannu eu barn ar fentrau yn y dyfodol drwy weithdai rhyngweithiol. Bydd ail ddiwrnod y gynhadledd yn cynnwys teithiau maes i weld rhywfaint o'r gwaith a wnaed gan y prosiect yn uniongyrchol.** |

| PROSIECT A Manylion | Dechrau / Diweddd Cyfanswm Cyllid | (PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod | CRYNODEB O'R TARGEDAU / ALLBYNNAU | CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ALLLBYNNAU<br>CYNNYDD TACHWEDD 2024 – MEHEFIN 2025 |
|---|---|---|---|---|
| PARTNERIAETH AWYR DYWYLL<br><br>Nod y prosiect yw lleihau effeithiau niweidiol llygredd golau ar iechyd pobl, bioamrywiaeth a'r noswedd trwy addysg, allgymorth cymunedol a thrwy weithredu ôl-ffitiadau goleuo. | Ionawr 2019<br>⇩<br><br>Partneriaid:<br>3 x AoDdGA : Pen Llŷn, Ynys Môn, Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy | ➢ Swyddog yn gadael y swydd: mae angen rhaglen fonitro flynyddol i gynnal statws yr Awyr Dywyll.<br><br>➢ Mae angen monitro llygredd golau yn barhaus gyda thystiolaeth am ddigwyddiadau ac adroddiadau blynyddol yn cael eu cyflwyno i'r IDA. Gellir diddymu'r dynodiad os na chyflawnir hyn.<br>➢ Wrth i'r prosiect barhau i dyfu fe allai fynd yn rhy fawr i un swyddog prosiect ei reoli.<br>➢ Gallai'r SP fynd i ffwrdd yn sâl dros y tymor hir<br>➢ Wedi addasu swydd ddsigrifiad Swyddog Prosiect Nos gan olygu fod costau wedi codi ar gyfer y rol.<br>➢ Costau staffio uwch ar y swyddog craidd a arianir gan pertneriaeth 4 tirwedd dynodedig.<br>➢ Pryderon am chwyddiant ar effeithiau ar y pertneriaid | Hyfforddi grŵp craidd o wirfoddolwyr i fonitro'r awyr dywyll o amgylch y Parc.<br><br>Cynnal ôl-ffitio ar safleoedd allweddol y Parc Cenedlaethol fel CC Betws Y Coed.<br><br>Cwblhau 3 cais awyd dywyll ar gyfer AOHNE<br><br>Cynnal 1 digwyddiad y mis ar-lein | ➢ **Mae Cam 3 bellach wedi'i gwblhau ac mae prosiect Tirweddau Cynaliadwy Llefydd Cynaliadwy (TCLIC) 2 wedi'i orffen. Rydym yn aros am adroddiad terfynol ar ganlyniadau'r holl waith ôl-osod ar draws yr 8 Tirwedd Dynodedig. Bydd yr adroddiad yn amlinellu arbedion ynni, gostyngiadau carbon a delweddau cyn ac ar ôl y gwaith ar yr holl safleoedd. Mae'r prosiect wedi cael derbyniad cynnes yn y Bala/Llanuwchllyn a'r ardal ehangach, gyda chynghorau cymuned o ardaloedd cyfagos yn gofyn i fod yn rhan o brosiectau yn y dyfodol. Mae Gwesty Llyn Bala bellach yn defnyddio'r prosiect er eu mantais, gan sefydlu eu hunain i fod yn Westy "Awyr Dywyll" cyntaf Cymru, gydag ymwelwyr eisoes yn archebu ar sail y cynllun goleuo newydd fel y gallant syllu ar y sêr.**<br><br>➢ **Gwnaed cais llwyddiannus i gynllun TCLI 3 i barhau â'r gwaith partneriaeth ledled Cymru. Mae'r cyllid, er ei fod yn llai nag a dderbyniwyd o dan TCLI 2, yn dal yn sylweddol, sef £500,000 i'w wario ar draws 2025/26. Bydd y gronfa hon yn cael ei chyhoeddi drwy Dirwedd Genedlaethol Bryniau Clwyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn hynod hapus gyda'r dull partneriaeth ac yn awyddus i ddatblygu a chryfhau'r dull hwn. Maent hefyd wedi tynnu sylw at y ffaith eu bod yn dymuno gweld agwedd ecolegol y prosiect yn cael ei ddatblygu drwy'r gronfa hon, rhywbeth y mae'r Swyddog Prosiect yn bwriadu ei wneud.**<br><br>➢ **Cwblhawyd gosod goleuadau ym maes parcio Betws y Coed yn gynnar eleni gan yr adran Eiddo. Mae'r maes parcio a Ffordd yr Orsaf yn cydymffurfio â gofynion awyr dywyll ac yn edrych yn llawer mwy cydnaws â dynodiad Cadwraeth Hanesyddol Betws y Coed.**<br><br>➢ **Cyhoeddwyd y ddogfen nodedig "Golau Da" gan Lywodraeth Cymru ar ddechrau Wythnos Awyr Dywyll Cymru ym mis Chwefror 2025. Cafodd llawer o ddiddordeb yn y cyfryngau ac mae eisoes yn cael ei ddefnyddio'n dda. Rydym wedi datblygu'r lansiad trwy gynnal seminar hyfforddi ar gynlluniau a rheolaeth goleuo wedi'i anelu at y rhai sy'n gweithio yn y sector cynllunio ac amgylcheddol. Bydd yr hyfforddiant hwn yn cael ei recordio a bydd ar gael ar-lein ar ôl y digwyddiad byw ar 17 Mehefin, 2025. Gobeithir y bydd yn cael ei weld fel offeryn gwych ar gyfer DPP ac yn gymorth i'r rhai sy'n gweithio yn y sector hwn. Mae'r Gweithgor yn parhau i gyfarfod ac yn datblygu'n gyson. Mae gwaith ar y gweill i dreialu dull newydd o fesur llygredd golau yn Eryri. Os bydd y dull hwn yn llwyddiannus, bydd o bosibl yn cael ei ddefnyddio ledled Cymru gyfan i fonitro llygredd golau ledled y wlad.** |

➢ **Mae cais NNF4 a gyflwynwyd mewn partneriaeth â Thirwedd Cenedlaethol Gogledd Cymru wedi bod yn llwyddiannus. Bydd y prosiect yn gweithio ar fap Rhwydwaith Ecolegol Tywyll arloesol. Dyma fydd y tro cyntaf i unrhyw fapio ecolegol o awyr dywyll gael ei geisio yn y DU ac Ewrop. Mae'r prosiect wedi dod ag ystod eang o academyddion, arbenigwyr a grwpiau cymunedol ynghyd i ddatblyg'r cais. Os bydd yn llwyddiannus, dylai Eryri gael swyddog prosiect ychwanegol.**
**Mae'r gwaith yma yn mynd rhagddo ac mae'r swyddog prosiect yn parhau i gynghori Cyfoeth Naturiol Cymru a Glynllifon with i'r prosiect ddatblygu.**

➢ **Mae cyllid Mannau Lleol dros Natur wedi cefnogi newid goleuadau stryd yng nghymuned Llanuwchllyn ac o amgylch Llyn Tegid fel eu bo yn cydymffurfio â gofynion awyr dywyll, cefnogwyd y gwaith hwn hefyd gan Gyngor Gwynedd.**

➢ **Cynhaliwyd Wythnos Awyr Dywyll Cymru 2025 rhwng Chwefror 9 a 18 ac unwaith eto roedd yn gydweithrediad rhwng yr 8 Tirwedd Ddynodedig. Roedd pob un o'r 3 digwyddiad yn Eryri wedi'u bwcio'n llawn.**

➢ **Dathlodd Wythnos Awyr Dywyll Cymru 2025 10fed pen-blwydd Eryri o ddod yn Warchodfa Awyr Dywyll, gyda dathliadau'n parhau drwy gydol 2025. Canolbwynt digwyddiadau yr Wythnos Awyr Dywyll oedd Eryri yn bennaf gan ei bod yn flwyddyn pen-blwydd. Fel bob amser, roedd yn hynod boblogaidd, gyda phob un o'r 7 digwyddiad yn Eryri wedi'u bwcio'n llawn, roedd rhestrau aros ar gyfer yr holl ddigwyddiadau cerdded nos (3 digwyddiad yn un â rhestr aros o bron i 60 o bobl) a'r saffaris "UV". Mae llwyddiant y digwyddiadau hyn wedi bod yn bennaf oherwydd cydweithio â phrosiectau eraill yn y Parc Cenedlaethol, fel prosiect y Carneddau. Heb staff y Carneddau, ni fyddai'r digwyddiadau hyn yn gallu cymryd y siâp y maent, nac yn**

agos at fod mor uchelgeisiol. Unwaith y bydd prosiect y Carneddau yn dod i ben yn 2025, bydd Swyddog Prosiect Awyr Dywyll yn ei chael hi'n anodd gynnal unrhyw ddigwyddiadau heb gefnogaeth staff sydd ei hangen yn fawr.**

- **Argraffwyd deunyddiau hyrwyddo newydd ar gyfer y pen-blwydd, gan ailwampio ein hen ddeunyddiau, yr oedd y stociau ohonynt wedi gorffen yn llwyr. Cynhyrchwyd mapiau newydd o'r ardal, cardiau post, posteri ac arwyddion. Roedd arwyddion gwreiddiol ar gyfer Gwarchodfa Cymdeithas Ryngwladol Awyr Dywyll mewn cyflwr gwael iawn ac roedd angen eu newid. Mae'r swyddog prosiect yn gobeithio cael y rhain yn eu lle erbyn diwedd yr haf.**

- **Mae dwy gymuned wedi cysylltu ag APCE am gefnogaeth i ddod yn gymunedau Awyr Dywyll, Cwm Penmachno a Llanuwchllyn. Mae'r swyddog prosiect yn cefnogi'r cymunedau i wneud cynllun.**

- **Mae'r BBC/Cwmni Da wedi bod yn dilyn y prosiect drwy gydol mis Ionawr-Mai i greu rhaglen ar Awyr Dywyll yng Nghymru. Bydd hyn yn cael ei ddarlledu ddiwedd yr haf/dechrau'r hydref ar BBC Cymru ac o bosibl BBC1. Gobeithir y bydd y lefel hon o gyhoeddusrwydd yn cryfhau'r negeseuon ar lygredd golau yng Nghymru ac yn arddangos gwaith da Parc Cenedlaethol Eryri mewn gwirionedd.**

| PROSIECT A Manylion | Dechrau / Diweddd Cyfanswm Cyllid | (PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod | CRYNODEB O'R TARGEDAU / ALLBYNNAU | CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ALLLBYNNAU<br>CYNNYDD TACHWEDD 2024 – MEHEFIN 2025 |
|---|---|---|---|---|
| **GALLUOGI ADNODDAU NATURIOL A LLES LLYWODRAETH CYMRU (GANLl / ENRaW)**<br><br>**a**<br><br>**PARTNERIAETH NATUR LEOL ERYRI (PNLE)**<br><br>**Mae'r ddau brosiect wedi'u cyfuno** | Ebrill 2023 – Mawrth 2025<br><br>Cydweithrediad rhwng APCE ac amryw o gyrff anllywodraethol amgylcheddol<br><br>Mae gan y prosiect ddyraniad o £300,000 cyfalaf a £72,000 Refeniw wedi ei sicrhau ar gyfer 2023/24 gyda'r un swm wedi ei ddyranu ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 | ❖ **Newid staff:** Yn dilyn cyfnod o drosiant uchel yn swydd y Swyddog Bioamrywiaeth, rydym wedi cyrraedd sefydlogrwydd gydag 1 Swyddog Prosiect a 2 Swyddog Bioamrywiaeth (technegol/ymgysylltu) wedi eu penodi<br><br>❖ **Cynhwysedd:** Oherwydd derbyn yr arian yn hwyr yn y flwyddyn ariannol, mae gallu partneriaid i gyflawni prosiectau ar amser yn bryder. Rydym wedi contractio llwyth gwaith realistig, gan liniaru'r risg.<br><br>❖ **Oedi:** Mae tywydd gwael yn broblemus gan ei fod yn achosi oedi yn amserlenni gwaith contractwyr, gan effeithio ar amserlen y prosiect. | Mae rhaglen Lleoedd Lleol i Natur yn cefnogi'r blaeoriaethau strategol allweddol a nodir mewn deddfwriaeth ac yn helpu i gyflawni ymrwymiadau Bioamrywiaeth ac adferiad gwyrdd Llywodraeth Cymru. Nod y cynllun yw adfer a gwella asedau cyfalaf naturiol a darparu byd natur ar garreg eich drws lle mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus.<br><br>Mae'r PNLE wedi'i sefydlu fel rhan o brosiect ledled Cymru i greu dull cydweithredol o ddiogelu, gwella ac adfer bioamrywiaeth yn sgil yr argyfwng bioamrywiaeth. | **Mae'r rhaglen Lleoedd Lleol i Natur, sydd wedi olynu cyllid ENRaW, yn brosiect 2 flynedd a ariennir gyda chyfanswm dyraniad cyfalaf o £600k. Mae Partneriaeth Natur Leol Eryri yn cyflawni'r prosiect "Eryri Gwyrdd", gyda'r nod o gynyddu mynediad i fyd natur gyda sawl partner, trwy sefydlu gerddi cymunedol, plannu perllannau a choed brodorol, clirio rhywogaethau ymledol a dolydd blodau gwyllt, tra'n gwella bioamrywiaeth a chynefinoedd. Mae pob prosiect yn canolbwyntio ar ymgysylltu a chyfranogiad cymunedol trwy blannu coed, gwneud gwestai chwilod a diwrnodau addysg Cregyn Gleision Perlog Dŵr Croyw er enghraifft.**<br><br>**Dyma rai o'n partneriaiad prosiect:**<br>❖ **Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol**<br>❖ **Ymddiriedolaeth Nature Gogledd Cymru**<br>❖ **Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru**<br>❖ **Y Dref Werdd**<br>❖ **Cynghorau Cymuned**<br>❖ **Timau Wardeiniaid APCE**<br><br>**Yn dilyn recriwtio 2 Swyddog Bioamrywiaeth yn llwyddiannus, mae gwaith wedi dechrau ar ysgrifennu Cynllun Gweithredu Adfer Natur Eryri. Mae mwy o ffocws ar ymgysylltu wedi'i gyflwyno i hyrwyddo gwaith yr Adran, datblygu Partneriaeth Natur Lleol Eryri, a meithrin perthynas â chymunedau ar gyfer gwella bioamrwyiaeth.** |

| PROSIECT A Manylion | Dechrau / Diweddd Cyfanswm Cyllid | (PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod | CRYNODEB O'R TARGEDAU / ALLBYNNAU | CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ALLLBYNNAU<br>CYNNYDD TACHWEDD 2024 – MEHEFIN 2025 |
|---|---|---|---|---|
| **MENTER GWELLA TIRWEDD (MGT)**<br><br>**Y GRID CENEDLAETHOL** | Chwefror 2023<br>⇩<br><br>£200K | Dyddiad cychwyn wedi'i ohirio. Arweiniodd yr oedi at golli un tymor rheoli llystyfiant. Gallai hyn roi pwysau ar dorri digon o ardaloedd o fewn yr amser penodedig.<br>I liniaru'r risg – Mae cyfran dda o'r gwaith bellach o dan gontractau ac yn mynd rhagddo'n dda.<br><br>Mae'r dyfynbrisiau rydym yn eu derbyn am waith ar y prosiect hwn yn sylweddol uwch na'r hyn a gyllidebwyd.<br>I liniaru'r risg - mae cais wedi ei wneud am godiad ariannol.<br><br>Agwedd arwyddocaol o'r prosiect hwn yw adeiladu pont dros Anafon.<br>Mae'r agwedd hon yn annhebygol o ddigwydd gan fod cyngor cymuned wedi ei wrthwynebu. Mae opsiynau eraill yn cael eu hystyried gan arweinwyr prosiect.<br><br>Mae risg y gallai buddsoddi i reoli eithin a rhedyn fod am ddim os nad oes newid i'r pori ar y safle. Os bydd y pori yn parhau fel y mae, mae perygl y bydd eithin yn dychwelyd ymhen 10-15 mlynedd.<br>I liniarau – Trafodaethau gyda chymdeithas pori Aber a ChNC er mwyn denu Merlod y Carneddau i bori dros y gaeaf ar y safle. | Gwaredu 214ha o redyn ac eithin<br><br>15134m gwelliannau mynediad<br><br>1 pont newydd<br><br>1070 atgyweirio terfyn | **Mae'r prosiect MGT hwn sy'n rhan o Gronfa Dreftadaeth y Carneddau yn mynd rhagddo'n dda. Mae rheoli llystyfiant ar Ardaloedd Corfrestredig sensitif yn mynd rhagddo fel y cynlluniwyd gyda gwaith rhedyn trydedd flwyddyn i ddechrau yn fuan. O fewn yr ardaloedd targed ar gyfer clirio llystyfiant, bu gwelliant sylweddol. Mae cyfuniad o waith contractwyr a gwirfoddolwyr wedi caniatau i'r prosiect adfer safloedd archaeolegol pwysig.**<br><br>**Mae elfennau mynediad y prosiect hwn yn mynd yn dda. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi cwblhau'r holl elfennau sy'n berthnasol iddynt, felly hefyd APCE. Mae gan CNC un giat i'w gosod, ond fel arall wedi'i cwblhau'r gwaith.**<br><br>**Yn anffodus, mae unrhyw gynnydd ar waith adfer Bont Pwll Du yn araf. Mae drafft cyntaf yr adroddiad cysyniad wedi nodi pa opsiynau sy'n bosibl. Yn anffodus oherwydd costau dim ond un opsiwn sy'n bosib. Mae tim mynediad APCE yn gweithio ar ddatblygu'r opsiwn hwn.**<br><br>**Mae gwaith adfer ffiniau wedi'i gontractio allan ac yn aros i gael ei gwblhau ar hyn o bryd.** |

| PROSIECT A Manylion | Dechrau / Diweddd Cyfanswm Cyllid | (PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod | CRYNODEB O'R TARGEDAU / ALLBYNNAU | CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ALLLBYNNAU CYNNYDD TACHWEDD 2024 – MEHEFIN 2025 |
|---|---|---|---|---|
| **MENTER GWELLA TIRWEDD Y GRID CENEDLAETHOL**<br><br>**"MIND THE GAP"** | 2023 – 2026<br><br>£200k o gyfraniad gan MGT y Grid Cenedlaethol, mae'r holl gostau eraill (lleiafswm 25%) mewn nwyddau neu arian parod gan bartneriaid.<br><br>Ym mis Ebrill 2023, gwnaethom gais llwyddiannus gan dderbyn taliad ychwanegol o £41,509 i gyfrannu at allbynnau disgwyledig y dyfarniad gwreiddiol | **Dyddiad cychwyn wedi ei oedi:**<br><br>**Covid 19** – gweler prosiectau MGT uchod<br><br>**Colli Swyddog Prosiect:** gwaith wedi'i wasgaru ymhlith partneriaid. Hyblygrwydd o fewn yr Adran CCA i gwmpasu SP<br><br>**Oedi gyda chymeradwyaeth OFGEM sy'n golygu y gall rhanddeiliaid eraill geisio ffynonellau ariannu eraill** – cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda rhanddeiliaid i gadw'r rhai sydd â diddordeb yn frwdfrydig | 19.62 ha o reoli Rhododendron<br><br>310m o adfer llwyni<br><br>1,068m² o waith adfer waliau sych<br><br>1 adfer / ail adeilad<br><br>2,090 m o waith ffensio i reoli cynefinoedd<br><br>6,800 o goed llydanddail wedi'u plannu<br>160 o goed o fath parcdir wedi'u plannu | **Mae gwaith yn cael ei wneud gan bartneriaid y prosiect. Mae Ystad Wern wedi cyflwyno hawliad ym mis Tachwedd 2024 a mis Mai 2025. Mae'r ddau hawliad wedi cael eu monitro a'u talu. Mae'r gwaith yn cynnwys cliro Rhododendron Ponticum, adfer ffiniau a phlannu coetireoddd.**<br><br>**Mae rhai newidiadau i'r cytundebau gwreiddiol wedi cael eu cymeradwyo gan y swyddog prosiect. Nid yw'r newidiadau'n effeithio ar amcanion cyffredinol y prosiect.**<br><br>**Isod, diweddariad gan yr Ymddiriedoaleth Bywyd Gwyllt:**<br><br>**Mae cyflenwr wedi cael ei dendro a'i gymeradwyo i wneud y gwaith adnewyddu ysgubor Atcost. Roeddent i fod i ddechrau ar y gwaith ym mis Ionawr/Chwefror 2025 er mwyn osgoi tymor nythu adar ond ni roddwyd cymeradwyaeth cynllunio ar gyfer y deunyddiau adeiladu tan ddiwedd mis Mawrth, ac erbyn hynny roedd adar y to wedi dechrau nythu yn nho'r adeilad. Felly, mae'r gwaith wedi'i ohirio nes bod yr holl weithgaredd nythu o fewn cyfyngiadau'r adeilad wedi dod i ben.**<br><br>**Mae coed parcdir wedi'u plannu a'r caeau wedi'u ffensio gyda chymorth gwirfoddolwyr Cymdeithas Eryri.**<br><br>**Mae gwaith ffensio wedi'i gwblhau ar gyfer plannu gwrychoedd, mae'r coed wedi'u harchebu ac i'w plannu o Dachwedd 2025 ymlaen.**<br><br>**Mae contractau APCE gyda thirfeddianwyr wedi'u gosod. Mae gwaith ar y cytundebau hyn ar y gweill.** |

| PROSIECT A Manylion | Dechrau / Diweddd Cyfanswm Cyllid | (PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod | CRYNODEB O'R TARGEDAU / ALLBYNNAU | CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ALLLBYNNAU<br>CYNNYDD TACHWEDD 2024 – MEHEFIN 2025 |
|---|---|---|---|---|
| **Menter Gwella Tirwedd y Grid Genedlaethol**<br><br>**CYSYLLTEDD Y CARNEDDAU** | £200k<br><br>Diweddariad:<br>Taliad ychwanegol £43,320 wedi ei dderbyn | Coed Gorddinog, Llanfairfechan – Tirfeiddianwr wedi datgan fod dim diddordeb ganddo i reoli'r Rhododendron sydd ganddo yn Gorddinog hall. Hwn yn rhan pwysig iawn i gyrraedd y targed yma felly risg o ddim llwyddo – trafodaethau yn parhau gyda'r tirfeiddianwr ac archwilion i ddarganfod safleoedd newydd i gymeryd lle.<br><br>Y gwaith yn costio mwy na chafodd i rhagweld yn y cais felly potensial o or-wario yma. | Adferiad Gwrychoedd 9,000m<br><br>5,927 Plannu Coed (Coridorau Ffridd a Glan y Môr)<br><br>Creu Coetir 2ha<br><br>Gwaredu Rhododendron 26ha<br><br>Creu Dolydd 3.5ha | **Mae'r prosiect yn ei fisoedd olaf gyda'r gwaith wedi ei gwblhau ar wahân i waith Rhododendron. Mae gwaith rheoli rhododendron yng Nghoed Cymerau i ddechrau mis yma.**<br><br>**Mae pob targed arall wedi'i gyflawni a'i ragori.**<br><br>**Mae'r prosiect wedi bod yn llwyddiannus ac wedi cyflawni'r holl allbynnau y cytunwyd arnynt, gan gydweithio â nifer o randdeiliaid i gyflawni'r canlyniadau i'r safonau uchaf.** |
| **RHAGLEN WEITHREDU GENEDLAETHOL AR FAWNDIROEDD**<br><br>**(RWGF)** | 2020 – 2025<br>Arian grant dros sawl mlynedd drwy Gyllid wedi'i Ddyranu'n Strategol (SAF):<br><br>2023-24: £183,410<br>2024-25: £229,072<br><br>**Cyfanswm = £1,351,759** | Amharodrwydd tirfeddianwyr i adfer mawn oherwydd ansicrwydd ynghylch FFCS newydd.<br><br>Oedi gyda chaniatad a thrwyddedau.<br><br>Oedi gyda taliadau oherwydd oedi cytuno'r taliadau ochr CNC | Dim targedau penodol, ond yn anelu at adnabod, arolygu ac adfer mawn o fewn y PC (gyda rhai eithriadau tu allan i'r PC yn y blynyddoed cynharach) | **Rhwng 2020 – 2025:**<br>❖ **15,561m o dir clogwyni mawn wedi ei ail-broffilio**<br>❖ **5,859m o geunentydd**<br>❖ **209,683 o waith blocio ffosydd**<br>❖ **14.39ha gorchuddio mawn noeth / creu pyllau**<br>❖ **90ha o blanhigfeydd torri coed / rheoli ar ôl torri coed**<br>❖ **5,923ha o reoli prysgwydd ac adfywio conwydd**<br>❖ **243ha o reoli pori**<br><br>**Tirfesur ac arolygon tir yn cwmpsu cyfanswm o 2242ha.**<br>**2021-22: 335ha dros 5 safle**<br>**2022-23: 592ha dros 9 safle**<br>**2023-24: 209ha dros 2 safle**<br>**2024-25: 1106ha dros 11 safle**<br><br>**Mae'r prosiect bellach wedi'i uno i gronfa gyllid newydd RWGF ynghyd â phrosiect Ymylon Eryri i Prosiect Eryri+** |

| PROSIECT A Manylion | Dechrau / Diweddd Cyfanswm Cyllid | (PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod | CRYNODEB O'R TARGEDAU / ALLBYNNAU | CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ALLLBYNNAU<br>CYNNYDD TACHWEDD 2024 – MEHEFIN 2025 |
|---|---|---|---|---|
| **Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd**<br><br>**YMYLON ERYRI** | 2022 – 2025<br><br>Cyllid grant drwy Raglen Weithredu Cenedlaethol Mawndiroedd (NPAP) Cyfnod Datblygu (D.) a Gweithredu (G.)<br><br>2022-23: £29,927 (D.)<br>2023-24: £27,156 (D.)<br>2023-25: £229,000 (G.)<br>2024-25: £30,000 (D.)<br><br>**Cyfanswm = £316,198** | Natur tymor byr y grantiau. Gorfod gwneud cais bob blwyddyn – risg o beidio â bod yn llwyddiannus a cholli staff.<br><br>Anhawster gweithio gyda thirfeddianwyr y tu allani'r PC.<br><br>Amharodrwydd tirfeddianwyr i adfer mawn gydag ansicrwydd ynghylch yr FfCS newydd. | Dim targedau penodol, anelu at adnabod, arolygu ac adfer mawr tu allan i ffiniau'r PC | **Gwirio tir a thirfesur yn cwmpasu cyfanswm o 2773ha (hyd yn hyn):**<br>**2022-23: 664ha dros 6 safle**<br>**2023-24: 1447ha dros 15 safle**<br><br>**2024-25: 682ha dros 6 safle, + 575ha ar draws Comin Llansannan.**<br><br>**Ers dechrau'r prosiect, mae gwaith adfer mawn hefyd wedi ei gwblhau yn ardal Hiraethog ac ar fynyddoedd y Berwyn.**<br><br>**Gwaith adfer 2023-25: 1018ha ar 14 safle**<br>❖ **20,588m o glogwyni mawn wedi eu hail-broffilio**<br>❖ **2,303m o geunentydd**<br>❖ **39,254m o waith blocio ffosydd**<br>❖ **190ha o reoli pori**<br>❖ **1.75ha o reoli prysgwydd**<br><br>**Mae prosiect Ymylon Eryri bellach wedi'i uno i gronfa newydd o gyllid RWGF i Brosiect Eryri+** |

## PROSIECTAU NEWYDD YN 2025:

| PROSIECT A Manylion | Dechrau / Diweddd Cyfanswm Cyllid | (PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod | CRYNODEB O'R TARGEDAU / ALLBYNNAU | CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ALLLBYNNAU<br>- MEHEFIN 2025 |
|---|---|---|---|---|
| **Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd**<br><br>**Eryri+** | 2025-28: Hyd at £400,000 pob blwyddyn<br><br>**Cyfanswm: £1,200,000** | **Dim ond blwyddyn ar y tro y mae cyllid yn cael ei warantu, yn amodol ar gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru.**<br><br>**Er ei bod yn debygol y bydd blynyddoedd 2-3 yn cael eu cymeradwyo, gall etholiad Cymru achosi rhywfaint o ansicrwydd.**<br><br>**Ansicrwydd pellach gan dirfeddianwyr ynghlych y Cynllun ffermio cynaladwy~SFS a sut y bydd adfer mawndiroedd yn cyd-fynd â thaliadau.**<br><br>**Oedi gyda chaniatad, trwyddedau a chytundebau gyda CNC, yn enwedig gyda'r taliadau iawndal newydd (ail-wlychu).**<br><br>**Oedi ar dderbyn ad-daliad grant gan CNC yn dilyn yr hawliadau grant.** | **Arolygon a gwaith adfer mawndiroedd o fewn a thu allan i Eryri, gan gwmpasu hyd at 15km y tu allan i'r PC, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig y Berwyn, Ardal Cadwraeth Arbennig Hiraethog a Phen Llŷn.**<br><br>**Themâu blaenoriaeth:**<br>❖ **Erydiad mawndiroedd**<br>❖ **Draeni mawndiroedd**<br>❖ **Rheoli cynaliadwy mawndiroedd gorchudd a thir isel**<br>❖ **Adfer mawndiroedd wedi'u coedwigo**<br>❖ **Adfer mawndiroedd wedi'u haddasu'n eithafol** | **Dechreuodd y prosiect ar 01.04.2025. Ar hyn o bryd rydym yn arolygu safleoedd, yn paratoi caniatâd a thrwyddedau, ysgrifennu cynlluniau adfer a dylunio dogfennau tendro.**<br><br>**Mae gennym waith wedi'i gynllunio ar 14 safle sy'n cwmpasu 1364ha y flwyddyn ariannol hon, 2025-26, ond mae hyn yn debygol o newid.** |

| PROSIECT A Manylion | Dechrau / Diweddd Cyfanswm Cyllid | (PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod | CRYNODEB O'R TARGEDAU / ALLBYNNAU | CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ALLLBYNNAU<br>- MEHEFIN 2025 |
|---|---|---|---|---|
| **Waliau Eryri**<br><br>**Y Grid Cenedlaethol** | Rhagfyr 2023<br>Mawrth 2027<br><br>£300k | Methu â chyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt gan arwain at arian yn cael ei hawlio'n ôl gan y Grid Cenedlaethol – I liniaru hyn, mae pob cytundeb wedi'i osod yn gynnar yn y prosiect i ganiatau digon o amser i dirfeddianwyr gwblhau'r gwaith.<br><br>Risg ariannol i'r Awdurdod – bydd hyn yn cael ei liniaru gan fod y prosiect wedi'i ariannu 100% o gyfalaf gan y Grid Cenedlaethol. Cyfraniad APCE yw amser staff.<br><br>Capasiti Staff – Nifer cyfyngedig o aelodau staff sydd ar gael i gwblhau'r holl brosiectau sydd ar y gweill.<br>- Mae galwadau staff ar y prosiect hwn yn eithaf isel gan fod yr holl gytundebau ar waith a'r tirfeddianwyr sy'n gyfrifol am gwblhau'r gwaith. | Waliau cerrig 10,523m<br><br>Ffens Naid 2,600m | Mae'r prosiect ar y trywydd iawn ac o fewn y gyllideb. Mae'r holl gytundebau wedi'u hysgrifennu a'u derbyn gan dirfeddianwyr. Hyd yn hyn mae 25% o'r holl waith wedi'i gwblhau gyda gwariant cyffredinol o £72,178. Mae gwaith ar y gweill ar sawl safle arall, gyda rhai bron â'u cwblhau. |
| **Ffermio Bro** | Mai 2025<br>Mawrth 2028<br><br>Blwyddyn 1: £1.8m<br>Blwyddyn 2 a 3: £3.2m yr un | Anallu i wario arian o fewn terfynau amser llym y flwyddyn ariannol. APCE yw'r corff cyntaf yng Nghymru i recriwtio gan ganiatau cymaint o amser â phosibl i gwblhau gwaith y flwyddyn gyntaf. Mae'r tim wedi gosod dyddiad cau o 30 Mehefin ar gyfer cyflwyno Datganiadau o Ddiddordeb y flwyddyn gyntaf er mwyn caniatad digon o amser.<br><br>Risg i enw da APCE os nad yw'r gwaith yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Mae gan y prosiect hwn nodau uchelgeisiol o weithio gyda grwpiau o ffermwyr ar raddfa tirwedd, gan ddatrys problemau sefydlog.<br><br>Staff y prosiect yn gadael eu swyddi cyn cwblhau'r prosiect.<br><br>Rheoli disgwyliadau – hyd yn hyn (11.06.25.) rydym wedi derbyn dros 80 o geisiadau Datganiad o Ddiddordeb ar gyfer blwyddyn 1. Gyda chyllideb cymharol gymedrol, bydd llawer o ymgeiswyr yn siomedig, gan achosi anfodlonrwydd o fewn cymunedau lleol o bosibl. – I liniaru hyn, mae staff yn cael eu briffio i reoli disgwyliadau drwy gydol y broses ymgeisio.<br>Bydd ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael cyfle i wneud cais yn yr 2il a'r 3ydd flwyddyn.<br><br>Gallu cyfyngedig i asesu'r newidiadau a wnaed, Heb gyllideb ar gyfer arolygon sylfaenol ac ati, ni fydd gennym lawr o allu i asesu pa effaith y mae'r gwaith yn ei gael, a allai danseilio ymdrechion. | Dim targedau / allbynnau wedi'u diffinio. APCE fydd yn penderfynu pa waith fydd yn cael ei gwblhau. | Mae 3 aelod staff wedi'u recriwtio ac wedi dechrau yn y swyddi ar 01.05.25. Penodwyd 2 aelod staff ychwnaegol i'r prosiect yn ddiweddar a disgwylir iddynt ddechrau ym mis Gorffennaf.<br><br>Mae'r prosiect wedi sefydlu tudalen we ar wefan APCE sy'n cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol i ymgeiswyr.<br><br>Mae ffenestr Mynegion o Ddiddordeb y flwyddyn gyntaf ar agor gan 30 Mehefin. Mae dros 80 o ffermydd eisoes wedi mynedi diddordeb.<br><br>Mae swyddogion cynghori wedi bod ar gwrs hyfforddi 2 ddiwrnod ar sut y dylai'r prosiect weithio gyda swyddogion cynghori ledled Cymru.<br><br>Mae'r swyddogion yn byrsur iawn gydag ymweliadau safle yn datblygu ceisiadau llawn ar gyfer ffermwyr. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Bydd arian yn cael ei wario mewn dwy ffordd: 1) Caffael 2) Cyfraddau sefydlog. Mae rhai o' cyfraddau sefydlog yn isel ac efallai y byddwn yn dod ar draws problemau gyda ffermwyr yn penderfynu peidio â derbyn grantiau.**<br><br>**Yn gyfrifol am gyflawni gwaith yn AHNE Llŷn a Môn. Ychydig o brofiad sydd gan APCE o weithio yn yr ardaloedd hyn felly galli fod yn anodd cael ceisiadau o ansawdd da. Mae llai o awydd am waith amgylcheddol yn yr ardaloedd hyn.** | | |

**EITEM RHIF 9**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 09 Gorffennaf, 2025 |
| **TEITL** | **RHAGLEN WAITH CORFFORAETHOL 2024-25 DIWEDDARIAD AR YR AMCANION LLESIANT** |
| **ADRODDIAD GAN** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| **PWRPAS** | Adroddiad cynnydd y Chwarter Olaf ar gyfer 2024-25 (Pedwerydd Chwarter, Ionawr – Mawrth 2025). |

## 1. CEFNDIR

1.1 Ynghlwm adroddiad ar y Rhaglen Waith Corfforaethol sy'n cynnwys manylion y cynnydd a wnaed yn y Chwarter olaf o 2024/25 i gyflawni'r wahanol brosiectau a'r mentrau y cytunwyd arnynt ar gyfer cyflawni Amcanion Llesiant yr Awdurdod.

1.2 Bydd Swyddogion yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno gwybodaeth bellach os bydd angen.

## 2. ARGYMHELLIAD

**2.1 Archwilio a thrafod y Rhaglen Waith Corfforaethol ynghlwm.**

## 3. PAPURAU CEFNDIROL

3.1 Rhaglen Waith Corfforaethol 2024/25: Adroddiad Cynnydd y Chwarter olaf sef y pedwerydd chwarter, Ionawr – Mawrth 2025.

# AMCANION LLESIANT 2024-25 : RHAGLEN WAITH GORFFORAETHOL

**Yr Amcanion Llesiant, Prosiectau a Mentrau Cyfatebol a Chanlyniadau Llwyddiant**

**Diweddariad Terfynol 2024-25 : Chwarter 4. Ionawr – Mawrth, 2025**

**Mae'r Amcanion Llesiant wedi'u croesgyfeirio â thargedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gwaith cyfredol Llywodraeth Cymru - wedi'u dynodi (Atodiad 1 : Targedau'r Llythyr Cylch Gwaith)**

## AMGYLCHEDDAU CYDNERTH

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 1 | GWELLA RHEOLAETH HAMDDEN AC UNRHYW EFFEITHIAU NEGYDDOL HAMDDEN |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 1.1** | Gwyrdd | **Gweithredu Ymgyrch Cyfathrebu Economi Ymweld Gynaliadwy Gwynedd ac Eryri** | Parhaus | Pen. Cyfathrebu |
| | Ch. 1-2 | Ymgyrch yn cael ei weithredu ar yr economi ymweld ar gyfryngau cymdeithasol yr Awdurdod. Sesiynau hyfforddiant cyfryngau cymdeithasol wedi eu cynnal yn y Pencadlys i fusnesau a fentrau cymunedol Gwynedd & Eryri. | | |
| | Ch. 3 | Ymgyrch tymor ymwelwyr ar y cyd efo Cyngor Gwynedd (Cwmniau cyfathrebu Alaw ac Equinox wedi eu comisiynu) wedi dod i ben yn Ch.3 | | |
| | **Ch. 4** | **Gwaith paratoi yn unig ar gyfer gweithredu ymgyrch tymor ymweld ar y cyd ar gyfer Haf 2025** | | |

Gwyrdd: Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Melyn: Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Coch: Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| AC 1.2 | | **Gwell darpariaeth ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yn Pen y Pass trwy uwchraddio'r cyfleusterau a dehongli i ymwelwyr:**<br>➢ Cwblhau a gosod gwelliannau i gyfleusterau dehongli Pen y Pass | Mawrth 2025 | Pen. Cyfathrebu<br>Pen. Gwas. Wardeinio a Mynediad (WaM)<br>Swyddog Cyfathrebu |
| | Ch. 1-2 | Gwaith cynllunio a phrisio wedi dechrau. | | |
| | Ch. 3 | Gwaith gwelliannau dehongli yn parhau i Ch.4. Gwaith dylunio wedi gorffen. Gwaith argraffu a gosod i fynd ymlaen i Ch.4. | | |
| | **Ch. 4** | **Gwaith argraffu a gosod wedi ei gwblhau.** | | |
| AC 1.3 | | **Monitro nifer yr ymwelwyr trwy gyfrifwyr pobl i sefydlu effaith defnyddwyr ar draws y Parc Cenedlaethol. Cynhyrchu adroddiad yn seiliedig ar ddata 2023** | Parhaus. Adroddiad nesaf erbyn Meh./Gorff. 2024 | Pen. Partneriaethau |
| | **Ch. 1-2** | **Adroddiad wedi ei chynhyrchu a'i chyflwyno i Aelodau yn ystod Gweithgor mis Mehefin 2024. Mae'r adroddiad ar gael ar wefan PC Eryri.** | | |
| AC 1.4 | | **Nodi a meintioli gwaith mynediad i liniaru effeithiau pwysau pobl ac adolygu'n flynyddol** | Parhaus | Pen. Gwas. WaM |
| | **Ch. 1- 4** | **Gwaith amrywiol yn parhau ar draws y Parc yng nghyd a phrosiectau mawr fel – Mynydd Moel (Cadair Idris) a Llwybr y Mwynwyr (Yr Wyddfa).** | | |
| AC 1.5 | | **Cynhyrchu Strategaeth Ymgysylltu ar gyfer gwaith llwybrau yn Eryri** | Hydref 2024 | Pen. Gwas. WaM |
| | Ch. 1-2 | Draft wedi ei gynhyrchu. Rhagwelir cyflwyno'r drafft i Aelodau yn yr Hydref. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Gwaith wedi llithro, rhagwelir cyflwyno'r drafft i'r Aelodau Hydref, 2025** | | |

Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 1.6** | Ch. 1- 2<br>**Ch. 3 - 4** | **Cynhyrchu canllawiau ar gyfer cyflawni gwaith mynediad yn Eryri**<br>Drafft cyntaf wedi ei greu.<br>**Gwaith wedi llithro, rhagwelir bydd y canllawiau yn cael eu cyflwyno i'r Tim Rheoli yn ystod Medi 2025.** | Hydref. 2024 | Pen. Gwas. WaM |
| **AC 1.7** | **Ch. 1 – 4** | **Sicrhau fod llwybrau a hyrwyddir yn cael eu harolygu, eu cynnal a'u gwella'n rheolaidd pan fo angen a darparu adroddiad blynyddol i'r Tim Rheoli ar hyn**<br>**Y gwaith yma'n parhau. Mi fydd y system rheoli rhwydwaith newydd yn ein galluogi i gynhyrchu adroddiadau mwy manwl.** | Parhaus | Pen. Gwas. WaM |
| **AC 1.8** | **Ch. 1 - 4** | **Wardeiniaid Ardal i weithio gyda'r Cymunedau a phartneriaid i nodi a manteisio ar gyfleoedd i ddarparu ystod o lwybrau a hyrwyddir ar gyfer galluoedd amrywiol**<br>**Gwaith yma'n parhau ac yn cael eu cynllunio yng nghynlluniau ardal Wardeniaid** | Parhaus | Pen. WaM |
| **AC 1.9** | **Ch. 1- 4** | **Gweithio ar draws yr Awdurdod i integreiddio rhaglenni gwaith a datblygu Cynlluniau Ardal Wardeiniaid**<br>**Mae pob warden hefo cynllun ardal sy'n cael ei arolygu gyda'r Uwch Wardeniaid yn rheolaidd. Mae'r Wardeniaid yn cael eu hannog i gydweithio gydag adrannau eraill ar brosiectau. Enghraifft o gydweithio yw'r gwaith prosiectau natur arian grant Tirweddau Cynaliadwy Llefydd Cynaliadwy (SLSP) gyda Gwasanaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth. Mae'r gwaith hyn yn barhaus.** | Parhaus | Pen. WaM |

Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 1.10** | Ch. 1 – 2 | **Cefnogi gwaith Swyddog Prosiect Yr Wyddfa Di-blastig**<br>➢ Mewn partneriaeth â Cadw Cymru'n Daclus, trefnu a chynnal COPA1, yr uwchgynhadledd Ieuenctid gyntaf sy'n cael ei gynnal fel rhan o brosiect ymateb i lygredd plastig untro | Medi 2024 | Pen. Partneriaethau<br><br>Swyddog Prosiect Yr Wyddfa di-blastig |
| | | **COPA1 wedi cael ei drefnu ac yn llwyddiant mawr - pawb yn gytûn bod angen etifeddiaeth a dechrau cynllunio COPA2 at 2026.**<br>**Bydd y gwaith prosiect yn dod i ben diwedd mis Hydref 2024. Bydd y Swyddog yn cyflwyno i'r Aelodau yn ystod Gweithgor mis Hydref. Bydd adroddiad terfynol yn cael ei chynhyrchu a chynllunio am etifeddiaeth y prosiect yn digwydd yn ystod mis Hydref a Thachwedd 2024.** | | |

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 2 | YMATEB I HERIAU NEWID YN YR HINSAWDD |
|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **AC 2.1**<br><br>**Adroddiad Blynyddol** | | **Sicrhau gweithrediad y polisïau CDLl cyfredol sy'n cyfrannu at liniaru newid yn yr hinsawdd** | **Adroddiad blynyddol** | *Pen. RhDaCh<br>Pen. Polisi Cynllunio |
| | | **Roedd lliniaru newid yn yr hinsawdd yn ystyriaeth wrth baratoi llawer o'r CDLl presennol, gan gynnwys strategaeth aneddiadau (lle mae tai'n cael eu datblygu), lliniaru llifogydd, a chynhyrchu ynni drwy adnewyddadwy. Cyflwynir Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) o gynnydd holl bolisiau'r CDLl i'r Aelodau ac yna i Lywodraeth Cymru bob Hydref, ac mae hyn wedi dod i'r casgliad y cydymffurfiwyd yn fras â'r polisiau hyn. Mae'r maes polisi hwn wedi esblygu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, a bydd hyn yn codi nifer o faterion pwysig yn yr adolygiad o'r CDLl yn 2025.** | | |

* Pennaeth Rheolaeth Datblygu a Chydymffurfiaeth (Pen. RhDaC)

Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 2.2** | (coch) | **Effeithlonrwydd ynni a lleihau ôl-troed carbon adeiladau APCE i fod yn rhan annatod o'r Cynllun Rheoli Asedau newydd (i'w fabwysiadu o Rhagfyr 2024) ymochrol gyda Ffyniant i Bawb – Targedau Ystâd Gyhoeddus Carbon Isel**<br>➢ Cynnal adolygiad o'r Portffolio Asedau gyda'r Is-Grŵp Asedau gydag argymhellion i'w hystyried gan yr Awdurdod llawn ac unrhyw asedau dros ben i'w hystyried ar gyfer eu gwaredu/trosglwyddo perchnogaeth | Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau newydd o Rhagfyr 2024+ ymlaen | Pen. Eiddo |
| | Ch. 1- 2 (melyn) | Mae gwaith dadgarboneiddio pellach ar y gweill drwy arian grant Llywodraeth Cymru, Tirweddau Cynaladwy Llefydd Cynaladwy. Mae gwaith addasu a diweddaru y Cynllun Rheoli Asedau blaenorol ar waith ond cynnydd wedi llithro yn sgîl gwaith ychwanegol yn deillio o farchnata Plas Tan y Bwlch a chyfarfodydd cymunedau. Anelu i ymgynnull cyfarfod o'r Is-Grwp Asedau yn Ionawr 2025 a'r Cynllun Rheoli Asedau i'w gyflwyno yng nghyfarfod Pwyllgor PacA, Mawrth 2025. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Y gwaith addasu a diweddaru heb gael ei gwblhau oherwydd llwyth gwaith a chwblhau bidiau am grantiau cyfalaf pellach er mwyn ymateb i broblemau sydd wedi codi yn sgîl prysurdeb safleoedd penodol yn ogystal â chyfran sylweddol o amser yn delio gydag ymweliadau a thrafodaethau Plas Tan y Bwlch. Awgrymir bod y weithred yma yn cael ei ail raglennu ar gyfer 2025-26 ac ymgynnull Is-grŵp Asedau ym mis Mai 2025 a mabwysiadu'r Cynllun Rheoli Asedau i ddilyn.** | | |
| **AC 2.3** | (coch) | **Datblygu Cynllun Gweithredu yn seiliedig ar argymhellion yr Astudiaeth Carbon ac ystyried pa adnoddau staff sydd eu hangen i roi unrhyw gamau y cytunwyd arnynt a nodir yn y Cynllun Gweithredu ar waith** | 2024 | Cyf. Gwas. Corfforaethol<br><br>Pen. Eiddo |
| | Ch. 1- 2 (gwyrdd) (melyn) | Mae capasiti staff, yr angen i weithio yn draws adrannol a chefnogi pwrcasu Carbon isel ledled yr Awdurdod wedi ei adnabod a swydd newydd 'Swyddog Carbon' wedi ei greu, ei hysbysebu a recriwtio. Bydd y Swyddog newydd yn dechrau yn y rôl Tachwedd 2024. | | |
| | **Ch. 3 – 4** (melyn) | **Mae Swyddog Carbon Isel wedi dechrau yn ei swydd a chyfarfodydd rheoliadd wedi cael eu cynnal a rhaglennu i drafod yr Astudiaeth Carbon wrth i'r swyddog asesu a blaenoriaethu dadgarboneiddio y gall yr Awdurdod reoli neu ddylanwadu yn uniongrychol. Bydd y Swyddog yn adolygu'r cynllun gweithredu a'i ail gyflwyno i'r Aelodau.** | | |

(gwyrdd) Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

(melyn) Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

(coch) Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 2.4** | | **Datblygu Cynllun Gweithredu Carbon Isel ar gyfer Eryri, gan sicrhau bod hwn yn cynnwys ymrwymiad i**<br>➢ Amcanion carbon isel yn y CDLl a Chynllun Eryri<br>➢ Cynhyrchu Strategaeth Coed a Choetiroedd<br>➢ Diweddaru Strategaeth Mawndiroedd | Parhaus | Cyf. Cynllunio a Rheoli Tir (CaRhT)<br><br>Pen. Coed Cadwraeth ac Amaeth (CCA) |
| | Ch. 1 - 2 | Mae gwaith ar y Strategaeth Goed a Choetiroedd yn symud ymlaen yn dda, bydd drafft terfynol yn mynd gerbron yr Aelodau yn Rhagfyr ac yna allan ar gyfer ymgynghoriad terfynnol dechrau 2025.<br>Rhan o waith y tim mawn yw adolygu'r strategaeth mawn ac mae'n cael ei wneud pan mae amserlen yn caniatau, mae gwaith diweddaru data wrthi'n cael ei wneud. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Mae'r strategaeth goed yn dynesu at y cymal olaf o'i gyd greu, rhagwelir y bydd yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod llawn yn y gwanwyn.**<br>**Bydd y strategaeth fawn yn cael ei diweddaru wrth i adnodd staff ganiatáu yn y gwanwyn/haf wrth i raglen waith (sydd yn dymhorol) ysgafnu rhywfaint.** | | |
| **AC 2.5** | | **Sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i fod yn ymrwymedig i egwyddorion y "Ras i Sero" drwy fabwysiadu rôl arweinyddiaeth ac eiriolath gref yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd – gan gynnwys ymrwymo i'r 5 prif addewid sydd yn y "Ras i Sero". Gweithio gyda PC yDU/PyPC ar negeseuon strategol newid hinsawdd** | Parhaus | Cyf. CaRhT |
| | Ch. 1-2 | Mae capasiti staff, yr angen i weithio yn draws adrannol a chefnogi pwrcasu Carbon isel ledled yr Awdurdod wedi ei adnabod a swydd newydd 'Swyddog Carbon' wedi ei greu, ei hysbysebu a recriwtio. Bydd y Swyddog newydd yn dechrau yn y rôl Tachwedd 2024. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Yn dilyn penodiad Swyddog Carbon Isel, mae'r swyddog wedi bod yn mynychu cyfarfodydd Sero Net rhanbarthol perthnasol a chyfarfodydd Ynni a Hinsawdd NPUK, yn ogystal â mapio'r strategaethau, adroddiadau a pholisïau perthnasol (mewnol ac allanol) i'r Awdurdod gyflawni ei ymrwymiadau datgarboneiddio. Mae meysydd targed allweddol fel Teithio Busnes a Fflyd Busnes (fel y nodwyd gan Small World Consulting) yn cael sylw drwy'r ffurfiad o bwyllgor mewnol.** | | |

Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 2.6** | | **Cefnogi partneriaeth strategol gyda Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro ar Adfer Natur ac Atafaeliad Carbon yn Nhirweddau Dynodedig Cymru a cynnal swydd arweinydd strategol** | Parhaus | PW Arweinydd Strategol |
| | Ch. 1- 2 | Mae ffocws yr arweinydd strategol wedi bod yn fframio canfyddiadau'r ddwy flynedd ddiwethaf yn allbynnau ysgrifenedig y rôl. Mae teitlau gweithredol "strategaeth alluogi" a "Llyfr Bach o Opsiynau" wedi'u disodli gan "Tirweddau Dynodedig: Canllawiau Swyddogion er Budd Natur" a "Ffermio Budd-dal Deuol". Mae'r cyntaf wedi'i rhannu'n bedair adran i ymdrin â therminoleg newydd, templed o gynllun gweithredu adfer natur ar gyfer y tirweddau dynodedig, meysydd ffocws, ac argymhellion pellach. Nod y gwaith hwn yw bod gan staff yr Awdurdod ""lyfryn bwrdd" defnyddiol i'w helpu i gyflawni eu rolau ac i ffermwyr/rheolwyr tir gael cyfeiriad defnyddiol i'w helpu drwy gyfnod o newid dwys a rhywbeth y dylai cyd-fynd yn dda ag unrhyw gynlluniau ar sail ffermio sy'n gysylltiedig â'r tirweddau dynodedig. | | |
| | Ch. 3 | Mae ffocws y chwarteri olaf wedi bod ar drosglwyddo syniadau ar bapur i gynhyrchu'r dogfennau a enwir bellach: "Tirweddau Dynodedig Cymru: Canllaw Swyddogion er Budd Natur" a "Ffermio Ymaddasol".<br>Nod y gwaith yw bod gan staff yr Awdurdod lyfryn defnyddiol i'w helpu i gyflawni eu rolau ac i ffermwyr/rheolwyr tir gael cyfeiriad defnyddion i'w helpu trwy gyfnod o newid dwys. Mae'r dogfennau wedi'u cadw'n gymharol fyr drwy ganolbwyntio ar y wybodaeth a'r negeseuon allweddol mwyaf perthnasol. Mae'r llyfryn swyddogion yn cynnwys rhai ffyrdd a awgrymir o gynllunio senarios yn well mewn ymateb i bwysau naturiol ac economaidd-gymdeithasol. Bydd y llyfryn yn cael ei gyhoeddi yn Chwarter 4 a bydd swydd arweinydd strategol ar ei wedd gyfredol yn dod i ben ddiwedd Mawrth 2025. | | |
| | **Ch.4** | **Cwblhawyd drafft terfynol o'r ddogfen/llyfryn mis Chwefror. Yn hytrach na chyhoeddi'r llyfryn yn ffurfiol cytunwyd i drosglwyddo'r gwaith i Dirweddau Dynodedig Cymru i eistedd ochr yn ochr â chanllawiau Rheoli Cynllunio diweddaraf Cyfoeth Naturiol Cymru ar eu gwefan. Bydd y llyfryn yn parhau i fod yn ddogfen fyw i'w addasu/diweddaru yn ôl yr angen.**<br>**Daeth swydd Arweinydd Strategol Adfer Natur ac Atafaeliad Carbon wedi ei lleoli yn Eryri i ben ddiwedd Mawrth.** | | |

Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 3 | GWELLA RHEOLAETH A DEALLTWRIAETH O'N TREFTADAETH DDIWYLLIANNOL |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 3.1** | | **Datblygu a mabwysiadu Strategaeth Treftadaeth Ddiwylliannol APCE** | Haf 2024 | Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol (TDd) |
| | Ch. 1-2 | Ymchwil desg a chasglu gwybodaeth wedi'i gwblhau. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Gwaith drafftio ar y gweill. Bwriedir cyflwyno drafft i'r Gweithgor Aelodau erbyn Haf 2025.** | | |
| **AC 3.2** | | **Sicrhau fod Rhaglen Waith Cynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau ar gyfer 2024/25 wedi'i chwblhau mewn pryd i sicrhau bod y Prosiect yn parhau i fod ar y trywydd iawn i'w gwblhau erbyn 2025.**<br>➢ **Paratoi adroddiad yn diweddaru i'r Aelodau** | Parhaus - 2025<br><br>Rhag. 2024 | Pen. TDd<br><br>Rheolwr Prosiect y Carneddau |
| | Ch. 1+2 | Mae rhaglen waith y Cynllun yn rhedeg yn brydlon, yn unol a'r amserlen. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i Aelodau yn fuan yn 2025. | | |
| | Ch. 3 | Mae'r cynllun yn rhedeg yn brydlon a rhagwelir cwblhau fis Mawrth 2026. Bydd adroddiad diweddaru yn cael ei gyflwyno i Aelodau yn y Gwanwyn. | | |
| | **Ch. 4** | **Fel uchod, mae'r Cynllun yn rhedeg yn brydlon ac o fewn y gyllideb. Bydd adroddiad diweddaru yn cael ei gyflwyno i Weithgor mis Medi. Mae swyddogion yn canolbwyntio ar brosiectau gwaddol y Cynllun a'r gwaith hwnnw yn gwneud cynnydd da.** | | |
| **AC 3.3** | | **Cyflwynwyd Datganiad o Ddiddordeb a sicrhawyd arian Loteri: Symud ymlaen a chyflawni prosiect Treftadaeth Ddiwylliannol Harlech ac Ardudwy** | Parhaus hyd at Hyd. 2025 | Pen TDd<br>Swyddog Prosiect TDd |
| | Ch. 1-2 | Penderfynwyd cyflawni'r prosiect o fewn sgôp grant Llywodraeth Cymru, Tirweddau Cynaliadwy Llefydd Cynaliadwy. Mae'r gwaith bellach yn mynd rhagddo. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Mae sawl agwedd o'r prosiect yn weithredol: gwaith arolygu a chloddio archaeolegol gyda Phrifysgol Sheffield, gwaith maes gydag ysgolion cynradd lleol, llyfr dehongli cymuned Harlech a bydd arolwg Lidar yn cael ei gwblhau ym mis Mawrth 2025.** | | |

Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 3.4** | Ch. 1- 2<br>**Ch. 3- 4** | **Cyfrannu'n weithredol at raglen waith Cynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd (STB) Tirweddau Llechi Gogledd Orllewin Cymru**<br>➢ **Cwblhau a gosod dehongliad o safle Ynydypandy**<br>**Dehongli safle Ynysypandy wedi'i gwblhau**.<br>**Cynhaliwyd gweithdy ar y cyd a Chyngor Gwynedd yng nghymuned Dolbenmaen, i ymgysylltu gyda'r gymuned a chasglu enwau tirweddol yr ardal. Roedd yn ddiwrnod llwyddiannus iawn a bwriedig cynnal digwyddiadau o'r fath mewn cymunedau eraill yn Safle Treftadaeth y Byd yn ystod 2025.** | Parhaus Hydref 2024 | Pen. TDd. |
| **AC 3.5** | **Ch. 1- 4** | **Wardeiniaid i arwain teithiau cerdded misol gydag arbenigwr gwadd i hyrwyddo natur, diwylliant a threftadaeth**<br>**Mae teithiau misol yn parhau gyda nifer o fynychwyr yn amrywio, byddwn yn ymestyn y gwaith hyrwyddo ar gyfer 2025-26.** | Parhaus 2024/25 | Pen. Gwas. WaM |
| **AC 3.6** | Ch. 1-2<br>**Ch. 3 - 4** | **Cyfrannu'n weithredol at raglen waith barhaus y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol (GAH) dan arweiniad Cadw a'i weithgorau cysylltiedig, gan gynnwys Llesiant, Lliniaru Newid Hinsawdd, mawndiroedd a Threftadaeth Leol**<br>Mae swyddogion yn cyfrannu at waith y grŵp drwy fynychu cyfarfodydd chwarterol, gweithdai a chyflawni rhaglen waith y grwp.<br>**Mae'r gwaith yn parhau fel yr uchod.** | Parhaus | Pen. TDd. |

Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 3.7** | | **Cynnal a datblygu Yr Ysgwrn fel amgueddfa a chanolfan ddiwylliannol o fri cenedlaethol a cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Aelodau** | Rhag. 2024 | Pen. TDd. |
| | Ch. 1-2 | Cyflwynwyd adroddiad blynyddol i'r Awdurdod fis Mehefin 2024. Agorwyd arddangosfa o waith celf, 'Yr Ysgwrn yn Ysbrydoli' dros yr Haf. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Mae'r Ysgwrn ar gau dros y gaeaf. Cynhaliwyd tri digwyddiad tymhorol cyn y Nadolig, gan gynnwys gwasanaeth Plygain hynod lwyddiannus. Bwriedir ymestyn y digwyddiad hwn i gymuned Trawsfynydd yn 2025.** | | |
| **AC 3.8** | | **Yn dilyn cwblhau Gwerthusiadau Ardaloedd Cadwraeth a Chynllun Rheoli cyflwyno rhaglen barhaus o hyfforddiant sgiliau traddodiadol a fydd hefyd yn cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd** | Rhan 1. Hydref 2024 | Pen. TDd. |
| | Ch. 1-2 | Cynhaliwyd 5 sesiwn sgiliau traddodiadol hyd yma a phob un yn orlawn. Bydd sesiynau pellach yn cael eu cynnal yn 2025. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Mae swyddogion yn gweithio tuag at sicrhau achrediad LANTRA i'r Awdurdod ac i un contractwr er mwyn ei uwchsgilio i gynnal hyfforddiant walio a phlygu gwrych drwy'r Gymraeg. Mae rhaglen sgiliau'r gwanwyn yn cael ei drefnu ar hyn o bryd.** | | |

Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 4 | MYND I'R AFAEL Â HERIAU A CHYFLEOEDD SENARIOS RHEOLI TIR AR ÔL BREXIT |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 4.1** | (gwyrdd) | **Cynorthwyo i ddatblygu a dylunio cynigion rheoli tir yn y dyfodol gyda Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, i sicrhau bod Eryri yn elwa o gynigion yn y dyfodol a bod nodau strategol Cynllun Eryri yn cael eu hadlewyrchu yng nghynigion y dyfodol** | Parhaus | *Pen. CCA, PW Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir |
| | Ch. 1-2 | Trafodaethau SFS wedi bod yn ddwys ac yn symud ymlaen i gyflwyno'r haen "cynhwysol/universal" yn y gaeaf. Rhan o drafodaethau startegol ar gynllun Tirweddau Cymru | | |
| | Ch. 3 | Swyddogion wedi cael rol flaenllaw iawn yn natblygiad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) yn ogystal â datblygu cynllun Ffermio Bro ar gyfer y Tirweddau Dynodedig. Wedi datblygu 2x cais NNF4, ac 2x cais INRS. | | |
| | **Ch. 4** | **Gwaith SFS yn parhau i fynd rhagddo.**<br>**Rhaglen Ffermio Bro wedi cychwyn. Ceisiadau NNF4 wedi ei gwrthod, ond gwahoddiad wedi ei dderbyn i ail gyflwyno un yn NNF5 (2025). Cynlluniau INRS wrthi'n cael eu hasesu.** | | |
| **AC 4.2** | (gwyrdd) | **Yn dilyn ymgynghoriad LIC, cynnal perthynas waith agos gyda'r sector tir i sicrhau bod gan yr Awdurdod ddealltwriaeth o oblygiadau parhaus effaith cynigion Cynllun Ffermio Cynaliadwy Cymru ar rinweddau arbennig Eryri** | Parhaus | Pen. CCA |
| | Ch. 1- 2 | Fel yr uchod, yn rhan o drafodaethau strategol. | | |
| | Ch. 3 | Swyddogion wedi cael rol flaenllaw iawn yn natblygiad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) yn ogystal â ddatblygu cynllun Ffermio Bro ar gyfer y Tirweddau Dynodedig. Wedi datblygu 2x cais NNF4, ac 2x cais INRS. Bydd yr ymgysylltu'n dwyshau gyda datblygiadau yn yr INRS a Ffermio Bro. | | |
| | **Ch. 4** | **Gwaith SFS yn parhau i fynd rhagddo.**<br>**Rhaglen Ffermio Bro wedi cychwyn. Ceisiadau NNF4 wedi ei gwrthod, ond gwahoddiad wedi ei dderbyn i ail gyflwyno un yn NNF5 (2025). Cynlluniau INRS wrthi cael eu hasesu.** | | |

*Pennaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth (CCA)

(gwyrdd) Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

(melyn) Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

(coch) Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 5 | MYND I'R AFAEL Â'R DIRYWIAD MEWN NATUR |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| AC 5.1 | | **Datblygu cynllun gweithredu yn seiliedig ar ddealltwriaeth a chynnwys e.e. SoNaRR (adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol), Adroddiad Cyflwr y Parc Cenedlaethol ayyb. i hysbysu'r blaenoriaethau ar gyfer adfer natur yn Eryri** | Mawrth 2025 | Pen. CCA |
| | Ch. 1-2 | Gwaith yn mynd rhagddo yn dda bydd y ddogfen ymgynghorol yn cael ei chyflwyno gaeaf 2024-25 | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Y gwaith yn symud ymlaen. Anelir i gyflwyno'r fersiwn terfynnol i'r Awdurdod haf 2025.** | | |
| AC 5.2 | | **Parhau i ddarparu gwelliant bioamrywiaeth trwy'r broses rheoli datblygu a sicrhau cydymffurfiad ag unrhyw ganllawiau gan Lywodraeth Cymru** | Adroddiad Blynyddol | Pen. RhDaCh |
| | **Adroddiad blynyddol** | **Mae swyddogion achos yn parhau i dynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau gwelliant bioamrywiaeth i ymgeiswyr/asiantau drwy'r broses cyn cyflwyno cais a cheisiadau cynllunio. Er mwyn ceisio cynorthwyo ymgeiswyr i ddarparu'r wybodaeth berthnasol, mae'r Awdurdod wedi cyhoeddi canllaw a ffurflen y gellir ei defnyddio ar gyfer datblygiadau ar raddfa lai a datblygiadau deiliaid tai i gynorthwyo i ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen, ac mae hyn hefyd yn mynd i'r afael â'r newidiadau a wnaed i Bennod 6 o fewn Polisi Cynllunio Cymru, h.y. y gofyniad i gyflwyno Datganiad Seilwaith Gwyrdd. Mae tudalen we newydd wedi'i chreu ar wefan yr Awdurdod i esbonio'r manylion sy'n ofynnol yn y Datganiad Seilwaith Gwyrdd.** | | |
| AC 5.3 | | **Unwaith bydd canllawiau LIC wedi'u cyhoeddi, sicrhau bod CCA ar fioamrywiaeth yn cael ei gynhyrchu i gefnogi'r broses Rheoli Datblygu** | Mawrth 2025 | Pen. Polisi Cynllunio |
| | **Ch.1- 4** | **Parhau i aros am ganllawiau LIC.** | | |

Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 5.4** | Ch. 1-2<br><br>**Ch. 3 - 4** | **Parhau i ddarparu prosiectau cymeradwy sy'n mynd i'r afael â nodau Safle Eryri (e.e. HLF Carneddau, LIFE (Coedwig Law Geltaidd, Cyforgorsydd, Corsydd Crynedig, prosiect y Gylfinir) SMS Dinas Mawddwy, Rhaglen Genedlaethol Mawn, ENRAW, prosiectau Awyr Dywyll) a datblygu rhaglenni pellach**<br>SMS Dinas Mawddwy bellach wedi ei gwblhau, mae amser sylweddol wedi bod yn cael ei roi i mewn i ddatblygu cynllun Ffermio Cynaladwy gyda Llywodraeth Cymru.<br><br>Mae cais ar gyfer Nature Networks Fund 4 wedi ei roi ymlaen (gyda ffocws ar goed), ac un mewn partneriaeth hefo AHNE y Gogledd ar gyfer Awyr Dywyll. Mae dau gais wedi ei wneud ir INRS, (un ar gyfer ffermio atgynhyrchiol, ac un ar gyfer rheoli coedtir ar ffermydd yn well).<br><br>Mae gwaith sylweddol hefyd wedi ei roi mewn i ddatblygu'r syniad rhaglen Ffermio Bro gyda Llywodraeth Cymru, bydd mwy o fanylion maes o law.<br><br>➢ **Yn disgwyl ateb ar y 2x gais NNF4 ddiwedd Chwefror.**<br>➢ **2x INRS wedi mynd heibio'r cyfnod cystadleuol ac yn cael ei ddatblygu yn llawn erbyn diwedd Mawrth, 2025.**<br>➢ **Datblygiad cynllun Ffermio Bro yn mynd yn dda gyda rol blaenllaw iawn gan Eryri yn y datblygiad**<br>➢ **NPAP yn symud i gynllun ariannu tair mlynedd.**<br>➢ **Trafodaethau cynnar am gynllun ôl LIFE wedi dechrau.** | Adroddiad diweddaru 2 waith y flwyddyn | Pen CCA<br><br>Rheolwyr Prosiectau |
| **AC 5.5** | Ch. 1-2<br><br>**Ch. 3 - 4** | **Symud ymlaen ag arolwg ledled y Parc Cenedlaethol o safleoedd Coed a Choetiroedd Hynafol (PAWS)**<br><br>Y rhaglen waith yma yn mynd ymlaen yn wych ac yn ein galluogi i ddatblygu nifer o raglenni gwaith cyfalaf a darpar brosiectau newydd yn ei sgil.<br><br>**Gwaith yn rhedeg yn hwylus iawn a gofyn cynyddol am y rhaglen.** | Mawrth 2025 | Pen CCA |

Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

## CANLYNIADAU:

**AMGYLCHEDDAU CYDNERTH: Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan llesiant pan:**

**AC1:** Fyddwn wedi datblygu a gweithredu egwyddorion a throthwyon arweiniol mewn perthynas ag effeithiau ymwelwyr ar yr amgylchedd a'r dirwedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.1)***

**AC1:** Rydym wedi sicrhau bod llwybrau'r ucheldir yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda i reoli effeithiau erydiad a blaenoriaethu gwaith yn seiliedig ar nifer y defnyddwyr llwybrau troed ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.2)***

**AC1, 2:** Rydym wedi lleihau effeithiau parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd a'r dirwedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.4)***

**AC1:** Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5)***

**AC1:** Gan ddefnyddio'r strategaeth marchnata brand fel sylfaen, byddwn wedi datblygu cynllun a rennir gyda phartneriaid ar y wybodaeth a ddarparwn i ymwelwyr, gyda phwyslais ar y Rhinweddau Arbennig a newid ymddygiad ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.3)***

**AC2, 4:** Mae allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu lleihau ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.1)***

**AC2, 4:** Rydym wedi diogelu a chynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn Eryri ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.2)***

**AC3, 4, 5:** Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1)***

**AC5:** Mae dirywiad bioamrywiaeth yn cael sylw trwy weithgareddau cynnal a chadw, adfer, ehangu a chysylltedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.2)***

**AC2, 4, 5:** Rydym wedi parhau i ehangu gweithredoedd cyfredol y Bartneriaeth i reoli a lleihau maint y rhywogaethau goresgynnol **(yn unol â Chynllun Eryri A4.2)**

**AC3:** Rydym wedi cefnogi atgyweirio ac adfer adeiladau rhestredig, wedi cefnogi diogelu Henebion Rhestredig ac wedi datblygu a gweithredu prosiectau ar raddfa tirwedd sydd o fudd i'r amgylchedd hanesyddol. **(yn unol â Chynllun Eryri A6.1. A6.2. A6.3).**

# CYMUNEDAU CYDNERTH

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC 1 | CYNNAL A GWELLA ANSAWDD BYWYD PRESWYLWYR |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 1.1** | Gwyrdd | **Datblygu adnodd ar-lein fel rhan o'r wefan newydd sy'n ymwneud â gweithgareddau a llwybrau yn y Parc Cenedlaethol wedi'i dargedu a'i deilwra'n briodol** | Parhaus | Pen. Cyfathrebu<br>Pen. Gwas. Wardeinio + |
| | Ch. 1-2 | Mae'r gwaith yn parhau mewn cydweithrediad rhwng y gwasanaethau cyfathrebu a wardeinio.<br>Mae llwybrau sy'n cael eu hyrwyddo i gyd ar ein gwefan a'r wybodaeth wedi ei gysoni. Yn edrych am ffyrdd ychwanegol i hyrwyddo a chyfleu teithiau gan ddefnyddio adnoddau megis "drone" i greu clipiau ffilm. | | |
| | Ch 3 | Mwy o waith hyrwyddo digidol ar deithiau misol y Wardeiniaid a sesiynau Meddylgarwch wedi golygu cynnydd niferoedd yn mynychu digwyddiadau. | | |
| | **Ch. 4** | **Gwaith wedi ei ddatblygu mewn partneriaeth a'r timau achub mynydd, yr Heddlu a Thrafnidiaeth Cymru mewn ardaloedd potiau mel i hyrwyddo ymweld yn gynaliadwy a chyfrifol.** | | |

Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

<table>
<tr><th>Rhif</th><th>Statws a Cynnydd Chwarter</th><th>Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol<br>(Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)</th><th>Amserlen</th><th>Swyddog(ion) cyfrifol</th></tr>
<tr><td rowspan="2">CC 1.2</td><td></td><td>Fel rhan o'r Strategaeth Gwirfoddolwyr APCE ac mewn cydweithrediad â phartneriaid, parhau i ehangu cyfleoedd gwirfoddoli o fewn y Parc Cenedlaethol sy'n cynnwys gweithgareddau corfforol a diwylliannol<br>➢ Cefnogi a chymryd rhan yng nghynllun gwirfoddoli Caru Eryri 2024 gyda phartneriaid gan gynnwys Cymdeithas Eryri<br>➢ Ystyried ac adolygu digwyddiadau gwirfoddoli a Llesiant 2023, diweddaru DPA a gosod targedau ac argymhellion newydd ar gyfer 2024<br>➢ Sefydlu rhaglen wirfoddoli ar gyfer y flwyddyn i ddod<br>➢ Cynnal cyfres o ddigwyddiadau lles<br>➢ Hyrwyddo cyfloeoedd gwirfoddoli ymhellach y tu allan i ranbarth Yr Wyddfa gyda chymorth swyddogion cyfathrebu</td><td>Parhaus</td><td>Pen. Partneriaethau<br><br>Swyddog Gwirfoddoli a Lles<br><br>Pen. a/neu Swyddog Cyfathrebu</td></tr>
<tr><td>Ch. 1-2</td><td colspan="3">Swyddog Gwirfoddoli a Lles wedi cwblhau'r uchod, ac wedi cyflwyno Adroddiad Blynyddol i'r Aelodau (ym mis Gorffenaf 2024).</td></tr>
<tr><td rowspan="4">CC 1.3</td><td></td><td>Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli i gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol, rhai agored i niwed a grwpiau difreintiedig</td><td>Parhaus</td><td>Pen. Partneriaethau<br>Swyddog Gwirfoddoli a Lles</td></tr>
<tr><td>Ch. 1-2</td><td colspan="3">Mae'r gwaith yn parhau ac yn gwella'n flynyddol (gweler adroddiadau blynyddol Gwirfoddolwyr a Llesiant). Datblygir cyfleoedd newydd a diddorol i dargedu grwpiau penodol. Bydd y rhain yn cael eu datblygu ymhellach dros gyfnod y gaeaf 2024 i'w cynnig yn 2025.</td></tr>
<tr><td>Ch. 3</td><td colspan="3">Gwaith dal yn parhau ac yn datblygu fesul blwyddyn. Bydd Adroddiad Blynyddol Gwirfoddoli a Llesiant 2024 yn barod i gyflwyno i'r Tim Rheoli mis Mawrth 2025 ac i bwyllgor Perfformiad ac Adnoddau 19/03/25.</td></tr>
<tr><td>Ch. 4</td><td colspan="3">Fel yr uchod - cafodd yr Adroddiad Blynyddol ei dderbyn a'i chanmol gan yr Aelodau. Mae'r Swyddog Gwirfoddoli a Lles yn symud ymlaen gyda'i gwaith mewn ffordd arloesol a flaengar. Bydd y swyddog yn bwydo i mewn i'r gyfres o ddigwyddiadau sy'n rhan o waith adolygu Cynllun Eryri a llunio polisïau newydd.</td></tr>
</table>

Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 1.4** | Gwyrdd | **Sicrhau bod cynllunio yn cymryd rôl ragweithiol wrth annog tai fforddiadwy trwy weithio gydag asiantaethau eraill yn y sector hwn, er mwyn ceisio cyflawni'r targed blynyddol a nodir yn y CDLl** | Adroddiad blynyddol | Pen. RhDaCh |
| | **Adroddiad blynyddol** | **Penderfynir ar geisiadau am dai yn unol â pholisïau CDLlE, a phennir y ddarpariaeth tai fforddiadwy o dan Bolisi Datblygu 30. Lle na ellir cyflawni'r targedau tai fforddiadwy dangosol oherwydd hyfywedd safle, bydd yr Awdurdod yn negodi cyfraniad tai fforddiadwy priodol ar safleoedd unigol. Gall hyn gynnwys yr angen i'r Awdurdod gynnal asesiad hyfywedd annibynnol ac ymgysylltu ag adran Dai'r Cyngor sir i ganfod y galw lleol a'r gofynion o ran cymysgedd tai ar gyfer yr ardal berthnasol i sicrhau y bydd y ddarpariaeth tai yn diwallu'r angen lleol.** | | |
| **CC 1.5** | Gwyrdd | **Yn dilyn penderfyniad gan yr Awdurdod i ohirio cynhyrchu Adolygiad CDLl Eryri tan 2025 er mwyn canolbwyntio ar gyflawni Cyfarwyddyd Erthygl 4: Symud ymlaen â bwriad yr Awdurdod i weithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4 i ddileu hawliau datblygu a ganiateir i newid cartref preswyl parhaol i llety gwyliau neu ail gartref, gyda cherrig milltir allweddol yn cynnwys:** | | Cyf. CaRhT<br><br>Pen. Polisi Cynllunio |
| | | ➢ Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol cyn Haf 2024 | ➢ Cyn Haf 2024 | |
| | | ➢ Adrodd yn ôl ar y canfyddiadau a gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol mewn dull gweithredu yn ystod Hydref 2024 | ➢ Hydref 2025 | |
| | | ➢ Paratoi CCA erbyn Mawrth 2025 a fydd yn rhoi arweiniad manylach ar weithredu | ➢ Mawrth 2025 | |
| | | ➢ Anelu i gael ei fabwysiadu gan yr Awdurdod ym mis Mehefin 2025 | ➢ Mehefin 2025 | |
| | Ch. 1- 2 | Ym Mhwyllgor Cynllunio a Mynediad ar 6ed o Fawrth 2024, cymeradwyodd yr Aelodau i swyddogion ymgysylltu ar y cynnig i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer Ardal Awdurdod Cynllunio PC Eryri. Cyflwynwyd hysbysiad ynghylch y Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar 12 o Ebrill, 2024. Y gofyniad statudol oedd cynnal cyfnod ymgysylltu o 21 diwrnod o leiaf. Er mwyn sicrhau digon o gyfle i'r rhai yr effeithir arnynt ymateb i'r hysbysiad ac i hwyluso'r broses o gyflwyno sylwadau, cynhaliodd yr Awdurdod gyfnod ymgysylltu â'r cyhoedd o 6 wythnos o Ebrill 12 hyd at Mai 24ain, 2024. Mae swyddogion yn y broses o ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgysylltu ac yn paratoi Adroddiad Ymgynghori i'w gyflwyno i'r Gweithgor Aelodau i'w ystyried cyn i'r Awdurdod wneud ei benderfyniad terfynol ar gadarnhau Cyfarwyddyd Erthygl 4 ai peidio. Mae CCA amlinellol yn cael ei ddrafftio. | | |

Gwyrdd: Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Ambr: Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Coch: Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| | | |
|---|---|---|
| | Ch. 3 | Adroddiad Ymgynghori wedi cael ei baratoi ac wedi cael ei ystyried gan aelodau yr Awdurdod yng Ngweithgor Aelodau yr Awdurdod ar Ragfyr 4ydd. Amlinelliad o Ganllaw Cynllunio Atodol hefyd wedi cael ei ystyried gan aelodau yng Ngweithgor aelodau Rhagfyr 4ydd. Bydd yr holl ddogfenau cefndirol ynghylch cadarnhau y Cyfarwddyd Erthygl 4 a'i peidio yn cael eu hystyried gan Bwyllgor Cynllunio a Mynediad yr Awdurdod ym mis Ionawr 2025. |
| | Ch. 4 | **Yn dilyn cyfnod ymgynghori gwnaeth Aelodau yr Awdurdod ystyried yr Adroddiad Ymygynghori ym Mwyllgor Cynllunio a Mynediad yr Awdurdod ar Ionawr 22ain 2025 a penderfynwyd gadarnhau y Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri. Bydd y Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn dod i rym ar y 1af o Fehefin 2025. Yn dilyn y penderfyniad ym Mhwyllgor Cynllunio Ionawr - aethwbyd ati i ystyried cynnwys Canllaw Cynllunio Atodol drafft a fu yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod Gwanwyn 2025.** |

Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 1.6** | | **Parhau i ddarparu arian a mesurau i gefnogi cymunedau ac economïau lleol drwy Cronfa Cymunedol Eryri (CCE), yn enwedig lle mae'r rhain yn cael eu harwain gan gymunedau eu hunain, mewn seilwaith gwyrdd, gwell mynediad at hamdden ar gyfer iechyd a lles, cynhyrchu ynni, gwelliannau amgylcheddol lleol megis rheoli sbwriel a gwastraff, datblygu cymunedol a'r Iaith Gymraeg. Bydd ffenstr ariannu newydd ar gyfer 2024-25 yn agor ac yn cael ei hyrwyddo o 18 Mawrth 2024** | Mawrth 2025 | Pennaeth Partneriaethau<br><br>Swyddog Prosiect CCE |
| | Ch. 1-2 | Dyfarnwyd cyllid i 10 prosiect (rhestrir isod), cyfanswm o £102,688.13. Mae 7 prosiect ar y gweill, 3 heb ddechrau eto. Mae pob prosiect yn parhau ar y trywydd iawn i orffen ar amser.<br>❖ Clwb rygbi y Bala – System PV Solar;<br>❖ Cyng Cymuned Beddgelert – Offer newydd ar gyfer y maes chwarae;<br>❖ Canolfan Prysor, Trawsfynydd – Cysawd Solar PV;<br>❖ Clwb Hoci Y Bala – Ail wynebu'r astro turf yn Ysgol Godre'r Berwyn;<br>❖ Cyngor Cymuned Bro Garmon – gwelliannau i faes parcio cymunedol Nebo;<br>❖ Cyngor Cymuned Ysbyty Ifan – Uwchraddio neuadd y pentref, gwydr dwbl a drystau tân newydd;<br>❖ Neuadd Gymuned Llanfairfechan – Cysawd Solar PV:<br>❖ Menter Gymunedol Llanuwchllyn Cyf – Cysawd Solar PV<br>❖ Neuadd Ogwen – Cegin fasnachol<br>❖ Cyngor Cymuned Dolwyddelan – Amryw o brosiectau cyfalaf o'r cynllun cymunedol. | | |
| | Ch. 3 | Mae'r prosiectau uchod yn cael ei gweithredu tuag at eu cwblhau erbyn Mawrth 2025. Mae un prosiect yn rhedeg ar ôl yr amserlen ac un yn risg o beidio gael ei weithredu. Mae Swyddog Ymgysylltu Cymunedol yn gweithio'n agos gyda'r cymunedau i ddatrys unrhyw broblemau. | | |
| | **Ch. 4** | **Cwblhawyd y prosiectau mewn da bryd a derbynwyd arian grant llawn LIC.** | | |

Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC 2 | CEFNOGI POBL IFANC |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CC 2.1 | | **Aelodau i gysidro Maniffesto Ieuenctid drafft** | Mai 2024 | Pen. Gwas. WaM Swyddog Pobl Ifanc |
| | Ch. 1+2 | Cyflwynwyd y Maniffesto i Weithgor Aelodau Mai 22ain a derbyniwyd sylwadau arno gan Aelodau. Bydd swyddogion yn addasu'r Maniffesto ar gyfer ei gyflwyno i'r Awdurdod mis Medi. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Yn dilyn ymadawiad Swyddog Pobol Ifanc, hysbysebwyd y swydd ac apwyntwyd swyddog newydd i'r swydd. Penderfynwyd ail leoli'r swyddog yn yr Adran Partneriaethau a bydd yn dechrau yn y swydd mis Ebrill 2025 i weithredu ar y Maniffesto.** | | |
| CC 2.2 | | **Datblygu'r cynllun Ceidwad Ifanc er mwyn sicrhau gwaith partneriaeth effeithlon, darparu cyfleoedd eang a dod o hyd i gyllid i gynnal y cynllun** | Chwefror 2025 | Pen. Gwas. WaM |
| | Ch. 1+2 | Mae'r gwaith wedi parhau gyda creu cyfleuon i'r Ceidwaid ifanc ar draws y Parc. Y cyfleuon wedi amrywio ac wedi cydweithio gyda adrannau eraill. Gwaith wedi cychwyn gyda'r Loteri er mwyn ceisio am gyllid. | | |
| | **Ch. 3 – 4** | **Yn dilyn ymadawiad Swyddog Pobol Ifanc, hysbysebwyd y swydd ac apwyntwyd swyddog newydd i'r swydd. Penderfynwyd ail leoli'r swyddog yn yr Adran Partneriaethau a bydd yn dechrau yn y swydd mis Ebrill 2025 i weithredu a datblygu cynllun Ceidwad Ifanc.** | | |

Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC3 | HYRWYDDO TWRISTIAETH GYNALIADWY I YCHWANEGU GWERTH I GYMUNEDAU LLEOL |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CC 3.1 | (gwyrdd) | **Gweithio gyda Chyngor Gwynedd a CBS Conwy i ddatblygu a gweithredu cynllun strategol Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri.**<br>**Unwaith y bydd y cynllun strategol wedi'i lansio, dechrau ar y gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu a thargedau a dangosyddion cysylltiedig.**<br>**Mae cyfarfod cyntaf y Bartneriaeth Economi Ymwelwyr Cynaliadwy wedi'i drefnu ar gyfer mis Ebrill 2024:**<br>➢ **Cwblhau Cynllun Gweithredu a gweithredu targedau a dangosyddion cysylltiedig** | Rhagfyr 2024 | Pen. Partneriaethau<br><br>Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy |
| | Ch. 1-2 | Cynllun Gweithredu cyntaf wedi ei gynhyrchu a'i dderbyn gan y Partneriaid. Bydd pawb yn bwydo fewn i hyn erbyn Mawrth 2025 pryd bydd adolygiad a cynllun gweithredu newydd yn cael ei ddatblygu ar gyfer 2025-26. Mae'r grŵp tasg Data yn cael ei ail sefydlu i weithio a datblygu dangosyddion hir dymor i'r Cynllun. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Mae'r gynhadledd flynyddol cyntaf wedi ei gynnal ar 14/02/25 gyda 130 o fynychwyr - ac yn llwyddiannus iawn. Mae swyddogion yn dechrau gweithio ar Gynllun Gweithredu 2025-6 dros y misoedd nesaf.** | | |

(gwyrdd) Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

(melyn) Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

(coch) Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CC 3.2 | | **Datblygu cyfleoedd i annog trafnidiaeth mwy gwyrdd trwy'r canlynol:**<br>➢ Gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru i ddatblygu cynllun trafnidiaeth a pharcio Gogledd Eryri<br>➢ Parhau i weithio gyda partneriaid i ymateb i'r broblem parcio a materion trafnidiaeth yn ardal Nantgwynant.<br>➢ Parhau i hwyluso trafodaethau rhwng partneriaid er mwyn ymateb materion parcio a thrafnidiaeth yn ardal Ogwen | Parhaus hyd at Ebrill 2025 | Pen. Partneriaethau Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy |
| | Ch. 1-2 | Mae cyfarfodydd cyson yn parhau i'w cynnal. Wedi gweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru o mis Mehefin – Tachwedd 2024 trwy secondiad er mwyn gwella cysylltiad rhwng Cynghorau Lleol a Llywodraeth Cymru/NMWTRA a'r Heddlu. Mae'r gwaith yn ateb problemau tymor byr – bydd angen arweniad strategol rhanbarthol i gytuno ymatebion hir dymor. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Fel yr uchod - Parhau i wthio am arweiniad strategol gan Lywodraeth Cymru, NMWTRA, Cyngor Gwynedd a Chyngor Conwy drwy ein perthynas gyda Thrafnidiaeth Cymru a Heddlu Gogledd Cymru.** | | |
| CC 3.3 | | **Parhau i ddatblygu cynllun Llysgenhadon Eryri.**<br>➢ Cyflwyno dau modiwl newydd yn 2024 ar Coed Glaw Celtaidd a Phartneriaeth Tirwedd y Carneddau | Parhaus<br><br>2024 | Pen. Partneriaethau Swyddog Partneriaeth Yr Wyddfa |
| | Ch. 1- 2 | Mae cynllun Llysgenhadon Eryri yn parhau i ddatblygu a thyfu mewn poblogrwydd.<br>Mae'r swyddogion/adrannau perthnasol yn cynhyrchu cynnwys ar gyfer modiwlau newydd.<br>Mae'r Cynllun yn mynd o nerth i nerth ac mae dros 1200 bobl wedi cymhwyso fel Llysgenhadon Eryri erbyn hyn. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Gwaith parhaus - mae gwaith wedi ei gwblhau ar gyfer modiwl ail gymhwyso ar gyfer 2025 ac wedi'i lansio. Bydd modiwl ar Gynllun y Carneddau yn mynd yn fyw yn gynnar yn 2025 a modiwl penodol ar negeseuon diogelwch a Mentru'n Gall yn cael ei lansio yn 2025.** | | |

Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CC 3.4 | | **Sicrhau bod y CDLl presennol yn rhoi ei bolisïau ar waith yn gadarnhaol i gyfrannu at dwristiaeth gynaliadwy, sy'n ychwanegu gwerth at gymunedau lleol** | Adroddiad blynyddol | Pen. RhDaCh<br>Pen. PC |
| **Adroddiad blynyddol** | | **Polisiau CDLl Eryri yn ymwneud a thwristiaeth gynaliadwy yn cael eu gweithredu yn effeithiol** | | |
| CC 3.5 | | **Gweithio gyda Trafnidiaeth Cyrmu i ddatblygu Cynllun Cyflawni trwy Grŵp Cyflawni Gogledd Eryri a sefydlwyd y llynedd i alluogi gwell gwaith partneriaeth a blaenoriaethu a chyflawni prosiectau teithio a thrafnidiaeth cynaliadwy yn llwyddiannus. Sicrhau bod adborth cymunedol wedi'i ystyried wrth ddatblygu'r cynllun. Sicrhau ein bod yn cydweithio â thîm y CDLl fel rhan o'r broses CDLl mewn perthynas â pholisïau sy'n ymwneud â pharcio a thrafnidiaeth.**<br>➢ Cynorthwyo'r Grŵp Cyflawni i gwblhau a gweithredu Cynllun Cyflawni | Mawrth 2025 | Pen. Partneriaethau |
| | Ch. 1-2 | Mae swyddogion APCE yn neud pob dim o fewn eu gallu i symud y gwaith yma yn ei flaen – mae angen ymrwymiad y partneriaid eraill i alluogi'r cyflawni symud ymlaen. | | |
| | Ch. 3 | Parhau fel yr uchod. | | |
| | **Ch. 4** | **Parhau fel yr uchod – Cafwyd cyfarfod o'r grŵp cyflawni mis Mawrth, ni fydd Trafnidiaeth Cymru yn cydlynnu'r cyfarfodydd/gwaith o hyn ymlaen oherwydd newid mewn staff a swyddogion. Bydd angen i'r Partneriaid ystyried sut i symud ymlaen.** | | |

Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC4 | **HYRWYDDO A CHEFNOGI'R GYMRAEG YN WEITHREDOL** |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 4.1** | | **Parhau i ddatblygu Yr Ysgwrn fel canolfan ddiwylliannol sy'n hyrwyddo diwylliant Cymraeg a mynd ati i ddarparu cyfleoedd i gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg** | Parhaus | Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol |
| | Ch. 1+2 | Rhaglen o weithgareddau Haf wedi'i chynllunio a'i chwblhau. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Cwblhawyd rhaglen weithgareddau'r Hydref yn llwyddiannus, gan gynnwys Gŵyl Amgueddfeydd Cymru. Cynhaliwyd rhaglen weithgareddau'r Nadolig yn llwyddiannus a bwriedir ehangu ar yr arlwy yma yn 2025 drwy brosiectau yng nghymuned Trawsfynydd.** | | |
| **CC 4.2** | | **Diogelu a hyrwyddo'r defnydd o enwau lleoedd Cymraeg trwy gwblhau'r cam nesaf o safoni enwau lleoedd Eryri** | Mawrth 2025 | Pen. Treftadaeth Diwylliannol |
| | Ch. 1+ 2 | Mae gwaith ar y rhestr o enwau copaon, rhaeadrau a bylchau ar y gweill. Digwylir i'r gwaith gael ei gwblhau yn yr Hydref. | | |
| | Ch. 3 | Mae'r rhestr uchod bellach wedi'i drosglwyddo i swyddogion yr Awdurdod ar gyfer eu mewnbwn. | | |
| | **Ch. 4** | **Bydd y Grŵp Craffu Enwau Lleoedd yn cyfarfod dros Haf 2025 i gymeradwyo'r rhestr derfynol o enwau copaon, rhaeadrau, bylchau a man lynnoedd. Mae Wardeiniaid yr Awdurdod bellach wedi creu cannoedd o glipiau sain o enwau tirwedd Eryri, sydd bellach ar gael ar wefan Wicipedia a Chomisiynydd y Gymraeg. Dros yr Haf bydd swyddogion yn trafod sut gall APCE ddefnyddio'r rhestr er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd ac annog defnydd o'r enwau safonol** | | |

Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 4.3** | | **Darparu cyfleoedd ac ennyn diddordeb pobl yn yr iaith Gymraeg, diwylliant a threftadaeth gan gynnwys:**<br>➢ **Darparu cyfleoedd i wirfoddolwyr ddysgu a defnyddio'r Gymraeg drwy'r strategaeth wirfoddoli.** | Parhaus | Swyddog Gwirfoddoli a Lles |
| | **Ch. 1 - 4** | **Mae gwirfoddolwyr sy'n dysgu Cymraeg yn cael eu partneru gyda rhai sy'n rhugl ac mae holl wybodaeth a deunydd ar gyfer gwirfoddolwr ar gael yn y ddwy iaith.** | | |
| **CC 4.4** | | **Bydd prosiect Lleisiau ac Enwau Lleoedd y Carneddau a Chynllun Treftadaeth Ddiwylliannol Harlech ac Ardudwy yn cofnodi, diogelu a dathlu enwau lleoedd Cymru trwy ddigwyddiadau mapio cymunedol, cyfweliadau hanes llafar, prosiectau allgymorth a dehongli** | Parhaus hyd at Rhag. 2025 | Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol |
| | Ch. 1- 2 | Cynhaliwyd dwy sesiwn cofnodi enwau lleoedd yn ardal y Carneddau. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Mae sesiynau Penmachno a Chapel Curig wedi'u rhaglennu ar gyfer dechrau 2025. Bydd enwau gweddill ardal y Carneddau yn cael eu casglu yng Ngwanwyn/Haf 2025.** | | |
| **CC 4.5** | | **Sicrhau bod Polisi Datblygu 18: yr Iaith Gymraeg a gwead Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol yn y broses rheoli datblygu** | Adroddiad blynyddol | Pen. RhDaCh |
| **Adroddiad blynyddol** | | **Mae'r Adroddiad Monitro blynyddol a gyflwynir i'r Aelodau a Llywodraeth Cymru bob Hydref, wedi dod i'r casgliad bod y polisi uchod yn cael ei weithredu'n effeithiol.** | | |

Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC5 | DATBLYGU ECONOMI LEOL SY'N CEFNOGI DYNODIAD A RHEOLAETH ERYRI FEL PARC CENEDLAETHOL |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 5.1** | (gwyrdd)<br>**Adroddiad Blynyddol** | **Sicrhau gweithrediad cadarnhaol polisïau cyfredol y CDLI i ddatblygu economi leol sy'n cefnogi dynodiad y PC**<br>**Daeth Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) y CDLI a gyflwynir i Aelodau a Llywodraeth Cymru bob Hydref i'r casgliad bod y polisiau uchod yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Bydd yr adolygiad o'r CDLI yn 2025 yn rhoi cyfle i adolygu'r wybodaeth a'r dystiolaeth bresennol i ganfod a oes angen newid unrhyw bolisi neu ddulliau a fabwysiadwyd ar hyn o bryd.** | Adroddiad blynyddol | Pen. RhDaCh<br>Pen. PC |
| **CC 5.2** | (gwyrdd)<br>**Adroddiad Blynyddol** | **Cyflwyno adroddiad monitro blynyddol i'r aelodau i'w drafod ac ystyried yr amserlen ar gyfer dechrau adolygiad o'r CDLI cyfredol**<br>**Mae hyn wedi ei wneud gan swyddogion a phenderfynwyd i'r adolygiad gychwyn yn 2025 (penderfynwyd ei ohirio am flwyddyn er mwyn caniatau amser i swyddogion weithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4).** | Adroddiad blynyddol | Pen. RhDaCh<br>Pen. PC |
| **CC 5.3** (hecsagon) | (gwyrdd)<br>Ch. 1- 2<br>**Ch. 3 - 4** | **Hyrwyddo cyfleoedd i ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig Eryri yn gynaliadwy**<br>Mae Swyddog Cynnwys Digidol newydd wedi dechrau. Mae'r adran wedi addasu y sianeli digidol sydd bellach yn boblogaidd iawn ac yn cyrraedd mwy o gynulleidfa.<br>**Presenoldeb digidol yn parhau i ffynnu. Mae cynnwys wedi eu teilwra ar wahanol gyfryngau boed hynny yn ddigidol neu beidio yn golygu bod mwy o bobl yn gallu dysgu a mwynhau cyfleoedd yn Eryri.** | Parhaus | Pen. Cyfathrebu |

(gwyrdd) Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

(oren) Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

(coch) Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

## CANLYNIADAU:

**CYMUNEDAU CYDNERTH: Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan llesiant pan:**

**CC1, 2, 4:** Rydym wedi hyrwyddo a galluogi ystod amrywiol o weithgareddau sy'n gwella lles pobl ***(yn unol â Chynllun Eryri B1.2)***

**CC1, 3, 5:** Rydym wedi creu cynllun ac yn canolbwyntio adnoddau ar hyrwyddo, datblygu a chynnal a chadw llwybrau pellter hir wedi'u marcio'n dda, llwybrau hygyrch, llwybrau aml-ddefnyddiwr (yn enwedig llwybrau beicio a llwybrau beicio mynydd), hyrwyddo llwybrau a chysylltiadau a dolenni rhwng trefi a phentrefi. ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B2.1)***

**CC1, 2, 3, 5:** Rydym wedi annog ymwelwyr i ddod ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleddfu pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.2)***

**CC1,3,5:** Rydym wedi archwilio a gweithredu cyfleoedd i annog trafnidiaeth wyrddach (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B4.2)***

**CC2, 3, 4:** Rydym wedi creu cyfleoedd i bobl ifanc fod yn llysgenhadon dros iaith a diwylliant yr ardal (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1***)

**CC4, 5:** Rydym yn arwain trwy esiampl wrth sicrhau bod yr iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru yn cael ei hyrwyddo a'u defnyddio mewn digwyddiadau, gweithgareddau a gwybodaeth ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1***)

**CC 4:** Rydym wedi gweithredu mesurau yn y Cynllun Datblygu Lleol a Chanllawiau Cynllunio Atodol cysylltiedig sy'n annog datblygiadau newydd i gynnal neu wella datblygiad y Gymraeg ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1)***

**CC4:** Rydym wedi darparu cyfleoedd i ddysgwyr Cymru yn yr ardal (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.2***)

**CC4:** Mi fyddwn wedi amddiffyn enwau lleoedd Cymreig (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.3***)

**CC1, 2, 4:** Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â materion sylfaenol a datblygu atebion arloesol i ddarparu tai fforddiadwy sy'n diwallu anghenion lleol (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C3.1***)

# 3. FFYRDD CYDNERTH O WEITHIO

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 1 | DATBLYGU GWEITHLU MEDRUS |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 1.1** | Gwyrdd | **Ymgysylltu â'n staff ar bob lefel i gynorthwyo rheoli perfformiad:**<br>➢ **Bydd holl aelodau staff yr Awdurdod yn cael eu gwerthuso o fewn 12 mis**<br>➢ **Cynnal asesiadau anghenion hyfforddi yr holl staff o fewn 12 mis** | Parhaus Mawrth 2025 | Pen. Adnoddau Dynol (AD) |
| | Ch. 1- 2 | Cefnogaeth wedi ei dderbyn gan y cyfarwyddwyr i annog rheolwyr llinell i gwblhau gwerthusiadau yn brydlon sydd wedi cynyddu nifer y gwerthusiadau a gynhaliwyd hyd yma eleni. Mae'r fformat gwerthuso yn asesu lefelau perfformiad staff ac yn nodi gofynion hyfforddi i unai wella perfformiad gwaith neu hyfforddiant a fyddai'n paratoi staff ar gyfer dilyniant gyrfa o fewn yr Awdurdod ac yn sgil hyn mae nifer o sesiynau hyfforddi staff wedi cynyddu 54%. | | |
| | Ch. 3 | Anogir pob rheolwr llinell i gynllunio eu gwerthusiadau staff mewn da bryd, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd a chyfnodau tawelach. Bydd y dull hwn yn helpu i sicrhau effeithlonrwydd mwyaf wrth werthuso holl aelodau'r tím yn effeithiol. Y chwarter hwn, rydym wedi gweld cynnydd parhaus mewn sesiynau hyfforddi staff, gan gynnwys sesiynau ffurfiol dan arweiniad tiwtoriaid a modiwlau hyfforddi ar-lein ELMS. Gan edrych ymlaen, mae'r adran AD yn gweithio i ehangu'r hyfforddiant ELMS gorfodol ar gyfer yr holl staff, gyda ffocws ar Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Mae cyfieithu'r modiwlau hyn i'r Gymraeg ar y gweill ar hyn o bryd i sicrhau hygyrchedd i bawb. | | |
| | **Ch. 4** | **Mae swyddog Iechyd a Diogelwch yr Awdurdod wedi cychwyn adolygiad manwl o hyfforddiant penodol ar gyfer swyddi o fewn yr Awdurdod. Mae'r broses hyd yma wedi amlygu anghenion hyfforddi allweddol i sicrhau bod staff yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i ragori yn eu rolau. Wrth i'r adolygiad barhau, gallwn ddisgwyl gweld mwy o argymhellion ar gyfer hyfforddiant penodol i swyddi, gan helpu i gefnogi datblygiad proffesiynol ymhellach ac atgyfnerthu ein gweithlu.** | | |

Gwyrdd: Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Melyn: Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Coch: Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CW 1.2 | Ch. 1 - 4 | **Cefnogi staff i fynychu grwpiau cymheiriaid y Parc Cenedlaethol i'w hysbysu am ddatblygiadau ac i gynorthwyo rheoli perfformiad a dealltwriaeth o fewn eu priod ddisgyblaethau**<br>**Mae aelodau staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i fynychu grwpiau cymheiriaid. Mae llawer mwy o gyrsiau wedi ei hychwanegu i ELMS, ein system hyfforddi ar-lein sy'n darparu nifer o gyrsiau hyfforddi dwyieithog i gynorthwyo staff a'u hysbrydoli i symud ymlaen a dysgu disgyblaethau newydd.** | Parhaus Mawrth 2024 | Pen. AD<br>Pen. Gwasanaeth |
| CW 1.3 | Ch. 1 - 4 | **Datblygu ein gweithlu ymhellach a rhoi pob cyfle i staff ddatblygu i gwrdd â heriau'r dyfodol**<br>**Mae cyfleoedd secondiad yn cael eu hystyried a'u cynnig lle bo hynny'n ymarferol. Mae staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i ddatblygu eu cymwysterau o fewn eu meysydd arbenigedd priodol a/neu ennill profiad a gwybodaeth trwy ymgymryd â phrosiectau a/neu gyfrifoldebau ychwanegol. Rhwng y cyrsiau hyfforddi allanol sydd wedi eu trefnu a'r nifer sydd ar gael dros ELMS (portal dysgu ar-lein) mae llawer mwy o gyfleoedd hyfforddiant ar gael i staff. Mae polisi dysgu a datblygu wedi'i greu sy'n amlinellu cefnogaeth yr Awdurdod i staff i wella eu gallu ac yn darparu rhwydweithiau cymorth i'w cynorthwyo.** | Parhaus Mawrth 2025 | Pen. AD<br>Pen. Gwas. |

Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 2 | DATBLYGU A HYRWYDDO ARFER GORAU |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 2.1** | Ch. 1- 4 | **Rhannu cyflawniadau prosiectau Datgarboneiddio trwy gyllid TCLIC gyda chyrff eraill o fewn tirweddau dynodedig a'r ystâd gyhoeddus ehangach**<br>**Mae'r gwaith yn mynd rhagddo. Mae Pennaeth Eiddo yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd Grŵp Swyddogion Datgarboneiddio Gogledd Cymru ac Ystadau Cymru a bydd y Swyddog Carbon newydd a benodwyd yn ymuno pan fydd yn dechrau yn y rôl er mwyn adnabod cyfleoedd i rannu gwybodaeth a chydweithio gyda phartneriaid.** | Mawrth 2025 | Pen. Eiddo |
| **CW 2.2** | Ch. 1-2 | **Gwella Ymgysylltiad Staff a Mentrau Lles. Fel rhan o'n hymrwymiad i feithrin amgylchedd gweithle cefnogol a ffyniannus, rydym yn bwriadu rhoi sawl strategaeth ar waith i sicrhau llesiant ein gweithwyr a hyrwyddo diwylliant o gysylltedd a lles:**<br>➢ Ymchwilio a Gweithredu Arferion Gorau: byddwn yn ymchwilio ac yn mabwysiadu arferion gorau o barciau ac awdurdodau eraill mewn perthynas â chynnal gwiriadau gwyliadwriaeth iechyd i staff er mwyn blaenoriaethau eu hiechyd a diogelwch<br>➢ Dadansoddiad o Absenoldebau Salwch: Deall y ffactorau sy'n cyfrannu at absenoldeb salwch i nodi tueddiadau a gweithredu ymyriadau wedi'u targedu i hyrwyddo lles cyffredinol a lleihau absenoldeb<br>➢ Mwy o Rwydweithio ymhlith Staff: Meithrin ymdeimlad o gymuned a chyfeillgarwch ymhlith ein gweithwyr trwy drefnu diwrnodau cyfarfod staff amlach, gan gynnwys cinio a digwyddiadau awyr agored, i ddarparu cyfleoedd ar gyfer ymlacio, cymdeithasu ac adnewyddu<br>Mae asesiadau iechyd staff wedi cychwyn gyda'r grŵp cyntaf wedi cael profion pwysedd gwaed, golwg, clyw, ysgyfaint a diabetes. Rydym wedi cychwyn adrodd yn chwarterol wrth y tîm rheoli ar y nifer o absenoldebau drwy salwch fesul adran er mwyn creu ffocws ar y lefelau a'r rhesymau dros yr absenoldebau. Bydd polisi Presenoldeb newydd yn cael ei greu er mwyn gosod trefn gadarn ar gyfer cefnogi aelodau staff sydd yn absennol o'r gwaith drwy gynnig nifer gwahanol fathau o gefnogaeth. Mae asesiadau risg straen a Chynlluniau Gweithredu Lles yn cael ei greu gydag aelodau staff sy'n dioddef o absenoldebau sy'n gysylltiedig â straen neu'n dychwelyd yn ddiweddar ar ol | Mawrth 2025 | Pen. AD |

Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| | | |
|---|---|---|
| | | cyfnod o absenoldeb yn ymwneud â straen.<br>Mae'r fforwm staff sydd ar ei newydd wedd yn fformat da ar gyfer rhannu syniadau a chreu cyfleoedd i'r holl staff gael cipolwg ar wahanol agweddau o waith a phrosiectau'r Parc drwy drefnu diwrnodau cysgodi ac ymweliadau â gwahanol adrannau. Mae syniadau yn cael eu cynnig ar gyfer dyddiau allan yn y maes, diwrnodau holl staff a ffyrdd i gadw'n heini drwy ymarferon wrth gyfrifiadur. |
| | Ch. 3 | Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i lesiant staff mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer Diwrnod Holl Staff ym mis Ionawr, gan roi cyfle i'r Prif Weithredwr newydd siarad yn uniongyrchol a'r staff a bydd y digwyddiad yn cynnwys sesiwn benodol ar lesiant staff, straen yn y gweithle, a iechyd meddwl. Mae hyn yn faes blaenoriaeth i'r Awdurdod, a bydd y diwrnod yn darparu gwybodaeth, adnoddau, a chefnogaeth werthfawr i'n gweithlu.<br><br><u>Cefnogaeth Iechyd Meddwl a Llesiant:</u> Mae'r Awdurdod wedi penodi ac wedi hyfforddi Cynorthwyydd Cymorth Iechyd Meddwl a Hyrwyddwr Llesiant o fewn ein gweithlu presennol. Bydd yr unigolion hyn yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi staff, hyrwyddo mentrau llesiant, ac annog agwedd gadarnhaol tuag at iechyd a llesiant ar draws y sefydliad. |
| | **Ch. 4** | **<u>Offer Dangosydd Straen HSE:</u> Mae'r Awdurdod wedi cyflwyno offer dangosydd straen (HSE - Health and Safety Executive). Bydd hyn yn ein galluogi i asesu lefelau straen ar draws y gweithlu ac i nodi meysydd allweddol lle gallai fod angen cymorth neu adnoddau ychwanegol. Bydd yr adborth yn amhrisiadwy wrth ein helpu i ddeall ac ymdrin ag unrhyw heriau mae staff yn eu hwynebu.**<br>**<u>Grwp Cerdded Amser Cinio:</u> Er mwyn annog staff i gymryd egwyl iach yn ystod y dydd, mae grwp cerdded amser cinio wedi ei lansio. Mae'r fenter hon yn rhoi cyfle i fynd allan o'r swyddfa neu gartref, mwynhau manteision natur, ac ymgysylltu a chydweithwyr mewn sefyllfa anffurfiol. Mae croeso i bawb ymuno, a gobeithiwn y bydd yn meithrin ymdeimlad gwell o lesiant a chymuned.**<br>**<u>Yoga Desg Ddwyieithog:</u> Rydym wedi datblygu fideo yoga byr dwyieithog sydd ar gael i staff. Mae'r fideo'n cynnig ymarferion ymestyn byr y gellir eu gwneud wrth eich desg i helpu gyda hyblygrwydd.**<br>**<u>Fideo Gwella Cwsg:</u> Mae fideo gwella cwsg yn cael ei greu ar y cyd gan yr adran AD a Chyfathrebu er mwyn ei rannu i'r holl staff ar syniadau sut i wella cwsg.** |

Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 3 | GWEITHIO'N EFFEITHIOL MEWN PARTNERIAETH |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CW 3.1 | Ch. 1 - 4 | **Cynllun Eryri yn cael ei weithredu'n llwyddiannus ac adroddiad cynnydd blynyddol cyntaf wedi ei chyflwyno i'r Awdurdod.**<br>➢ **Cyflwyno'r drydedd adroddiad cynnydd i'r Awdurdod**<br><br>**Cyflwynwyd y drydydd adroddiad cynnydd i'r Aelodau yn ystod y Gwanwyn ac mae copi ar gael ar wefan yr Awdurdod. Bydd Cynllun Eryri yn cael ei adolygu yn 2025 ac mae gwaith paratoadol wedi dechrau. Anelir i gyhoeddi Adroddiad Cyflwr y Parc ym mis Mawrth 2025 a dechrau'r broses adolygu Cynllun Eryri weddill y flwyddyn.** | Mehefin 2024 | Pen. Partneriaethau |
| CW 3.2 | Ch. 1- 4 | **Cefnogi gwaith y Bartneriaeth Tirweddau Dynodedig Cenedlaethol (NDLP) yng Nghymru**<br><br>**Mae ymarfer da a gwybodaeth am gyrchu grantiau yn cael eu rhannu rhwng aelodau'r Bartneriaeth. Rhoddir ystyriaeth i anghenion sgiliau ar draws yr 8 tirwedd. Cynhaliwyd seminar y Bartneriaeth mis Mai. Cafwyd trafodaethau diddorol ac addysgiadol ymhlith y nifer dda oedd yn bresennol.** | Parhaus | PW |
| CW 3.3 | Ch. 1- 4 | **Parhau i gefnogi gwaith Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ledled y DU, y Bartneriaeth Parciau Cenedlaethol (PPC), Sefydliad Parciau Cenedlaethol a mentrau cydweithredol cysylltiedig eraill**<br><br>**Bydd y PW yn mynychu'r holl gyfarfodydd yn ôl yr angen. Mae cyfleoedd cydweithredol yn cael eu datblygu gan wahanol wasanaethau'r Awdurdod wrth i gyfleoedd godi.** | Parhaus | PW |

Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 3.4** | Ch. 1- 4 | **Cyfrannu at ffurfio a datblygu swyddogaeth cynllunio Cyd Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru**<br><br>**Mae'r PW a'r Cadeirydd yn parhau i fynychu'r cyfarfodydd.**<br>**Mae swyddog o BC Eryri wedi ei (ch)gyf-ethol i eistedd ar Is-Bwyllgor Strategol Trafnidiaeth Gogledd Cymru. Mae Cadeirydd PC Eryri wedi ei gyf-ethol i eistedd ar Is-Bwyllgorau Cynllunio ac Economi a Llesiant.** | Parhaus | Cyf. CaRhT |
| **CW 3.5** | Ch. 1- 2<br>Ch. 3 - 4 | **Er mwyn cyflawni adolygiad Cynllun Eryri 2025 yn unol â'r amserlen, bydd data ar gyfer yr Adroddiad ar Gyflwr y Parc wedi'i gasglu a'i ddehongli gyda mewnbwn gan gydweithwyr mewnol ac allanol erbyn diwedd 2024. Cyflwyno crynodeb i'r Aelodau.**<br><br>Mae'r gwaith yn parhau bydd yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau cyn diwedd 2024.<br>**Mae'r Adroddiad wedi cael ei gyflwyno i Aelodau a Phartneriaid drwy Fforwm Eryri.**<br>**Mae gwaith i ddatblygu Meicrowefan wedi ei gwblhau a bydd yn wefan yn cael ei greu a'i rannu gyda staff ac Aelodau ym mis Mawrth 2025. Bydd y Wefan yn cael ei gyhoeddi'n llawn hwyrach ym mis Mawrth 2025.** | Rhag. 2024 | Pen. Partneriaethau |

Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 4 | MODERNEIDDIO TREFNIADAU LLYWODRAETHU |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 4.1** | (gwyrdd) | **Monitro presenoldeb Aelodau yng nghyfarfodydd yr Awdurdod** | Mawrth 2025 | Swyddog Gwas. Democrataidd |
| | Ch. 1+2 | 2 gyfarfod o'r Awdurdod (Ebrill a Mehefin) – 86%<br>4 cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad (Ebrill, Mai, Mehefin a Medi) – 81.75% | | |
| | Ch. 3 | 2 gyfarfod o'r Awdurdod (Hydref a Tachwedd) – presenoldeb 94%<br>2 gyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad (Hydref a Rhagfyr) – presenoldeb 90.5%<br>1 cyfarfod o'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau (Tachwedd) – presenoldeb 63% | | |
| | **Ch. 4** | **1 cyfarfod o'r Awdurdod (Chwefror) – presenoldeb 87.5%**<br>**2 gyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad (Ionawr a Mawrth) – presenoldeb 90.6%**<br>**1 cyfarfod o'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau (Mawrth) – presenoldeb 81%**<br><br>**Fel y gwelwch mai presenoldeb Aelodau wedi bod yn gyson ac uchel gydol y flwyddyn 2024-25.** | | |

(gwyrdd) Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

(melyn) Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

(coch) Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 4.2** | | **Cefnogi a datblygu Aelodau'r Awdurdod drwy hyfforddiant a datblygu**<br>➢ **Parhau i gefnogi LIC i fireinio a darparu rhaglen hyfforddiant ar egwyddorion arfer llywodraethu da ac atebolrwydd i Aelodau'r Awdurdod** | Parhaus | Cyf. Gwas. Corfforaethol |
| | Ch. 1- 2 | Cynhaliwyd sesiwn hyfforddiant "Llywodraethu Ariannol Effeithiol" ym mis Mehefin ac mae dyddiadau ar gyfer hyfforddiant "Llywodraethu Risg" wedi ei drefnu ar gyfer diwedd y flwyddyn. | | |
| | Ch. 3 | Cynhaliwyd y sesiwn hyfforddiant "Llywodraethu Risg" mis Tachwedd, yn anffodus yr oedd y niferoedd o Aelodau oedd ar gael i fynychu yn isel. | | |
| | **Ch. 4** | **Cynhaliwyd Diwrnod Datblygu Aelodau ym mis Mawrth gyda 56% o'r Aelodau yn bresennol. Materion parcio a thrafnidiaeth, eiddo a chanolfannau gwybodaeth oedd y thema yn ardal Betws y Coed a Pen y Pass gyda thaith gwasanaeth bws Sherpa rhwng y ddau leoliad.**<br>**Hefyd, yn ystod Mawrth cynhaliwyd sesiwn hyfforddiant Llywodraeth Cymru ar Lywodraethu Cynaliadwy gyda 37.5% o'r Aelodau yn bresennol.** | | |

Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 5 | CYNNAL A GWELLA DEALLTWRIAETH A CHEFNOGAETTH CYMUNEDAU LLEOL I WAITH Y PARC CENEDLAETHOL |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 5.1** | | **Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli pellach yn Yr Ysgwrn i wella'r garfan bresennol o wirfoddolwyr, gan geisio recriwtio pobl ifanc sy'n awyddus i ddatblygu sgiliau newydd ac ennill profiad, gan ganolbwyntio ar ddarparu gweithgareddau gan wirfoddolwyr yn ogystal â rolau mwy traddodiadol fel tywyswyr ymwelwyr.** | Parhaus | Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol + Rheolwr Profiadau Ymwelwyr (pan wedi'i apwyntio) |
| | **Ch. 1- 4** | **Mae gwirfoddolwyr yn parhau i fod yn greiddiol i fodel busnes Yr Ysgwrn ac yn allweddol i gynnal sawl agwedd o weithgaredd, e.e. ymweliadau grwp a gan ysgolion ac mae nifer o wirfoddolwyr yn gwirfoddoli yn rheolaidd. Mae denu rhagor o wirfoddolwyr cyson yn parhau yn her.** | | |
| **CW 5.2** | | **Adolygu a monitro'r mesurau yn y Strategaeth Ymgysylltu drwy'r adroddiad blynyddol ar y Dangosyddion Perfformiad Allweddol i sicrhau bod cymunedau lleol a rhanddeiliaid yn deall ac yn ymwybodol o waith yr Awdurdod** | Parhaus | Pen. Cyfathrebu |
| | Ch. 1- 2 | Gwaith yn parhau ar gyfer adrodd ar ddangosyddion 2024 yn y flwyddyn newydd. | | |
| | Ch. 3 | Gwaith casglu ystadegau ag adroddiadau 2024 yn parhau er mwyn eu cyflwyno i Aelodau ym Mhwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn Ch.4. | | |
| | **Ch. 4** | **Gwaith weid ei ohirio ac yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Perfformiad ac Adnoddau Gorffennaf 2025** | | |
| **CW 5.3** | | **Ymgysylltu â chymunedau a'u hysbysu trwy gyfarfodydd â Chynghorau Cymuned** | Trefnu o leiaf 1 cyfarfod | Pen. Polisi<br>Pen. Gwas. Gwein. A GC |
| | **Ch. 1- 4** | **Mae Fforwm Cymunedau wedi'i sefydlu i ddiweddaru a chynnwys Cynghorau Tref a Chymuned yn y broses adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol. Bydd materion cyffredinol eraill yn cael eu codi a'u trafod yn ôl yr angen. Mae fformat ymgysylltu tebyg yn cael ei ystyried drwy gydol adolygiad o'r CDLl.** | | |

Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 5.4** | | **Adfer cyswllt â pherchnogion tir a phartïon â diddordeb trwy gyfarfodydd Fforymau Mynediad Parc Cenedlaethol Eryri** | Parhaus | Rheolwr Mynediad |
| | **Ch. 1- 4** | **Cynhelir cyswllt parhaus trwy gyfarfodydd y Fforymau Mynediad a gynhelir tair gwaith y flwyddyn yng ngogledd a de'r PC. Cynhaliwyd cyfarfodydd yn y gwanwyn a'r haf gyda rai pellach wedi'u trefnu i'w cynnal mis Chwefror, 2025.**<br>**Fel diweddariad pellach ac oherwydd salwch swyddog bu rhaid gohirio cyfarfodydd Chwefror 2025.** | | |
| **CW 5.5** | | **Parhau i gysylltu â'r gymuned ffermio ac undebau ffermio trwy gyfarfodydd y Grŵp Cyswllt Amaethyddol** | Cyfarfod Blynyddol | Pennaeth CCA |
| | **Cyfarfod Blynyddol** | **Cyfarfod Blynyddol y Grŵp Cyswllt Amaeth wedi'i drefnu a'i gynnal ym mis Ionawr, 2025** | | |
| **CW 5.6** | | **Cynnwys ein cymunedau lleol ym mhob agwedd bwysig o waith yr Awdurdod e.e. cyflwyno Cynllun Eryri, llunio Canllawiau Cynllunio Atodol, Strategaethau Ymgysylltu wrth ddatblygu prosiectau newydd ayb.**<br>➢ **Datblygu Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol ar gyfer yr Awdurdod** | Parhaus<br><br>Mawrth 2025 | Pen. Partneriaethau<br>Pen.PC<br><br>Swyddog Ymgysylltu Cymunedol |
| | Ch. 1- 2 | Mae'r gwaith yn symud ymlaen i ddatblygu Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol ar ran yr Awdurdod erbyn Mawrth 2025. | | |
| | Ch. 3 | Strategaeth drafft wedi gynhyrchu ac am gael ei gyflwyno i Tîm Rheoli a wedyn i'r Awdurdod pan fydd yn barod. | | |
| | **Ch. 4** | **Fel yr uchod – am wirio gyda Tim Rheoli cyn symud ymlaen i hysbysebu'r staff a chyflwyno i'r Awdurdod.** | | |

Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 6 | CYDBWYSO ADNODDAU AC YMDRECHION YR AWDURDOD | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif** | **Statws a Cynnydd Chwarter** | **Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)** | **Amserlen** | **Swyddog(ion) cyfrifol** |
| **CW 6.1** | | **Gan Ddefnyddio dull gweithredu deuol, adolygu model gweithredu Plas Tan y Bwlch:**<br>➢ **Ceisio gweithio mewn partneriaeth ar gyfer rheoli Plas Tan y Bwlch a**<br>➢ **Bwrw ymlaen â'r paratoadau ar gyfer gwerthu'r eiddo ar y farchnad agored os na fydd gweithio mewn partneriaeh yn ymarferol** | Mawrth 2025 | PW<br><br>Cyf. Gwas. Corfforaethol |
| | Ch. 1- 2 | Bydd papur yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod mis Tachwedd gyda'r bwriad o ddod i gytundeb ar y materion sydd angen eu symud ymlaen dros fisoedd y gaeaf cyn i'r mater gael ei ystyried ymhellach i'w benderfynu yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Ebrill 2025. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Cyflwynwyd papur i'r Awdurdod mis Tachwedd pryd gytunwyd i swyddogion symud trafodaethau ymlaen - ar y pryniant posib, mynediad i'r coedlannau a Llyn Mair cyn adrodd yn ôl i Awdurdod 30 Ebrill 2025.** | | |
| **CW 6.2** | | **Adolygu ffioedd meysydd parcio yr Awdurdod ac, os yn berthnasol, stmud ymlaen â'r gwaith paratoi ar gyfer cynyddu'r ffioedd yn unol â darparwyr meysydd parcio eraill yn yr ardal** | Mawrth 2025 | Pen. Eiddo |
| | Ch. 1- 3 | Gwaith cychwynnol ar y gweill, adolygu tymor 2024 ar y cyd gyda'r heddwas ar secondiad a chytuno blaenoriaethau gan gynnwys derbyn cyngor cyfreithiol ar ddulliau rheoli i'r dyfodol er mwyn atal aros dros nos. Bwriedir treialu modelau rheoli newydd o amgylch Llyn Tegid yn ystod tymor 2025, gan gynnwys ffioedd gweithgareddau y Llyn. Adolygiad a phapur i'w gyflwyno i bwyllgor Perfformiad ac Adnoddau Mawrth 2025. | | |
| | **Ch. 4** | **Cyngor cyfreithiol wedi ei dderbyn yn cadarnhau y gellid defnyddio systemau camerau adnabod rhif (ANPR) ar safleoedd APCE. Treialu a chasglu data yn unig ym meysydd parcio Betws y Coed,** | | |

Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Blaendraeth Llyn Tegid a Llangywer yn ystod tymor yr haf 2025 i sicrhau nad oes sgil effeithiau negyddol. Ceisiadau cynllunio priodol ar y gweill. Papur diweddaru wedi gyflwyno yng Ngweithgor Mawrth 2025 a thrafodaeth yn ystod Diwrnod Datblygu Aelodau Mawrth 2025 a chytuno i adolygu strwythur a ffioedd parcio yn Hydref 2025 ar gyfer gweithredu o'r 1af o Ebrill 2026.** | | |
| **Rhif** | **Statws a Cynnydd Chwarter** | **Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)** | **Amserlen** | **Swyddog(ion) cyfrifol** |
| **CW 6.3** | | **Symud ymlaen i adolygu potensial masnachol Canolfannau Gwybodaeth yr Awdurdod** | Mawrth 2025 | Pen. TDd. Rheolwr Canolfannu Gwyb. |
| | Ch. 1- 2 | Briff ar gyfer ail-ddatblygu canolfan Betws y Coed yn cael ei ddatblygu. | | |
| | Ch. 3 | Penodwyd cwmni penseiri cadwraethol Donald Insall Associates i arwain ar y gwaith hwn, gan gynnwys rhaglen ymgysylltu cymunedol. | | |
| | **Ch. 4** | **Mae'r grŵp prosiect wedi cadarnhau'r prif themâu gyda'r penseiri a'r gwaith datblygu opsiynau yn mynd rhagddo. Mae cais wedi'i gyflwyno i Croeso Cymru am gefnogaeth ariannol i wireddu gwedd 1 y prosiect datblygu.** | | |

Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

## CANLYNIADAU

**FFYRDD CYDNERTH O WEITHIO: Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan llesiant pan:**

**CW1, 2:** Rydym wedi buddsoddi yn ein staff i sicrhau bod ganddynt yr arbenigedd a'r sgiliau sydd eu hangen i gwrdd â heriau presennol ac yn y dyfodol.

**CW2, 3:** Mae Cynllun Eryri yn cael ei weithredu'n llwyddiannus.

**CW2, 4:** Rydym wedi cynnal adolygiad o'r trefniadau llywodraethu presennol i sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i weithredu'n effeithiol ac y bydd yn ddigon addasadwy i gwrdd â heriau yn y dyfodol. Monitro unrhyw newidiadau i sicrhau eu bod yn gweithio yn ôl y bwriad.

**CW5:** Mae cyfleoedd i gymunedau lleol, ysgolion, grwpiau anodd eu cyrraedd a difreintiedig i ymgysylltu ag amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol Eryri, a dysgu amdano, a sut y gallant helpu i ofalu amdano wedi cael eu nodi. ***(yn unol â Chynllun Eryri Allbwn A5.1)***

**CW5:** Rydym wedi cefnogi, hyrwyddo a darparu cyfleoedd gwirfoddoli sy'n helpu i amddiffyn a gwella'r amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol (***yn unol â Chynllun Eryri Allbwn A5.2***)

**CW5:** Byddwn yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer deialog rhwng Awdurdod y Parc Cenedlaethol a sefydliadau cymunedol (***yn unol â Chynllun Eryri Allbwn C4.1)***

***CW6:** Byddwn yn cyflawni o dewn y gyllideb a neilltuwyd a defnyddir cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod mewn modd cynaliadwy.

*Amcan newydd Mawrth 2024.

- 🟢 Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2024-25
- 🟡 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025
- 🔴 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

# LLYTHYR CYLCH GWAITH, LLYWODRAETH CYMRU: YR AMGYLCHEDD

| Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LlC ar gyfer APCE | Prosiect/ Gwaith APCE |
|---|---|
| Cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu economi ddi-garbon drwy weithio i fod yn garbon niwtral erbyn 2030 drwy'ch gwaith bob dydd ac amrywiaeth o ymyriadau datgarboneiddio | **AC 2.1. AC 2.2 AC 2.3 AC 2.4** |
| Caefnogi'r symudiad oddi wrth geir preifat i drafnidiaeth fwy cynaliadwy ar gyfer y rhan fwyaf o deithiau staff, ymwelwyr a defnyddwyr y gwasanaeth er mwyn cyrraedd y targed o 45% o deithiau'n defnyddio dulliau cynaliadwy erbyn 2040 | **CC 3.3**<br>**CW 2.3** |
| Rhoi help rhagweithiol i ddal a storio carbon gan gynnwys drwy helpu i greu coetiroedd lle bo hynny'n briodol a chefnogi'n not o gryfhau'r mesurau i ddiogelu coetiroedd hynafol, a chynyddu'r cysylltiad â rhaglen y Goedwig Genedlaethol | **AC 5.5 (PAWS)** |
| Cymryd camau i wella cysylltedd, cyflwr, maint ac amrywiaeth ecosystemau, a chynnal a gwella rhwydweithiau ecolegol cydnerth, gan ymgorffori'r gwaith sydd ei angen i daro'r targedau cenedlaethol sy'n deillio o'r ymrwymiad 30x30 | **AC 5.1 - AC 5.5** |
| Cefnogi'r rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawnogydd (NPAP) i adfer, gwella a chynnal rhwydweithiau ecolegol cydnerth, myned i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a rheoli dŵr. Dylech weithio gyda CNC i daclo themâu'r NPAP, gan gynnwys y camau blaenoriaeth a'r themâu trawsbynciol | **AC 2.4 AC 5.1 AC 5.4** |
| Cefnogi ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu cynllun â thargedau i helpu i adfer cynefinoedd morwellt a morfeydd heli ar hyd ein harfordir, helpu i wireddu uchelgeisiau Fframwaith Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig a chyfrannu at ddatblygu polisi ar garbon glas | **AC 5.1** |
| Cronfa gyfalaf tirweddau cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy, a chynlluniau eraill Llywodraeth Cymru i gyflawni nodau natur a datgarboneiddio | **CW 3.2** |
| Cymryd rhan weithredol mewn Cynlluniau Ynni Lleol i helpu i drawsnewid y system ynni sydd ei hangen i gyrraedd Sero Net, gan sicrhau mwy o fanteision i'ch cymunedau | |
| Cymryd rhan gadarnhaol mewn mentrau i hyrwyddo ailddefnyddio a thrwsio, i gynyddu'r economi gylchol, a lleihau'r niwed a achosir i'r amgylchedd gan blastig untro drwy annog pobl i beidio â'i ddefnyddio lle gellir | **AC 1.10** |

## LLYTHYR CYLCH GWAITH LLYWODRAETH CYMRU: POBL A LLEOEDD

| **Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LlC ar gyfer APCE** | **Prosiect/ Gwaith APCE** |
|---|---|
| Cyfrannu at gyd-lunio'r Cynllun Ffermio cynaliadwy ac at ei roi ar waith | **AC 4.1** |
| Cyfrannu, lle bo'n briodol, at ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu Strategaeth Bwyd Cymunedol i annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd lleol | **-** |
| Gweithio gydag Awdurdodau Tai, Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol a datblygwyr preifat, i ddatblygu atebion arloesol i broblemau tai difrifol, a chyfrannu at Gynllun Tai Cymunedau Cymraeg | **CC 1.4** |
| Gweithio gyda phartneriaid fel Awdurdodau Lleol a Thrafnidiaeth Cymru i gael hyd i ffyrdd i leihau pwysau ymwelwyr ar y seilwaith lleol, gan gynnwys systemau trafnidiaeth mwy cynaliadwy, ac ymgyrchoedd cyfathrebu i sicrhau hamddena cyfrifol. Rhaid cofio yr un pryd am bwysigrwydd twristiaeth i'n heconomi, a'ch rôl allweddol o ran diwallu anghenion ymwelwyr. Dylech gael eich arwain gan argymhellion a chanfyddiadau'r gwaith diweddar gan Archwilio Cymru ar dwristiaeth gynaliadwy | **AC 1.2 1.4 1.5 1.6 1.9**<br>**CC 3.1 – 3.5**<br>**CW 5.3** |
| Helpu i ddynodi dyfroedd ymdrochi ar y tir a defnyddio systemau Draenio Cynaliadwy | **-** |
| Bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith Cymru gyfan arfaethedig ar gyfer rhagnodi cymdeithasol | **-** |
| Cydweithio â phartneriaid allweddol i gyflawni yn unol â *Blaenoriaethau ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru* i ddiogelu a dehongli'r amgylchedd hanesyddol a threftadaeth ddiwylliannol | **AC 3.1 – AC 3.9** |
| Datblygu polisïau sy'n sicrhau bod y Gymraeg yn cael ffynnu, gan gyflawni *Cymraeg 2050: Ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026* | **CC 4.1 – CC 4.7** |
| Cynyddu cyfleoedd i grwpiau agored i niwed, grwpiau difreintiedig a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol i elwa ar y tirweddau rydych chi'n eu rheoli | **CC 1.2 1.3** |
| Cynyddu'r hyfforddiant sgiliau, prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli. | **CC 1.2 1.3 CC 2.1 2.2**<br>**CW 5.1** |

## LLYTHYR CYLCH GWAITH LLYWODRAETH CYMRU: LLYWODRAETHU A CHYNLLUNIO

| **Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LlC ar gyfer APCE** | **Prosiect/ Gwaith APCE** |
| --- | --- |
| Cymryd rhan weithredol mewn rhaglen wella chefnogi gan TLlLC o dan arweiniad y sector | - |
| Cyfrannu at lunio pecyn hyfforddi newydd ar gyfer aelodau APCau a datblygu dull cyd gysylltiedig o hyfforddi APCau i rannu arfer gorau | **CW 4** |
| Hyrwyddo protocol newydd awdurdodau Lleol ar gyfer penodi aelodau APCau, cyn, yn ystod ac ar ôl etholiadau lleol, gan bwysleisio profiad a diddordeb uwchlaw ystyriaeth gwleidyddol cyn belled ag y bo modd o fewn y ddeddfwriaeth bresennol | **CW 4** |
| Croesawu'n llawn system flynyddol gryfach ar gyfer adrodd ar berfformiad yr aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru, ac ymchwilio sut i'w hestyn i benodiadau'r Awdurdodau Lleol | **CW 4** |
| Ymdrechu i sicrhau rhagoriaeth mewn llywodraethu gan gynnwys rhannu arfer gorau rhwng APCau, gwneud y gorau o'r arweinydd Strategol Cynhwysiant, Amrywiaeth a Llywodraethu newydd | **CW 4** |
| Cyfrannu at lunio polisi cynllunio lleol a rhanbarthol, gan gynnwys drwy strwythur y Cyd Bwyllgor Corfforedig (CJC) a thrwy gydweithio ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol i roi polisïau Cymru'r Dyfodol ar waith (gan gyfeirio'n benodol at Bolisi 9 a'r gofyn i gynnal rhwydweithiau ecolegol cydnerth a seilwaith gwyrdd) | **CW 3.4** |

## LLYTHYR CYLCH GWAITH LLYWODRAETH CYMRU: CYDWEITHIO

| **Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LlC ar gyfer APCE (a Tirweddau Dynodedig Cymru (TDC))** | **Prosiect/ Gwaith APCE** |
|---|---|
| Cefnogi Tirweddau Cymru (y Bartneriaeth Tirweddau Dynodedig Cenedlaethol) i ddatblygu ei huchelgais, sicrhau bod cydweithio'n digwydd ar bob lefel o fewn APCau ac AHNE a helpu i greu gweledigaeth strategol ar gyfer gweithredu ar gyfer 2022-24 | **CW 3.2 CW 3.3** |
| Rhoi cytundeb teiran trawsnewidiol rhwng yr APCau ar waith i gynnal tîm o Gydgysylltwyr Tirweddau Strategol a ariennir gan Lywodraeth Cymru i weithio ar draws ein Parciau a'n AHNE, a sicrhau bod amcanion ac allbynnau'r swyddi hyn yn cael eu cynnwys o fewn trefniadau monitro ehangach yr APCau a TDC:<br>i. **Arweinydd Strategol Adfer Natur a Dal a Storio Carbon,** i ymdrin â'r holl goetiroedd a chynefinoedd heb eu gwella a'u bioamrywiaeth, gan gynnwys rhywogaethau goresgynnol, a chyfleoedd i leihau allyriadau carbon<br>ii. **Arweinydd Strategol Adfer, Natur a Rheoli Maetholion**, i ymdrin â rheoli pridd cynhyrchu, problemau i afonydd a'r môr oherwydd gwaith ar y tir, ewtroffigedd yn llynnoedd yr ucheldir, bioddiogelu dŵr rhag dŵr ffo amaethyddol, a chefnogi datblygiad byrddau Rheoli Maetholion.<br>Bydd y ddwy swydd yn helpu i:<br>• Ddatblygu cynllun strategol i ymateb i'r argyfyngau natur a hinsawdd;<br>• Cefnogi datblygu ffyrdd i Dirweddau Dynodedig allu addasu i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd;<br>• Nodi sut y gall Tirweddau Dynodedig ddatblygu partneriaethau newydd a chefnogi blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru, a nodi ffrydiau ariannu arloesol.<br>iii. **Arweinydd Strategol Rhagoriaeth Cynhwysiant, Amrywiaeth a Llywodraethu** i weithio ar draws yr holl APCau, gyda'i, swyddfa yn un ohonynt.  Agwedd allweddol ar ei waith fydd cymryd camau beiddgar i wella amrywiaeth a chydraddoldeb – ar Fyrddau, yn eich proffil staffio a'ch ymwelwyr a chefnogi APCau i fodloni'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a chynyddu'u cyfraniad at daclo tlodi plant a gwledig. | **AC 2.5** |
| Rhannu profiad ac arfer gorau wrth i'r broses o greu Parc Cenedlaethol newydd fynd rhagddo | - |

**EITEM RHIF 10**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 9 Gorffennaf 2025 |
| **TEITL** | **PROFFIL RISG YR AWDURDOD** |
| **ADRODDIAD GAN** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| **PWRPAS** | Rhoi gwybod am y sefyllfa ddiweddaraf parthed Proffil Risg yr Awdurdod |

**CEFNDIR**

1.1 Mae gan yr Awdurdod Broffil Risg ac ynddo mae'r risgiau sy'n wynebu'r Awdurdod wedi'u rhannu yn dri chategori, sef Blaenoriaethau Uchel, Blaenoriaethau Canolig a Blaenoriaethau Isel.

1.2 Caiff y risgiau eu pennu'n bennaf drwy'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol a'r Tîm Rheoli. Mae'r Gofrestr Risg yn cael ei hadolygu fel eitem sefydlog yng nghyfarfodydd y Tîm Rheoli yn chwarterol ar y cyd gyda'r swyddogion perthnasol. Mae'r risgiau sydd wedi'u pennu yn y Gofrestr Risg yn cael eu neilltuo i'r swyddogion cyfrifol sy'n gyfrifol am weithredu mesurau lliniaru risg.

1.3 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad mewn perthynas â'r Proffil Risg dywededig a gyflwynwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 19eg o Fawrth 2025.

1.4 Ar hyn o bryd, mae 19 risg wedi eu hadnabod ar y Proffil. O'r rhain mae 3 wedi cael eu nodi fel risgiau Uchel, mae 14 wedi cael eu nodi fel risgiau canolig ac 2 wedi cael eu nodi yn risg Isel.

1.5 Nid yw'r sgôr wedi cynyddu na gostwng i unrhyw un o'r risgiau ers yr adolygiad diwethaf.

1.6 Dyma grynodeb o'r risgiau:

| Rhif y Risg | Risg Uchel | Newid |
|---|---|---|
| 1 | Diffyg arian cyllido digonol. | Dim |
| 2 | Plas Tan y Bwlch – pwysau ariannol tymor byr ar yr Awdurdod a sicrhau ei ddyfodol tymor hir. | Dim |
| 19 | Risg ariannol ac i enw da ynglŷn â dyfodol Plas Tan y Bwlch | Dim |

| Rhif y Risg | Risg Canolig | Newid |
|---|---|---|
| 5 | Risg (cyhoeddusrwydd) o ganlyniad i'r Cynllun Traffig / Polisi Goriad Gwyrdd Eryri. | Dim |
| 6 | Methu a chyflawni gofynion y ddeddf "Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol". | Dim |
| 7 | Risgiau i'r prosiect CTL Partneriaeth Tirwedd ar gyfer y Carneddau trwy fethu a sicrhau cyllid "heb ei gadarnhau" (un ai cyfraniadau cyfalaf neu "heb fod yn arian") yng nghyfnod oes y prosiect. | Dim |
| 8 | Methu cydymffurfio gyda Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2018. | Dim |
| 9 | Agweddau o risg ariannol sy'n gysylltiedig â phrosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE gan gynnwys diffyg cydymffurfio â rheolau caffael neu wariant ar gostau anghymwys sy'n arwain at beidio â dyfarnu'r grant, neu amrywiad yn y gyfradd gyfnewid Ewro / punt. | Dim |
| 10 | Risg i enw da'r Awdurdod sy'n gysylltiedig â chyflawni'r prosiect LIFE - Coedwigoedd Glaw yn anfoddhaol. | Dim |
| 11 | Yr Awdurdod yn rheoli prosiectau yn wael ac aneffeithiol. | Dim |
| 12 | Cadernid staff yr Awdurdod yn lleihau (oherwydd mwy o ofynion) o ganlyniad i doriadau ariannol. | Dim |
| 13 | Yr Ysgwrn methu cynhyrchu incwm digonol. | Dim |
| 14 | Targed Cynhyrchu Incwm (Canolfannau Croeso). | Dim |
| 15 | Cynhyrchu Incwm (Cynllunio). | Dim |
| 16 | Risg o ymosodiad Seibr | Dim |
| 17 | Y cynnig i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4: Risg o adolygiad barnwrol. | Cynyddu |
| 18 | Y cynnig i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4: Capasiti annigonol i fynd i'r afael â'r cynnydd yn y llwyth Gwaith | Dim |

| Rhif y Risg | Risg Isel | Newid |
|---|---|---|
| 3 | Targed Cynhyrchu Incwm (Meysydd Parcio). | Dim |
| 4 | Risg i enw da parthed Rheolaeth yr Awdurdod o’r Ysgwrn | Dim |

**GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU**
Dim yn codi o’r Adroddiad hwn.

**ARGYMHELLIAD**
**Trafod cynnwys yr adroddiad hwn.**

**PAPURAU CEFNDIR**
Cofrestr Risg: Diweddariad Gorffennaf 2025.

# COFRESTR RISG AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI Gorffennaf 2025

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Gweddill Risg | | | Cyfe-iriad risg | Agos-rwydd (A,C,P) | Perch-ennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Canl yniad | | Effaith | Tebyg | Canly niad | | | |
| 1 | Diffyg arian cyllido craidd digonol. | Torri Gwasanaethau. | 5 | 5 | **25**<br>**Coch** | Cafodd y Gyllideb ar gyfer 2025/26 ei chymeradwyo gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar y 5ed o Chwefror 2025, ac fe'i sefydlwyd ar gynnydd o 5% yn Grant Llywodraeth Cymru, ac fel canlyniad cynnydd o 5% yn yr ardoll ar yr awdurdodau lleol hefyd. Er hyn, mae cynnydd yma yn dilyn sawl blwyddyn o ddim cynnydd, felly nid yw'r grant wedi dal i fyny â chwyddiant dros y cyfnod hwn.<br><br>Ar adeg pennu'r gyllideb, rhagwelir y bydd cyllideb 2025/26 yn cynnwys diffyg o £635,850 bydd rhaid ei ariannu o gronfeydd, a bydd angen i'r Awdurdod barhau i sicrhau fod camau pendant yn cael eu cymryd i gau'r bwlch yma neu bydd balansau cyffredinol yr Awdurdod wedi eu defnyddio i gyd. Felly, er gwaethaf y cynnydd yn Grant y Llywodraeth bydd rhaid parhau i ystyried arbedion a/neu gynyddu incwm ar gyfer y blynyddoedd i ddod. | 4 | 4 | **16**<br>**Coch** | | A<br><br>Adolygwyd Adolygwyd ddiwethaf gan y Pwyllgor P&A 19.03.25 | Prif Swyddog Cyllid |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Risg Cynhenid | Gweddill Risg | | | Cyfe-iriad risg | Agos-rwydd (A,C,P) | Perch-ennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Can-lyniad | | Effaith | Teby g. | Can-lyniad | | | |
| 2 | Plas Tan y Bwlch - pwysau ariannol tymor byr ar yr Awdurdod a sicrhau ei ddyfodol hirdymor. | Methiant i gadw o fewn cyllideb yr Awdurdod.<br>Niwed sylweddol i enw da'r Awdurdod.<br>Effaith andwyol ar yr economi leol.<br>Colli bywoliaeth i staff a gyflogir ym Mhlas Tan y Bwlch.<br>Methiant i gynnal adeilad rhestredig Gradd II*. | 4 | 5 | **20**<br><br>**Coch** | Mae Plas yn parhau i weithredu busnes llawer llai ar adeg ysgrifennu, ond mae wedi llwyddo i ddenu busnes dros dro sydd yn y tymor byr yn dod â ffynhonnell incwm sylweddol i mewn.<br><br>Bu cyfres o drafodaethau ar lefel y Gweithgor a'r Awdurdod a arweiniodd at benderfyniad gan yr Awdurdod ar 30.04.25 yn y termau canlynol sef:<br><br>a) Swyddogion i ddilyn y trywydd o gadw Plas Tan y Bwlch yn amodol ar sicrhau grant Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, gyda'r bwriad o adleoli swyddfeydd o Benrhyndeudraeth i Plas, gan gynnwys cymysgedd ehangach o ddefnyddiau ar gyfer yr eiddo;<br>b) Swyddogion i ddilyn hyn gyda chais am Grant y Loteri Genedlaethol yr Haf hwn;<br>c) Swyddogion i bwysleisio pwysigrwydd rheoli disgwyliadau drwy gydol y broses hon, gan nodi y byddai Plas yn dychwelyd i'r farchnad werthu pe bai'r cais am grant yn methu;<br>d) Pe bai'r dull ariannu grant yn aflwyddiannus, y dylai'r Awdurdod gadw rheolaeth dros y coetiroedd a Llyn Mair, beth bynnag yw'r penderfyniad a wneir ar Blas Tan y Bwlch;<br>e) Swyddogion i barhau i fonitro sefyllfa ariannol yr Awdurdod yn agos drwy gydol y broses hon, gan gynnwys cyflwyno mesurau i leihau'r diffyg cyllidebol presennol yn ystod y flwyddyn ariannol hon; a<br>f) Bod yr Awdurdod yn ystyried y mater hwn ymhellach ac unrhyw gynnydd a wnaed yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Medi.<br><br>Mae'r amserlen wreiddiol a nodir uchod wedi profi i fod yn heriol ac mae'r Aelodau i drafod diweddariad ar gynnydd yn y dyfodol agos. | 4 | 5 | **20**<br><br>**Coch** | | A<br><br>Adolygwyd<br>Adolygwyd ddiwethaf gan y Pwyllgor P&A 19.03.25 | Cyf. Gwas. Corfforae-thol |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Risg Cynhenid | Gweddill Risg | | | Cyfe-iriad risg | Agos-rwydd (A,C,P) | Perch-ennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Effaith** | **Tebyg** | **Can-lyniad** | | **Effaith** | **Teby g.** | **Can-lyniad** | | | |
| 3 | Targed Cynhyrchu Incwm (Meysydd Parcio). | Methu â chadw o fewn cyllideb yr Awdurdod. | 4 | 5 | **20**<br><br>**Coch** | Mae'r targed incwm wedi ei gynyddu yng nghyllideb 2025/26 er mwyn cyllido costau diogelwch system rhag archebu Pen y Pass, costau casglu sbwriel cynyddol uchel a chostau glanhau toiledau.<br><br>Ar sail perfformiad blynyddoedd diweddar dylid gwireddu'r targed newydd os bydd patrwm tymhorau tebyg i rai blaenorol. Gyda chyfnod Pasg i gyd o fewn mis Ebrill eleni rhagorodd incwm Ebrill a Mai 2025 ar yr un cyfnod llynedd. | 4 | 1 | **4**<br><br>**Gwyrdd** | | A<br><br>Adolygwyd ddiwethaf gan y Pwyllgor P&A 19.03.25 | Pennaeth Eiddo |
| 4 | Risg i enw da parthed rheolaeth yr Awdurdod o'r Ysgwrn. | Camreoli yn arwain at ddiffyg hygrededd yng ngallu'r Awdurdod i gyflawni ei ddyletswyddau. | 5 | 2 | **10**<br><br>**Ambr** | Mae'r Ysgwrn wedi ennill enw da iawn fel amgueddfa achrededig a chanolfan ddiwylliannol gyda rhaglen o weithgareddau treftadaeth ddiwylliannol o ansawdd rhagorol. Mae'r statws achrededig yn dangos bod trefniant llywodraethu cadarn ac effeithiol mewn lle. Bydd swyddogion yn cyflwyno cais i adnewyddu'r statws yma erbyn Gorffennaf 2025.<br><br>Mae'r Yr Ysgwrn yn dangos patrwm llwyddiannus o ymgeisio am gyllid allanol i ariannu gweithgareddau a phrosiectau, ac mae swyddogion yn gweithio'n rhagweithiol ar geisiadau hyn, gan chwilio am gyfleoedd nawdd yn rheolaidd.<br><br>Bydd adnodd addysg ffilm Hedd Wyn (prosiect ar y cyd gyda Phrifysgol Bangor) yn cael ei lansio erbyn Medi 2025. Derbyniwyd grant allanol i greu arddangosfa dros dro newydd ar gyfer 2026, yn seiliedig ar gadeiriau barddol Eugene Vanfleteren.<br><br>Credaf fod hanes, profiad a strwythur staff presennol yr Awdurdod yn ein rhoi mewn sefyllfa gref i leihau effaith neu debygolrwydd y risg i enw da yn hyn o beth. | 4 | 1 | **4**<br><br>**Gwyrdd** | | A<br><br>Adolygwyd ddiwethaf gan y Pwyllgor P&A 19.03.25 | Prif Weithredwr |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Risg Cynhenid | | | Cyfeiriad risg | Agosrwydd (A,C,P) | Perchennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Canlynia | | Effaith | Tebyg | Canlynia | | | |
| 5 | Risg (cyhoeddusrwydd) o ganlyniad i'r Cynllun Traffig / Polisi Goriad Gwyrdd Eryri. | Camreoli yn arwain at ddiffyg hygrededd yn yr Awdurdod a'i bartneriaid. | 4 | 2 | **8**<br>**Ambr** | Mae datblygu Cynllun Yr Wyddfa wedi sefydlu perthynas well rhwng yr elfennau unigol sy'n ymwneud â rheolaeth ar Yr Wyddfa, gan gynnwys y gwasanaeth Sherpa.<br><br>Mae is-grŵp i Gynllun yr Wyddfa wedi ei ffurfio i adolygu'r gwasanaeth Sherpa a materion trafnidiaeth / parcio yn yr ardal. Yn ystod 2023 darparwyd gwasanaeth bws Sherpa gwell, a chyflwynwyd rheolaeth traffig priffyrdd (llinellau melyn dwbl) mewn lleoliadau penodol.<br><br>Cytunwyd ar Grŵp Trafnidiaeth Eryri ac mae'n cyfarfod yn aml. Mae cytundeb y Gwasanaeth Sherpa am y 5 mlynedd nesaf wedi ei gytuno. Gall Cyd-bwyllgorau Corfforaethol sydd â chyfrifoldeb penodol am drafnidiaeth ddarparu cyfleoedd pellach. Mae'r Grŵp Trafnidiaeth Eryri yn parhau i gyfarfod i ddatblygu'r materion trafnidiaeth hyn. | 3 | 2 | **6**<br>**Ambr** | | A<br>Adolygwyd ddiwethaf gan y Pwyllgor P&A 19.03.25 | Prif Weithredwr |
| 6 | Methiant o ran cyflawni gofynion Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol. | Adroddiad archwilio beirniadol / cyhoeddusrwydd negyddol. | 3 | 3 | **9**<br>**Ambr** | Mae'r Awdurdod yn parhau i gydweithio ag Archwilio Cymru i weithredu gofynion y Ddeddf Llesiant.<br><br>Mae astudiaeth Archwilio Cymru ar gyfer 2022/23 (incwm masnachol ac arallgyfeirio incwm) wedi'i chyhoeddi ac mae adroddiad atodol ar y 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi'i gynhyrchu. Mae'r Awdurdod yn aros am arweiniad gan LlC cyn gallu symud ymlaen gyda'r argymhellion.<br><br>Mae adroddiad drafft ar Hyrwyddo Mynediad mewn perthynas â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi'i dderbyn yn ddiweddar. Cynhaliwyd cyfarfod ar y 10fed o Fawrth 2025 i drafod ei gynnwys, a disgwylir yr adroddiad terfynol.<br><br>Cynhaliwyd archwiliad ar osod Amcanion Llesiant. Disgwylir yr adroddiad drafft.<br><br>Cwblhawyd cyfweliadau yn ddiweddar ar yr archwiliad perfformiad diweddaraf, sef Sicrwydd ac Asesu Risg, ac mae'r holl dystiolaeth ddogfennol y gofynnwyd amdano wedi'u gyflwyno. Disgwylir adroddiad drafft maes o law. | 3 | 3 | **9**<br>**Ambr** | | C<br>Adolygwyd ddiwethaf gan y Pwyllgor P&A 19.03.25 | Cyf. Gwas. Corfforaethol |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Risg Cynhenid | | | Cyfe-iriad risg | Agos-rwydd (A,C,P) | Perch-ennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Can-lynia | | Effaith | Tebyg | Can-lynia | | | |
| 7 | Risgiau i brosiect Partneriaeth Tirwedd CTL ar y Carneddau trwy fethu a chyflawni'r prosiect. Gall hyn ddigwydd trwy fethu a chadw at y pwrpasau a gymeradwywyd ar gyfer y grant Cronfa Dreftadaeth Lotri Genedlaethol, oediad gyda phenodi staff i'r cynllun ac felly oediad gyda chychwyn y cynllun, oediad gyda thalu hawliadau grant, y bartneriaeth yn chwalu, methu â derbyn yr arian "heb ei sicrhau" a ddisgwylir trwy geisiadau grant pellach a chyfraniadau "mewn nwyddau" yn ystod oes y prosiect. | Bydd y canlyniadau'n amrywio'n helaeth yn dibynnu ar raddfa'r cyllid na ellir ei sicrhau. Gallai fod rhai elfennau o'r prosiect yn methu, hyd at risgiau sylweddol i'r prosiect cyfan, sy'n amlwg yn dod â chyhoeddusrwydd andwyol a niwed i enw da. | 3 | 4 | **12**<br><br>**Ambr** | **Amserlen:** Estyniad digost wedi ei gymeradwyo i'n dyddiad cwblhau ymarferol rhwng 30/09/2024 a 31/12/2025. Estyniad yn cynnwys lwfans ar gyfer gweithgaredd cau prosiect 3 mis (e.e. gweithgaredd etifeddiaeth, cais am daliad terfynol ac adroddiad gwerthuso) gan y Rheolwr Cynllun a'r Swyddog Cymorth Cynllun tan 31/03/2026.<br><br>**Pwrpasau Cymeradwy:** Bydd y prosiect yn dirwyn i ben ym mis Mawrth 2026 ac mae'r gwariant wedi'i raglennu gyda phartneriaid. Cwblhau gwariant erbyn Rhagfyr 2025 a chadarnhau prosiectau gwaddol a dulliau ariannu (ar y cyd â phartneriaid) ydi'r flaenoriaeth ar gyfer blwyddyn olaf y cynllun. | 3 | 2 | **6**<br><br>**Ambr** | | A<br><br>Adolygwyd ddiwethaf gan y Pwyllgor P&A 19.03.25 | Pen. Gwas. Treft. Ddiwyllia-nnol |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Risg Cynhenid | | | Cyfe-iriad risg | Agos-rwydd (A,C,P) | Perch-ennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Can-lynia | | Effaith | Tebyg | Can-lynia | | | |
| 8 | Diffyg cydymffurfio â "Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data 2018" (GDPR). | Diffyg rheoli data a chyhoeddi data na ddylem ei gyhoeddi. | 4 | 3 | **12**<br><br>**Ambr** | <u>Hyfforddiant</u><br>Mae cyrsiau gorfodol newydd wedi'u hychwanegu at ELMS yn ystod y 6 mis diwethaf. Disgwylir i bawb eistedd y rhain mewn modd amserol neu bydd mynediad i'r rhwydwaith a / neu e-bost yn cael ei ddileu.<br><br>Mae'r rhan fwyaf o'r staff bellach yn cwblhau cyrsiau untro a chyrsiau blynyddol yn gyson heb unrhyw drafferthion, ond mae'r nifer sy'n cael eu cwblhau gan yr Aelodau yn parhau i fod yn isel. Mae'r sefyllfa'n cael ei fonitro'n barhaus.<br><br><u>Diogelu Data</u><br>Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cael mwy o fân ddigwyddiadau rhyddhau data nag yn y gorffennol. Felly, mae mwy o debygolrwydd ac effaith risg cyfatebol nag yn y gorffennol, sydd wedi golygu bod y sgôr risg wedi cynyddu. Fodd bynnag, mae'r risg yn parhau i fod ar ambr.<br><br>Mae angen i staff ac Aelodau newydd sicrhau bod y modiwlau hyfforddi yn cael eu cwblhau fel blaenoriaeth. Awgrymir bod y staff sydd wedi bod yn rhan o'r digwyddiadau bychain yn ailsefyll yr hyfforddiant neu'n cymryd rhan mewn hyfforddiant pellach er mwyn lleihau'r risg.<br><br>Hyfforddiant yn parhau a swyddog yn monitro'r sefyllfa. | 4 | 3 | **12**<br><br>**Ambr** | | A<br><br>Adolygwyd ddiwethaf gan y Pwyllgor P&A 19.03.25 | Cyf. Gwas. Corfforae -thol |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Risg Cynhenid | | | Cyfe-iriad risg | Agos-rwydd (A,C,P) | Perch-ennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Can-lynia | | Effaith | Tebyg | Can-lynia | | | |
| 9 | Agweddau o risg ariannol sy'n gysylltiedig â phrosiect LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd gan gynnwys methu â chydymffurfio â rheolau caffael neu wariant ar gostau anghymwys gan arwain at beidio â dyfarnu'r grant, neu amrywiad yn y gyfradd gyfnewid Ewro / bunt. | Mae angen i APCE a phartneriaid eraill hunan ariannu gwariant ar agweddau o'r prosiect hyd yn hyn. | 5 | 4 | **20**<br>**Coch** | Derbyniwyd a chymeradwywyd ail adroddiad canol tymor i'r CE (a hawliad grant cysylltiedig), gan arwain at dynnu i lawr y 3ydd taliad LIFE gan y CE ym mis Rhagfyr 2022. Mae cais am estyniad prosiect 2 flynedd wedi'i gymeradwyo'n swyddogol gan y Comisiwn Ewropeaidd, gan roi dyddiad gorffen prosiect newydd o 31ain o Orffennaf 2027. Ni fydd hyn yn effeithio ar gost gyffredinol y prosiect.<br><br>Mae adborth swyddogol gan y Comisiwn hyd yn hyn yn gadarnhaol, gyda dim ond mân bryderon a diwygiadau sydd angen sylw. Ymgymerwyd â'r Genhadaeth Fonitro ddiweddaraf ym mis Tachwedd 2024, gydag adroddiad cynnydd i'w gyflwyno ddiwedd mis Mawrth 2025.<br><br>Pob taliad cyd-ariannwr arall yn gyfredol, gan gynnwys y cyfraniad o £2m gan Lywodraeth Cymru. Mae'r arian sydd dros ben yn y prosiect hyd yn hyn oherwydd cyfradd gyfnewid ffafriol (o'i gymharu â'r hyn a ddefnyddiwyd yn y cais), yn golygu bod yn rhaid i'r prosiect wario mwy mewn £ i gyrraedd targed €. Mae hefyd yn golygu bod cyfraniadau partneriaid yn werth llai na'r disgwyl, sy'n gofyn am fwy o arian cyfatebol i hawlio'r €9.5m llawn. | 4 | 3 | **12**<br>**Ambr** |  | A<br>Adolygwyd ddiwethaf gan y Pwyllgor P&A 19.03.25 | Pennaeth CC&A |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Risg Cynhenid | | | Cyfe-iriad risg | Agos-rwydd (A,C,P) | Perch-ennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Can-lynia | | Effaith | Tebyg | Can-lynia | | | |
| 10 | Risg i enw da'r Awdurdod yn gysylltiedig â chyflawni'r prosiect LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd yn anfoddhaol. | Bod yr Awdurdod yn dioddef niwed difrifol i'w enw da ymhlith y sefydliadau hynny sy'n bartneriaid a enwir yn y prosiect, partneriaid prosiect eraill gan gynnwys perchnogion tir preifat, contractwyr a sefydliadau eraill, a'r cyhoedd ehangach. | 4 | 3 | **12**<br>**Ambr** | Mae'r cynllun wedi profi rhai problemau cadw staff, nad yw'n anghyffredin ar unrhyw brosiect sy'n cael ei ariannu gan grant ac sydd â chyfyngiad amser. Mae'r tebygolrwydd o golledion staff pellach yn cynyddu' dros y 2 flynedd nesaf wrth i gontractau ddod i ben, gan greu risg i'r prosiect ar adeg dyngedfennol wrth i'r prosiect ddod i ben (a'r holl adrodd ac archwilio cysylltiedig yn digwydd).<br><br>Y tarfu a achoswyd gan drosiant staff (colli momentwm, peidio â gweithredu hyd eithaf ei allu am gyfnodau sylweddol), ochr yn ochr ag effeithiau pandemig Covid-19, oedd y prif yrrwr y tu ôl i ofyn am estyniad o 2 flynedd.<br><br>Archwiliad interim wedi'i gwblhau yn hydref 2023 a 2024 gan Gyngor Gwynedd, gyda'r prosiect yn sgorio 6 ar y matrics risg (allan o 25 posib) Mân addasiadau / diwygiadau angen, ond dim byd arwyddocaol, gyda chynllun gweithredu mewn lle ar gyfer hyn.<br><br>Mae'n bosibl y bydd staff eraill o'r adran yn gallu camu i mewn ar sail tymor byr, ac mae trafodaethau wedi'u cynnal gyda sefydliadau allanol ynghylch cymorth rheoli prosiect strategol posibl – er nad yw hyn wedi'i gadarnhau a'i ddatrys yn llawn eto. Mae'r mater hwn yn parhau i fod yn bryder. | 4 | 3 | **12**<br>**Ambr** | | C<br>Adolygwyd ddiwethaf gan y Pwyllgor P&A 19.03.25 | Cyf. Rheoli Tir |
| 11 | Rheoli gwael ac aneffeithiol o brosiectau gan yr Awdurdod. | Risg o beidio â chyflawni prosiectau ac amcanion yr Awdurdod. Risg i enw da'r Awdurdod. Cyfleoedd ariannol yn cael eu colli. | 3 | 3 | **9**<br>**Ambr** | Mae swyddogion yn dilyn canllawiau safonol a fabwysiadwyd ar gyfer rheoli prosiectau - gan gynnwys creu "Dogfen Ysgogi Prosiect" a chael cymeradwyaeth y tîm rheoli ar gyfer y ddogfen hon. Mae hyn yn creu sail ar gyfer rheoli ac ar gyfer cyfathrebu (mewnol ac allanol) ar brosiectau yn gyson ar draws yr Awdurdod.<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i baratoi cefnogaeth fwy canolog i brosiectau i sicrhau bod cysondeb a chydymffurfiaeth yn cael eu rheoli. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ymagwedd aml-flwyddyn at brosiectau/rhaglenni. Ym mis Mawrth 2022, ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau y protocolau ar ddatblygu a derbyn cynigion grant. | 2 | 4 | **8**<br>**Ambr** | | A<br>Adolygwyd ddiwethaf gan y Pwyllgor P&A 19.03.25 | Prif Weithredwr |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Risg Cynhenid | | | Cyfe-iriad risg | Agos-rwydd (A,C,P) | Perch-ennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Effaith** | **Tebyg** | **Can-lynia** | | **Effaith** | **Tebyg** | **Can-lynia** | | | |
| 12 | Gwytnwch staff yr Awdurdod yn lleihau (oherwydd mwy o ofynion) o ganlyniad i gyllidebau fflat ac effaith chwyddiant. | Effaith ar gadw staff a recriwtio a hefyd perfformiad yr Awdurdod. | 3 | 3 | **9**<br>**Ambr** | I liniaru'r risg o leihad mewn gwytnwch staff, mae nifer o ddatblygiadau cadarnhaol wedi'u gweithredu:<br>• **Gweithio Hynod Hyblyg:** Yn dilyn treial llwyddiannus a sylwadau cadarnhaol gan staff, mae'r drefn Hynod Hyblyg bellach wedi'i fabwysiadu'n barhaol. Adroddwyd ychydig iawn o faterion gweithredol yn ystod y treial, ac mae'r newid wedi'i groesawu'n eang ar draws yr Awdurdod.<br>• **Ymgysylltu â Staff:** Cadarnhaodd arolwg diweddar ar weithio hybrid lefelau uchel o foddhad, gan atgyfnerthu ymrwymiad yr Awdurdod i drefniadau gweithio hyblyg sy'n cefnogi cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.<br>• **Mentrau Llesiant:** Mae Hyrwyddwr Llesiant mewn lle i arwain ymdrechion i hyrwyddo lles staff. Ymhlith y gweithgareddau diweddar mae:<br>  • Fideos ymarferion ymestyn wrth y ddesg a sut i wella cwsg<br>  • Sesiynau myfyrdod grŵp<br>  • Sesiynau Pilates yn y swyddfa<br><br>Nod y mesurau hyn yw cynnal a gwella llesiant, morâl a chynhyrchiant staff yng nghyd-destun y pwysau allanol parhaus. | 3 | 3 | **9**<br>**Ambr** | | A<br><br>Adolygwyd ddiwethaf gan y Pwyllgor P&A 19.03.25 | Pennaeth AD |
| 13 | Yr Ysgwrn yn methu cynhyrchu incwm digonol i gyflawni'r gyllideb. | Yr Ysgwrn yn dibynnu ar fudd- dal uwch gan yr Awdurdod a/neu yn defnyddio arian wrth gefn sydd wedi'i gynilo yn dilyn blynyddoedd blaenorol llewyrchus. Yn y pendraw, bydd hyn yn golygu nad ydi'r Ysgwrn yn gynaliadwy. | 4 | 4 | **16**<br>**Coch** | Mae cynnal Yr Ysgwrn o fewn y gyllideb yn her barhaus yng ngoleuni'r argyfwng costau byw sy'n amharu ar wariant ymwelwyr a chostau rhedeg cynyddol.<br><br>Mae costau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o gostau, megis gwres, ffôn a thrydan yn sefydlog ac yn angenrheidiol ar gyfer safonau achredu.<br><br>Mae'r Ysgwrn yn llwyddo yn rheolaidd i sicrhau cyllid ar gyfer costau gweithgaredd a dehongli. Mae grantiau wedi'u derbyn i ymgysylltu gydag Ysgol Bro Hedd Wyn yn 2025 ac i gynnal arddangosfa dros dro newydd ar gyfer 2026. | 3 | 3 | **9**<br>**Ambr** | | A<br><br>Adolygwyd ddiwethaf gan y Pwyllgor P&A 19.03.25 | Pen. Gwas. Treft. Ddiwyllia-nnol |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Risg Cynhenid | | | Cyfe-iriad risg | Agos-rwydd (A,C,P) | Perch-ennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Can-lynia | | Effaith | Tebyg | Can-lynia | | | |
| 14 | Targed Cynhyrchu Incwm (Canolfannau Gwybodaeth). | Y Canolfannau Gwybodaeth yn methu cynhyrchu incwm digonol i gyflawni'r gyllideb.<br><br>Y Canolfannau Gwybodaeth yn methu â chyrraedd nodau cynhyrchu incwm oherwydd prinder staff sy'n arwain at gau. | 4 | 4 | **16**<br><br>**Coch** | Cwblhawydd blwyddyn ariannol 2024/25 o fewn y gyllideb. Llwyddwyd i benodi staff newydd ar gyfer tymor 2025/26 yng Nghanolfannau Aberdyfi, Beddgelert a Hwb Pen y Pass.<br><br>Mae incwm y tair Canolfan yn gryf ac mae'r Rheolwr Masnachol yn cadw llygad cyson ar gostau. Mae gwerthiannau yn Hwb Pen y Pass yn galonogol iawn a hyderwn mai gwella fydd y sefyllfa yno yn dilyn penodi staff i gynnal rota llawn.<br><br>Mae prosiect ar y gweill i ddatblygu safle yr Hen Stablau a Chanolfan Groeso Betws y Coed, gyda'r nod o leihau costau rhedeg ac uchafu incwm. Penodwyd penseiri Donald Insall Associates i arwain y gwaith. Bwriedir cyflwyno cais cynllunio erbyn dechrau 2026. | 4 | 2 | **8**<br><br>**Ambr** | → | A<br><br>Adolygwyd ddiwethaf gan y Pwyllgor P&A 19.03.25 | Pen. Gwas. Treft. Ddiwyllia - nnol |
| 15 | Cynhyrchu Incwm (Cynllunio). | Y brif risg fyddai incwm annigonol ar gyfer rhedeg y gwasanaeth cynllunio yn effeithiol. | 3 | 3 | **9**<br><br>**Ambr** | Ar gyfer 2023-24 roedd cyllideb incwm ffioedd cynllunio (ffioedd cynllunio a chyngor cyn cais) yn cyd-fynd yn fras â'r gyllideb a osodwyd. Mae hyn yn codi tua 28% o gostau'r gwasanaeth Rheolaeth Datblygu.<br><br>Bu ymgynghoriad yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru ar adennill costau llawn ar ffioedd cynllunio – a fyddai'n cael ei groesawu gan y Gwasanaeth Cynllunio. Ymatebodd yr Awdurdod i gefnogi'r ddogfen ymgynghori hon ond nid oes unrhyw gynigion wedi'u cyflwyno eto gan Lywodraeth Cymru. | 3 | 3 | **9**<br><br>**Ambr** | → | A<br><br>Adolygwyd ddiwethaf gan y Pwyllgor P&A 19.03.25 | Cyf. Cynllunio & Partneria ethau |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Risg Cynhenid | | | Cyfe-iriad risg | Agos-rwydd (A,C,P) | Perch-ennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Can-lynia | | Effaith | Tebyg | Can-lyniad | | | |
| 16 | Risg o gael ymosodiad Seibr | Colli data a mynediad i'r rhwydwaith | 4 | 3 | **12**<br><br>**Ambr** | Mae risgiau seiberddiogelwch yn cael eu monitro'n gyson gyda mesurau lliniaru risg cyfatebol yn cael eu gweithredu yn ôl yr angen gan y gwasanaeth TG.<br><br>Pennaeth TG wedi mynychu gweminarau oedd yn cael eu cynnal gan Yr Is-adran Cadernid a Diogelwch Gwladol, Llywodraeth Cymru. Amlinellodd y gweminarau camau pellach sydd angen eu datblygu i sicrhau ein bod yn fwy parod i fygythiad. Mi fydd yr adran yn datblygu rhaglen waith ar gyfer hyn maes o law.<br><br>Hyfforddiant wedi ei drefnu ar y cyd gyda'r 2 barc Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae 3 sesiwn ar gael i aelodau a staff fynychu.<br><br>Gwaith wedi ei gwblhau ar gryfhau gosodiadau diogelwch yr Awdurdod ac mi fydd hyn yn parhau. | 3 | 2 | **6**<br><br>**Ambr** | | A<br><br>Adolygwyd ddiwethaf gan y Pwyllgor P&A 19.03.25 | Pennaeth TG |
| 17 | Y cynnig i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 i reoli'r defnydd o gartrefi gwyliau ac 2il gartrefi (a drefnwyd ar gyfer Mehefin 2025): Risg o adolygiad barnwrol. | Gallai Adolygiad Barnwrol wedi'i gadarnhau cael yr effeithiau canlynol:<br>A) Gall effeithio ar allu'r Awdurdod i ddilyn y polisi.<br>B) Gall oedi gweithrediad y polisi.<br>C) Gall fod goblygiadau cost, yn enwedig os yw'r hawlydd yn ceisio dyfarniad costau cyfreithiol os yw'n llwyddo yn yr her. | 4 | 2 | **8**<br><br>**Ambr** | O ran risg yr Adolygiad Barnwrol, cymerir y camau lliniaru canlynol:<br><br>1) Cymerir cyngor cyfreithiol drwy gydol y broses a chyn cyhoeddi unrhyw ddogfen; a<br>2) Mae cydweithio agos gyda Chyngor Gwynedd sydd yn cymryd camau tebyg.<br><br>Rydym wedi cael ein hysbysu yn ddiweddar bod Cyngor Gwynedd wedi derbyn cais llwyddiannus gan 3ydd parti i ddilyn proses Adolygiad Barnwrol. Er nad yw'r broses lawn o fynd ar drywydd hyn yn y llysoedd wedi dechrau eto, byddwn yn asesu'n ofalus natur y cais i adolygu eu proses yn farnwrol i ganfod a oes gan hyn unrhyw oblygiadau i'r Awdurdod hwn. | 3 | 3 | **9**<br><br>**Ambr** | | A<br><br>Adolygwyd ddiwethaf gan y Pwyllgor P&A 19.03.25 | Cyf. Cynllunio & Partneriaethau |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Risg Cynhenid | | | Cyfe-iriad risg | Agos-rwydd (A,C,P) | Perch-ennog |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Can-lynia | | Effaith | Tebyg | Can-lyniad | | | |
| 18 | Y cynnig i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 i reoli'r defnydd o gartrefi gwyliau ac 2il gartrefi (a drefnwyd ar gyfer Mehefin 2025): Capasiti annigonol i fynd i'r afael â'r cynnydd yn y llwyth gwaith - sy'n effeithio ar Bolisi Cynllunio, Rheolaeth Datblygu ac yn arbennig llwythi gwaith Cydymffurfio. | Mae'r capasiti annigonol yn achosi'r problemau canlynol:<br>i) Gall targedau perfformiad cynllunio Llywodraeth Cymru gael eu methu; ac<br>ii) Gall materion iechyd a lles staff godi oherwydd llwythi gwaith gormodol. | 3 | 3 | **9**<br>**Ambr** | O ran y risg o fynd y tu hwnt i gapasiti, cymerir y camau canlynol:<br>1) Bydd yr Awdurdod yn ceisio cymorth ariannol gan Gyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru - gyda golwg ar sicrhau cefnogaeth swyddogion ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi arwain at unrhyw lwyddiant hyd yma; a<br>2) Bydd cydweithio gyda Chyngor Gwynedd ar y gwersi a ddysgwyd hefyd yn digwydd – mae swyddogion Gwynedd wedi bod yn barod iawn i roi cyngor hyd yma.<br><br>Bydd hyfforddiant a chyngor yn cael eu darparu i Swyddogion Cynllunio cyn gweithredu'r cynllun ym mis Mehefin 2025, a fydd yn cynnwys sicrhau bod Canllawiau Cynllunio Atodol cadarn i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau. | 3 | 3 | **9**<br>**Ambr** |  | A<br>Adolygwyd ddiwethaf gan y Pwyllgor P&A 19.03.25 | Cyf. Cynllunio & Partneriaethau |
| 19 | Risg ariannol ac i enw da ynglŷn â dyfodol Plas Tan y Bwlch | Gallai dyfodol Plas Tan y Bwlch (boed hynny ar gyfer gwerthu neu gadw) greu risg ariannol sylweddol uwch a niwed i enw da. | 5 | 4 | **20**<br>**Coch** | Mae'r sefyllfa gymhleth a deinamig hon yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd gan y Prif Weithredwr. Cymerir gofal mawr i sicrhau y caiff yr effeithiau ariannol eu lliniaru cyn belled ag y bo modd, er na ellir dileu'r risgiau hyn. Mae'r Awdurdod yn:<br>- Ceisio lleihau costau gwresogi yn y Plas<br>- Asesu a ellir lleihau trethi busnes<br>- Ceisio dod ag incwm ychwanegol i'r Plas trwy rentu ystafelloedd<br><br>Mae amryw o risgiau i enw da yn deillio o gadw a gwerthu'r Plas. Mae swyddogion yn ystyried bod cadw'r Plas ac archwilio i mewn i brosiect a'i hariennir gan y Loteri i adleoli swyddfeydd yr APC yn cario llai o risg i enw da na gwerthu'r Plas heb archwilio'r opsiwn hwn. | 5 | 3 | **15**<br>**Coch** |  | C<br>Adolygwyd ddiwethaf gan y Pwyllgor P&A 19.03.25 | Prif Weithredwr |

| Sgorio'r Risg | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Tebygolrwydd | Isel Iawn = 1 | Isel = 2 | Canolig = 3 | Uchel = 4 | Uchel Iawn = 5 |
| Effaith | Isel Iawn = 1 | Isel = 2 | Canolig = 3 | Uchel = 4 | Uchel Iawn = 5 |

| Sgôr Cyfunol | Risg Cyffredinol | |
|---|---|---|
| 1 – 4 | Isel | Gwyrdd |
| 6 – 14 | Canolig | Ambr |
| 15 – 25 | Uchel | Coch |

**EITEM RHIF 11**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 9 Gorffennaf 2025 |
| **TEITL** | **Adroddiad Monitro Cwynion** |
| **ADRODDIAD GAN** | Pennaeth Gweinyddiaeth a Gofal Cwsmer |
| **PWRPAS** | I adrodd ar y cwynion ysgrifenedig a dderbyniwyd gan yr Awdurdod |

## 1.0. CEFNDIR

1.1. Mae pob cwyn ffurfiol yn cael ei chofrestru a'i monitro'n ganolog, fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i sicrhau gofal cwsmeriaid rhagorol yn ein darpariaeth gwasanaeth. Derbyniodd yr Awdurdod 16 o gwynion ffurfiol yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Awdurdod yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25.

1.2. O'r 16 cwyn a dderbyniwyd, roedd 10 yn ymwneud â'r gwasanaeth cynllunio, derbyniwyd 2 gŵyn am Blas Tan y Bwlch, 1 gŵyn ynghylch y gwasanaeth eiddo, 1 ynghylch y gwasanaeth coedwigoedd, 1 gŵyn ynghylch defnyddio'r enw Eryri, ac 1 gŵyn ynghylch cyngor i gerddwyr ar ein gwefan.

1.3. Ymchwiliwyd yn drylwyr i bob cwyn, a derbyniwyd ymateb i bob un o fewn y targed o 15 diwrnod gwaith. O'r cwynion a ymchwiliwyd iddynt, cadarnhawyd neu fe rhannol-gadarnhawyd 8. Ni chyfeiriwyd unrhyw gwynion at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i'w hymchwilio.

1.5. Lle mae safon gwasanaeth yr Awdurdod wedi methu, rydym wedi ymddiheuro'n briodol ac wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r problemau ar unwaith.

1.6. O'r cwynion ffurfiol ynghylch y gwasanaeth cynllunio, roedd 3 yn ymwneud â thorri'r Ddeddf Diogelu Data. Er i bob ymchwiliad ddod i'r casgliad nad oedd unrhyw dor-rheolaeth o'r ddeddf diogelu data wedi digwydd, ni chafodd enwau a/neu gyfeiriadau e-bost eu trin yn gywir. Mae hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd polisi'r Awdurdod o hyfforddiant ar-lein blynyddol gorfodol i staff ynghylch Diogelu Data. Yn dilyn y cwynion hyn a materion eraill sydd wedi codi yn ystod y flwyddyn, mae mesurau eraill yn cael eu datblygu ar hyn o bryd i gynorthwyo staff cynllunio ymhellach i drin data personol yn gywir.

## 2.0. ARGYMHELLIAD

**2.1. Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad**

**ATODIAD 1**

**Crynodeb o Gwynion a Gadarnhawyd neu a Gadarnhawyd yn Rhannol**

PLAS TAN Y BWLCH

| |
|---|
| **2 x Cwynion am aros ym Mhlas Tan y Bwlch (Mehefin 2024)**<br><br>Derbyniwyd dwy gŵyn ar wahân ynghylch arosiadau gwely a brecwast ym Mhlas Tan y Bwlch. Roedd y cwynion yn ymwneud â diffyg cyfleusterau a chyflwr yr ystafelloedd.<br><br>Cafodd y ddau achwynydd ymddiheuriadau ac ad-daliad rhannol am eu harhosiad. |

EIDDO

| |
|---|
| **Diffyg Cynnal a Chadw ar Lwybr Mawddach yn arwain at lifogydd ar dir amaethyddol (Medi 2024)**<br><br>Roedd y gŵyn yn ymwneud â chwlfer wedi'i blocio / wedi methu a oedd wedi arwain at lifogydd ar dir yr achwynydd. Ni lwyddodd cyfarfod cychwynnol a chamau y cytunwyd arnynt i ddatrys y broblem, a arweiniodd at anghytundeb ynghylch yr achos ac felly'r camau unioni oedd eu hangen i ddatrys y sefyllfa. Bu oedi oherwydd bod angen i gontractwr arbenigol arolygu'r safle. Yn y cyfamser, gwnaeth yr achwynydd waith diawdurdod i geisio datrys y sefyllfa ei hun, a arweiniodd at orfod i Bennaeth Eiddo ofyn am gyngor cyfreithiol ar y sefyllfa. Arweiniodd hyn at oedi pellach.<br><br>Canfu'r ymchwiliad i'r gŵyn fod diffyg cyfathrebu ar y ddwy ochr, ac roedd hyn wedi bod yn mynd ymlaen ers 18 mis. Ymddiheurwyd i'r achwynydd am y diffyg ymateb amserol i ohebiaeth ac am y diffyg gweithredu amserol wrth sicrhau caniatâd perthnasol a chontractwyr i ddatrys y sefyllfa gan y Pennaeth Eiddo. Rhoddwyd cynllun gweithredu ar waith i ddatrys y sefyllfa cyn gynted â phosibl. |

CYNLLUNIO

| |
|---|
| **3 x Cwynion ynghylch torri Deddf Diogelu Data (Gorffennaf ac Awst 2024)**<br><br>Roedd y gŵyn gyntaf yn ymwneud â chyhoeddi gohebiaeth ar wefan yr Awdurdod a oedd yn cynnwys enw a chyfeiriad e-bost gwrthwynebydd i gais cynllunio. Roedd yr ail gŵyn (gan 2 berson ar wahân) yn ymwneud ag e-bost grŵp a anfonwyd at wrthwynebwyr i gais cynllunio yn eu hysbysu am ymgynghoriad newydd ar y cais. Ni chafodd y derbynwyr eu hychwanegu fel copi dall i'r e-bost gan wneud eu cyfeiriadau e-bost yn weladwy i bob derbynnydd arall.<br><br>Daeth y ddau ymchwiliad a gynhaliwyd gan y Swyddog Diogelu Data i'r casgliad nad oedd unrhyw dorri diogelwch data wedi digwydd, gan fod manylion gwrthwynebwyr yn gyhoeddus o fewn y broses gynllunio ac ar gael i'w gweld yn y swyddfa. Fodd bynnag, yn y gŵyn gyntaf, ni ddylai'r ohebiaeth fod wedi cael ei chyhoeddi ar wefan yr Awdurdod (cafodd ei thynnu i lawr ar unwaith); ac o ran yr ail gŵyn, ni ddylai negeseuon e-bost |

grŵp gael eu hanfon yn y fath fodd. Derbyniodd pob un o'r 3 achwynydd ymddiheuriad am ein methiannau yn hyn o beth.

**Cwyn ynghylch trin a phrosesu cais cynllunio nad oedd wedi derbyn penderfyniad ar ôl 14 mis (Awst 2024)**

Derbyniwyd cwyn gan asiant cynllunio a oedd wedi cyflwyno cais cynllunio gan ddeiliad tŷ ym mis Mai 2023. Gan fod y cais hwn o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Afon Ddyfrdwy, roedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cadarnhau bod angen i'r Awdurdod ystyried a oedd y datblygiad yn debygol o gael effaith sylweddol ar yr ACA o ran ychwanegu ffosffad at yr afon.

Mae hwn yn faes arbenigol iawn nad oedd wedi'i gwmpasu gan Ecolegydd yr Awdurdod, ac sydd â nifer fach iawn o ymgynghorwyr allanol ar gael i ymgymryd â'r gwaith. Ni wnaeth y cwmni a gomisiynwyd i wneud y gwaith ddarparu adroddiad cyflawn mewn modd amserol a cheisiodd Swyddog Cynllunio gael eglurder ar y sefyllfa, sawl gwaith. Roedd yr adroddiad pan y’i derbyniwyd yn annigonol, a arweiniodd at oedi pellach wrth brosesu'r cais.

Agwedd ychwanegol i’r gŵyn gan yr asiant cynllunio oedd yr anhawster a gafodd wrth geisio cysylltu â'r Swyddog Cynllunio dros y ffôn i drafod y mater yn ystod yr adeg hon.

Ymddiheurwyd yn llawn i'r achwynydd. Er mwyn mynd i'r afael â'r anawsterau o gael barn arbenigol yn y maes hwn ac osgoi problemau yn y dyfodol, mae Ecolegydd yr Awdurdod wedi ymgymryd â hyfforddiant ers hynny i'w galluogi i gyflawni'r gwaith hwn fel rhan o'i rôl.

**Cwyn ynghylch yr oedi wrth brosesu cais cynllunio newid defnydd nad oedd wedi derbyn penderfyniad ar ôl 4 mis (Rhagfyr 2024)**

Roedd yr oedi wrth brosesu'r cais hwn wedi digwydd oherwydd bod y Swyddog Cynllunio wedi mynd yn sâl cyn y gellid penderfynu ar y cais. Oherwydd problemau capasiti o fewn y gwasanaeth cynllunio, defnyddiwyd ymgynghorwyr allanol i ddelio â cheisiadau'r Swyddog. Fodd bynnag, oherwydd mai dim ond yn rhan-amser (2 ddiwrnod yr wythnos) yr oedd yr ymgynghorydd yn gweithio i'r Awdurdod, roedd yr ôl-groniad o achosion wedi cymryd peth amser i'w prosesu.

Rhoddwyd ymddiheuriad llawn i'r achwynwyr.

**EITEM RHIF 12**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau** |
| **DYDDIAD** | **9fed o Orffennaf 2025** |
| **TEITL** | **ADRODDIAD ALLDRO REFENIW A CHYFALAF 2024/25** |
| **ADRODDIAD GAN** | **Prif Swyddog Cyllid** |
| **PWRPAS** | **i. Cymeradwyo'r trosglwyddiadau cyllideb, trosglwyddiadau arian, a'r arian a gariwyd ymlaen o'r cyllidebau refeniw a chyfalaf yn unol â'r hyn a amlinellwyd yn yr adroddiad.**<br>**ii. Cymeradwyo'r Datganiad Ariannu Cyfalaf.**<br>**iii. Rhoi ystyriaeth i'r perfformiad adrannol gyda golwg ar reolaeth gyllidebol.**<br>**iv. Cymeradwyo'r newidiadau a argymhellir i'r cronfeydd wrth gefn.** |

## 1. CYD-DESTUN

1.1 Mae sefyllfa ariannol derfynol y gwasanaethau am 2024/25 yn cadarnhau fod yr Awdurdod wedi llwyddo i gadw o fewn y cyfyngiadau ariannol. Roedd pryder pan yn gosod y gyllideb, ac yn ystod y flwyddyn byddai'r Awdurdod yn wynebu diffyg yn y gyllideb, ond gyda chymorth grant ddaeth i law gan Lywodraeth Cymru yn hwyr yn y flwyddyn, llwyddodd yr Awdurdod i osgoi'r canlyniad yma.

1.2 Mae'r Awdurdod yn anelu i gwblhau ac awdurdodi'r datganiad cyfrifon cyn gynted â phosib ond oherwydd oedi yn archwilio ac ardystio cyfrifon 2023/24, mae Archwilio Cymru wedi nodi na fydd yr adnoddau ganddynt i gychwyn archwiliad 2024/25 tan wedi diwedd y flwyddyn galendr. Gofynnir i'r Awdurdod gymeradwyo sefyllfa ariannol derfynol 2024/25 (a throsglwyddiadau ariannol perthnasol), fel rhan o'r drefn cynhyrchu'r datganiadau ariannol statudol (sydd i'w hardystio gan y Prif Swyddog Cyllid, a'u cymeradwyo gan yr Awdurdod).

**1.3** Dylid nodi y gall rhai ffigyrau yn yr adroddiad hwn gael eu haddasu yn ystod y drefn o gau'r cyfrifon a bod yr holl ffigyrau yn ddarostyngedig i archwiliad. Nid oes terfyn amser penodol wedi ei osod ond bydd yr Awdurdod yn anelu i lunio cyfrifon drafft erbyn Awst 31. Adroddir ymhellach i'r Awdurdod ar unrhyw addasiadau sylweddol a wneir yn y datganiad o gyfrifon ac yn dilyn cwblhau'r archwiliad arnynt.

## 2 GRANTIAU A DDERBYNIWYD YN 2024/25

2.1 Ym mis Rhagfyr 2024, cafodd yr Awdurdod gadarnhad gan Lywodraeth Cymru y byddai cynnydd o £82k yng ngrant Craidd yr Awdurdod

2.2 Ym mis Mawrth 2025, derbyniwyd cadarnhad gan Lywodraeth Cymru o ddarpariaeth cymorth grant ychwanegol i'r Awdurdod am gyfanswm o £1.1 miliwn, yn ogystal a grant cyfalaf gwerth £300,000, er mwyn cau y diffyg ariannol.

2.3 Yn ogystal â'r grantiau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru bu'r trydydd hawliad am arian T.C.Ll.C 2022/23 - 2024/25 yn llwyddiannus, a hynny am gyfanswm o £850,000. Mae'r arian yma yn cynnwys elfennau cyfalaf yn o gystal â refeniw ar ffurf gyfradd o arian ar gyfer gweinyddu'r grantiau a chyfraniad tuag at amser staff i gyflawni'r gwaith.

2.4 Bu cynllyn tair mlynedd a gytunwyd ar y cyd rhwng Parciau Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru yn parhau. Mae'r cynllun werth £200,000 i'r Awdurdod gyda hawliad llwyddiannus unwaith eto yn ystod 2024/25 er mwyn ariannu Swyddog Adfer Natur a Dal a Storio Carbon o fewn yr Awdurdod. Daeth y cynllyn i ben ym mis Mawrth 2025.

2.5 Roedd y prosiect Llefydd Lleol i Natur 2023-25 yn parhau yn ystod 2024/25, a derbyniwyd oddeutu £428k yn ystod y flwyddyn. Prif bwrpas y prosiect hwn yw i gynyddu mynediad i natur ar draws Eryri.

2.6 Derbyniwyd grant gwerth oddeutu £160k gan y Grid Cenedlaethol yn ystod y flwyddyn mewn perthynas a prosiect walio. Mae'r gwaith yn ymwneud ag adfer waliau traddodiadol a bydd y prosiect sydd werth £300k yn ei gyfanrwydd yn parahau 3 mlynedd yn gyfan gwbl.

## 3. AMLINELLIAD O SEFYLLFA DERFYNOL Y CYFRIFON

3.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno cymhariaeth, ar lefel maes gwasanaeth, rhwng y cynlluniau gwariant refeniw a chyfalaf yr oedd yr Awdurdod wedi cyllidebu ar eu cyfer, a'r gwariant terfynol gwirioneddol ar gyfer 2024/25.

3.2 Cyfanswm gwariant net y flwyddyn oedd £5,048,735 sef £2,862,542 o dan y gyllideb net ddiwygiedig o £7,911,275. Mae hyn yn adlewyrchiad o incwm grant ychwanegol dderbyniwyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gwerth £1,100,000 ynghŷd ac incwm ychwanegol prosiectau megis Llefydd Lleol i Natur, prosiect Ymylon Eryri, a hefyd incwm llog, a Meysydd Parcio sydd wedi rhagori ar y gyllideb unwaith eto eleni. Mae atodiad 3 yn nodi y trosglwyddiadau angenrheidiol i ac o'r cronfeydd yn seiliedig ar y sefyllfa alldro presennol. Cyfanswm y gwariant cyfalaf gros ar gyfer y flwyddyn oedd £2,519,130 i'w gymharu a £2,110,439 ar gyfer y flwyddyn flaenorol (Atodiad 5). Mae'r gwariant yma yn adlewyrchu llwyddiant swyddogion i weithredu ar brosiectau megis Tiroedd Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy (T.C.LL.C), Cynllun treftadaeth Dolgellau, uwchraddio systemau meddalwedd ac amryw o waith cyfalaf eraill.

3.3 Roedd £2,862,542 o arian yn weddill cyn trosglwyddiadau i gronfeydd penodol wrth gefn, a llithriadau ac ymrwymiadau. Awgrymir neilltuo unrhyw arian sydd dros ben ar gyfer cyfarch yr her ariannol dros y blynyddoedd sydd i ddod. Mae balans o £401,071

ar gael i'w ailddyranu o ganlyniad tanwariant ar rai llinellau yn y gyllideb, yn ogystal ag effaith grant ychwanegol gan Llywodraeth Cymru.

## 4. CRYNODEB REFENIW TERFYNOL 2024/25

### 4.1 Cyllideb Net ar gyfer 2024/25

Mae'r awdurdod eisoes wedi ei hysbysu o'r cynnydd yn y gyllideb refeniw sylfaenol net.

Yn Atodiad 1, ceir manylion pellach ynghylch y trosglwyddiadau adroddwyd amdanynt i'r Awdurdod ym Mawrth a'r rhai sydd wedi'u gweithredu ers hynny.

### 4.2 Trosglwyddiadau o ac i Gronfeydd Wrth Gefn a Chostau penodol Eraill

Mae balans o £2,862,542 cyn trosglwyddiadau o ac i'r cronfeydd wrth gefn. Dangosir crynodeb o'r dadansoddiad o'r trosglwyddiadau yn y tabl isod, ynghyd â chostau penodol eraill, gyda'r manylion yn Atodiad 3.

| | (£) | (£) | (£) |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm balansau ar gael ar gyfer 2024/25** | | | 2,862,542 |
| **Trosglwyddiadau o Gronfeydd Wrth Gefn** | | | |
| Cynllunio a Rheolaeth Tir | 696,424 | | |
| Corfforaethol | 83,643 | 780,067 | |
| **Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn** | | | |
| Cynllunio a Rheolaeth Tir | 985,132 | | |
| Corfforaethol | 2,086,246 | -3,071,378 | -2,291,311 |
| **Llithriant a Chostau Eraill (gweler Atodiad 4)** | -170,160 | | -170,160 |
| **Balans ar gael i'w ailddyrannu** | | | **401,071** |

### 4.3 Alldro Adrannol

Pennwyd trosglwyddiadau hanfodol o ac i gronfeydd wrth gefn o fewn rhaglenni penodol neu wedi'u neilltuo ym mhwynt 4.2 eisoes ac mae'r tabl isod yn dangos sefyllfa pob lefel cyfarwyddiaeth

| Maes Gwasanaeth | Cyllideb Net Ddiwygiedig | Gwir Wariant | Dan/ (Dros) | Ymrwymiad | Dan/(Dros) |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ |
| Cynllunio a Rheoli Tir | 2,458,723 | 2,403,678 | 55,044 | - 4,706 | 59,751 |
| Corfforaethol | 5,056,105 | 3,661,930 | 1,394,175 | 1,493,407 | - 99,231 |
| Balansau | 170,147 | - | 170,147 | 100,000 | 70,147 |
| | **7,684,975** | **6,065,608** | **1,619,366** | **1,588,701** | **30,667** |
| Llog a Ennillwyd | - 100,000 | - 389,311 | 289,311 | - | 289,311 |
| Cyllido Cyfalaf o Refeniw | 917,352 | - 36,512 | 953,864 | 872,772 | 81,092 |
| Addasiad taliadau cyfalaf | - 591,050 | - 591,050 | - | | |
| **CYFANSWM** | **7,911,275** | **5,048,735** | **2,862,542** | **2,461,473** | **401,071** |

**4.4 Dadansoddiad Manwl**

Mae dadansoddiad manylach fesul gwasanaeth o'r gwariant a'r ymrwymiadau ar gyfer 2024/25 yn Atodiad 2.

**4.5 Amrywiadau Sylweddol**

Ymhelaethir ar yr amrywiadau dros £10,000 o fewn y gwasanaethau isod sy'n cyfrannu at y cyfanswm o £401,071 sydd ar gael i'w ail ddyrannu.

<u>Cadwraeth Coed ac Amaeth</u> – £175k o danwariant. Bu gwariant ar nifer o brosiectau grant lle roedd angen symud y gwariant yn erbyn gwasanaethau/grantiau penodol gan adael gwarged o fewn y gwasanaeth. Mae natur rhai o'r prosiectau o fewn y gwasanaethau yma yn golygu bod ansicrwydd o ran argaeledd grantiau ac hawliadau grant. Mae'n bosib fydd gwarged un flwyddyn yn dueddol o fod ei angen ar gyfer cyfarch sefyllfaoedd o'r fath mewn blynyddoedd canlynol lle mae diffyg yn cael ei adnabod.

<u>Rheolaeth Datblygu</u> – Mae gorwariant o £78k yn erbyn y gyllideb o ganlyniad diffyg recriwtio ar gyfer swyddi arbennigol penodol, yn ogystal ag absennoldeb staff ac ymddiswyddiadau. Mae'r gorwariant yn deillio o orfod dibynnu ar arbennigwyr allannol i lenwi'r bwlch.

<u>Polisi a Chynllunio</u> - Roedd yna danwariant o £42,260 ar ddiwedd y flwyddyn ariannol oherwydd swyddi gwag, ac absenoldeb mamolaeth. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio yn 2025/26 i gyllido gradd meistri ar gyfer hyfforddai cynllunio o fewn yr Awdurdod, ac hefyd i gyfrannu tuag at costau ychwnegol yn deillio o waith Cynllyn Datblygu Lleol.

<u>Partneriaethau</u> – Mae tanwariant o oddeutu £100k ar linnell gyllideb y Gronfa Gymunedol Eryri. Bydd rhan or arian yma yn cael ei glustnodi ar gyfer prosiect Awyr Dywyll, ac hefyd i gyllido swydd Swyddog Pobl Ifanc a'r dyletswyddau sydd ynglwm.

**Corfforaethol:**

Meysydd Parcio a Chyfleusterau Ymwelwyr – Roedd yr incwm meysydd parcio a Llyn Tegid yn £228k yn fwy na gyllidebwyd ar ei gyfer.

Casglu Sbwriel – Roedd gorwariant o £26k ar gasglu sbwriel. Mae hyn o ganlyniad prysurdeb eithriadol y meysydd parcio, yn ogystal a delio hefo materion o lygru anghyfrifol ar draws ein safleoedd.

Eiddo – bu gorwariant o £40,487 yn erbyn y gyllideb o ganlyniad gwariant ar waith cynnal a chadw na ellir ei osgoi, a gwariant ychwanegol ar brynnu gwasanaeth i fewn.

Cyfreithiol – bu gorwariant £18,840 o ganlyniad costau cyfreithiol ychwanegol yn ymwneud ffioedd proffesiynol allanol & chyngor cyfreithiol ar amryw o achosion megis cyngor cyflogaeth, gweithredu system ANPR, Campio Gwyllt ayyb.

Cyfieithu – Tanwariant o oddeutu £14,000. Bydd rhan fwyaf or arian yma yn cael ei ddefnyddio yn 2025/26 gan bydd cynnydd sylweddol yn y gwaith cyfieithu o ganlyniad adolygu y Cynllyn Datblygu Lleol.

Adnoddau Dynol – Gorwariant o £38k. Mae hyn o ganlyniad recriwtio swyddog Iechyd o Diogelwch, ar costau prosiect ynghlwm a hynnu, yn ogystal a chostau ychwanegol recriwtio Prif Weithredwr, a gwasanaeth arbenigol ychwanegol oedd yn ofynnol ar gyfer apwyntio ir swydd hon.

Llog Banc – Mae'r gwir incwm a dderbyniwyd yn llawer uwch na'r gyllideb o £100,000 a'r rhagolygon blaenorol. Mae hyn yn bennaf gan fod y cyfraddau llog yn parhau yn uchel a chwyddiant ddim yn gostwng ar y gyfradd a ragwelwyd, gan arwain at incwm llog ychwanegol o £289,312.

### 4.6 Newidiadau ers yr adroddwyd yn flaenorol

Fel adroddwyd yn flaenorol, mae'r awdurdod wedi llwyddo osgoi gorffen y flwyddyn ariannol mewn diffyg o ganlyniad derbyn grantiau ychwanegol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Yn ogystal, mae'r grantiau yma wedi caniatau i'r Awdurdod gario arian megis incwm meysydd parcio, ac incwm canolfannau ayyb drosodd i 2024/25 er mwyn cyfarch yr her ariannol. Mi fydd yr arian yma yn cael ei neilltuo yn y cronfeydd wrth gefn hyd nes bydd ei angen.

## 5. ALLDRO CYFALAF 2024/25

5.1 Mae manylion y gyllideb Gyfalaf, alldro a ffynonellau ariannu yn ymddangos yn y crynodeb isod ac Atodiad 5:

| | Cyllideb Net | Gwariant | Incwm | Gweddill | Wedi'i Neilltuo | Tan / (Tros) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** | **(£)** |
| Cynllunio a Rheolaeth Tir | 433,907 | 1,590,821 | -1,721,371 | 564,457 | 539,989 | *24,468* |
| Corfforaethol | 483,445 | 928,308 | -834,271 | 389,408 | 332,783 | *56,625* |
| **Cyfanswm** | **917,352** | **2,519,130** | **-2,555,642** | **953,864** | **872,772** | **81,092** |

5.2 Mae'r gyllideb net ddiwygiedig o £917,352 a'r gwariant net o -£36,512 yn gadael £953,864 cyn trosglwyddiadau a llithriant. Mae'r ffigwr yma yn cynnwys yr incwm grant cyfalaf ychwanegol o £300,000, yn ogystal a grantiau T.C.Ll.C. a nifer o gynlluniau grant hanesyddol sydd wedi eu gweithredu yn ystod y flwyddyn lle na gyllidebwyd ar eu cyfer yn wreiddiol.

5.3 Gweler Atodiad 5 am fwy o fanylder.

## 6. CRONFEYDD WRTH GEFN

**6.1** Gweler isod grynodeb o'r cronfeydd defnyddiadwy gyda'u balansau cyfredol. Dylid nodi fod cyfran sylweddol o'r isod yn cynrychioli symiau sydd eisoes wedi eu hymrwymo at ddibenion penodol.

| Enw'r Gronfa | Balans 31/03/2024 | Symudiad | Balans 31/03/2025 |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Cronfa Derbyniadau Cyfalaf | 163,791 | - | 163,791 |
| Cronfa Adran 106 | 607,112 | 27,375 | 634,487 |
| Cronfa Grantiau Refeniw | 704,860 | (359,540) | 345,320 |
| Grantiau Cyfalaf dderbyniwyd ymlaen llaw | 1,900,034 | 128,468 | 2,028,502 |
| Cronfa Rheoli Asedau | 1,002,014 | 33,965 | 1,035,979 |
| Cronfa Ymchwiliad Cyhoeddus | 225,000 | | 225,000 |
| Cronfa Arian Cyfatebol | 877,634 | 58,595 | 936,229 |
| Cronfa Arian Gariwyd Drosodd | 330,675 | (160,516) | 170,159 |
| Cronfa Prosiectau | 1,336,389 | 101,276 | 1,437,665 |
| Cronfa Is-adeiledd yr Wyddfa | 56,303 | | 56,303 |
| Cronfa Risgiau Penodol | 668,476 | (256,121) | 412,355 |
| Cronfa Gwytnwch Staff | 399,672 | (27,500) | 372,172 |
| Cronfa Risgiau Masnachol | 100,000 | | 100,000 |
| Cronfa Her Ariannol | 1,910,974 | 755,860 | 2,666,834 |
| Cronfa Gyffredinol | 854,781 | 401,071 | 1,255,852 |
| | **11,137,716** | **702,933** | **11,840,648** |

### 6.2 Clustnodi Balans a Tanwariant ac Incwm Ychwanegol

Mae balans o £401,071 o danwariant ac incwm ychwanegol o 2024/25 ar gael i'w ail-glustnodi ar sail un-tro. Argymhellir bod yr arian hwn yn cael ei drosglwyddo i gronfeydd er mwyn cyfrannu tuag at y diffyg yng nghyllideb 2025/26. Roedd y diffyg a nodwyd yn y gyllideb wreiddiol ar gyfer 2024/25 yn oddeutu £640k, ond o ganlyniad y grant penodol ar gyfer cyfarch y diffyg hwn, mae gennym nawr arian i'w ail ddyrannu. Mae disgwyl fydd y diweddariad cyllideb cyntaf ym mis Medi yn darparu gwell darlun o'r sefyllfa a'r diffyg i'w ariannu. Argymhellir bod gweddill yr arian dros ben o 2024/25 yn cael ei neilltuo yn y Gronfa Gyffredinol at y diben yma am y tro gyda'r swm angenrheidiol i'w drosglwyddo i gyllideb 2025/26 a'r gweddill i'w gadw wrth gefn at y diffyg yn 2026/27.

### 6.3 Dadansoddiad o'r Cronfeydd

Isod mae dadansoddiad o'r prif symudiadau o fewn y cronfeydd.

<u>Cronfa Adran 106</u>
Bu cynnydd o £27,375 yn y gronfa yn ystod y flwyddyn. Mae symudiad yn y gronfa hon yn ddibynol ar y nifer o geisiadau cynllunio perthnasol sydd yn codi o fewn y flwyddyn.

Cronfa Grantiau Refeniw
Mae'r gronfa hon yn dal balans grantiau refeniw sydd heb eu defnyddio, derbyniwyd yn y flwyddyn ariannol ac yn cael eu hadnabod fel incwm yn y flwyddyn ariannol honno, ond eu trosglwyddo i gronfa ar gyfer defnydd yn y dyfodol. Bu gostyngiad net o £359,540 yn ystod y flwyddyn.

Cronfa Grantiau Cyfalaf
Mae'r gronfa hon wedi ei chreu ar yr un cynsail a'r Gronfa Grantiau Refeniw. Yn ystod 2024/25 defnyddiwyd a derbyniwyd grantiau yn golygu gostyngiad net o £128,468 yn y gronfa.

Cronfa Rheoli Asedau
Bu gostyngiad o £33,965 yn y Gronfa yn ystod 2024/25 yn dilyn gwariant cyfalaf ar Plas Tan y Bwlch a Hafod Eryri, cyn i arian ychwanegol gal ei drosglwyddo i'r gronfa yn dilyn grant cyfalaf ychwanegol gafodd ei dderbyn gan Llywodraeth Cymru ar ddiwedd y flwyddyn.

Cronfa Arian Gyfatebol
Yn ystod y flwyddyn, roedd cynnydd o £58,595 ym malans y gronfa hon. Mae'r gronfa hon yn caniatau ir Awdurdod chwilio am gyllid gan bartneriaid allanol a gweithredu ar sail cyllid uwch na'r gwaelodlin blynyddol.

Cronfa Gwytnwch Staff
Roedd gostyngiad o £27,500 yn y gronfa hon yn ystod 2024/25. Mae'r arian yn y gronfa hon ar gyfer prynu gwasanaeth i mewn fel bo'r angen lle mae absenoldeb tymor hir, neu ar gyfer cyflawni elfennau penodol o waith. Yn benodol yn 2024/25, bu i'r arian yma gyfrannu at gostau ychwanegol recriwtio Prif Weithredwr.

Cronfa Risgiau Penodol
Roedd gwariant o £256,121 o'r gronfa hon yn ystod y flwyddyn, wedi i'r Awdurdod benderfynu cyllido Plas Tan y Bwlch dros dro o'r gronfa. Pwrpas y gronfa hon yw cyfarch unrhyw doriadau posib yn y gyllideb gan fod ansicrwydd am setliad grant y dyfodol.

Cronfa Her Ariannol.
Pwrpas sefydlu y gronfa hon yn 2023/24 oedd i gyfarch yr her ariannol sydd yn wynebu yr awdurdod yn y dyfodol agos. Mae'r arian yn y gronfa hon yn deillio o danwariant yn y gyllideb yn ogystal ag incwm masnachol meysydd parcio a cyllid grant ychwanegol gan Llywodraeth Cymru, yn benodol ar gyfer cwrdd â'r diffyg ariannol mae'r Awdurdod yn ei wynebu yr.

Balansau Cyffredinol
Mae disgwyliad i'r Awdurdod gadw arian wrth gefn rhag unrhyw gostau byrfyfyr ac o sylwedd na ragwelwyd. Yr awgrymiad ydy i drosglwyddo y balans dros ben o £401,071 yng nghyllideb 2024/25 i'r gronfa balansau cyffredinol.

## 7. TROSGLWYDDIADAU RHWNG CYLLIDEBAU GWERTH DROS £30,000 I SYLW'R AWDURDOD

7.1 Mae Rhan 3 o Reoliadau Ariannol yr Awdurdod yn datgan yr angen i adrodd i'r Awdurdod neu'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar drosglwyddiadau gwerth dros £30,000 rhwng cyllidebau, fel a ganlyn :

| **Swm** | **Cymeradwyaeth y Trosglwyddiad** |
|---|---|
| £30,000 - £100,000 | Prif Weithredwr, Prif Swyddog Cyllid a'r Cadeirydd. Trosglwyddiad i'w adrodd i'r Awdurdod nesaf er gwybodaeth yn unig. |
| £100,000 neu fwy | Penderfyniad Awdurdod |

7.2 Ni fu trosglwyddiad or fath ers yr adroddiad diwethaf.

## 8. ARGYMHELLION

**8.1 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau yn y cyllidebau refeniw a chyfalaf fel sydd wedi ei amlinellu yn rhan 4 (manylion yn Atodiad 1) .**

**8.2 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau i'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ac ohonynt fel yr amlinellwyd yn y tabl o dan baragraff 4.2 ac Atodiad 3.**

**8.3 Nodi sefyllfa derfynol y cyfarwyddiaethau a gwasanaethau o safbwynt rheolaeth gyllidebol (paragraff 4.3 i 4.6 ac Atodiad 2)**

**8.4 Cymeradwyo'r llithriadau (£170,160) ac ymrwymiadau sy'n Atodiad 4.**

**8.5 Cymeradwyo trosglwyddo tanwariant y flwyddyn ariannol 2024/25 i Gronfa Balansau Cyffredinol.**

**8.6 Cymeradwyo'r Datganiad Ariannu Cyfalaf (rhan 5 ac Atodiad 5).**

**Atodiad 1**

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**
**Cyllideb Ddiwygiedig 2024/25 ar 31 Mawrth 2025**

| | Cyllideb Sylfaenol | Trosglwyddiadau | Trosgl. Newydd | Cyllideb Net Ddiwygiedig |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| Cadwraeth, Coed ac Amaeth | 533,200 | 19,450 | - | 552,650 |
| Ymylon Eryri | | 20,622 | - | 20,622 |
| Awyr Dywyll | 58,180 | 1,698 | - | 59,878 |
| LIFE - Coedwigoedd Glaw Celtaidd | 74,800 | 9,521 | - | 84,321 |
| Partneriaeth Tirwedd y Carneddau | 25,000 | 13,207 | - | 38,207 |
| Archeoleg | 67,540 | 25,250 | - | 92,790 |
| Treftadaeth Diwylliannol | 80,780 | 1,698 | - | 82,478 |
| Prosiect Mawndiroedd | | 136,206 | - | 136,206 |
| Ysgwrn | 118,820 | 10,117 | - | 128,937 |
| Rheolaeth Datblygu | 452,960 | 52,851 | - | 505,811 |
| Polisi a Chynllunio | 244,370 | 31,388 | - | 275,758 |
| **Is-gyfanswm wedi'i gario ymlaen** | **1,655,650** | **322,008** | **-** | **1,977,658** |
| | | | | |
| **CORFFORAETHOL** | | | | |
| Costau Aelodau | 112,510 | - | - | 112,510 |
| Cefnogaeth yr Awdurdod | 94,380 | 2,221 | - | 96,601 |
| Rheolaeth Gorfforaethol | 664,176 | 15,315 | - | 679,491 |
| Eiddo | 247,490 | 4,468 | - | 251,958 |
| Cyfreithiol | 58,380 | 1,376 | - | 59,756 |
| Gweinyddol a Gofal Cwsmer | 223,423 | - 22,569 | - | 200,854 |
| Cyfieithu | 108,530 | 1,698 | - | 110,228 |
| Adnoddau Dynol | 208,160 | 38,939 | - | 247,099 |
| Pencadlys | 261,750 | 918 | - | 262,668 |
| Systemau Gwybodaeth | 368,010 | 14,488 | - | 382,498 |
| Cyllid | 230,630 | 7,809 | - | 238,439 |
| Plas Tan y Bwlch | 486,490 | 14,411 | - | 500,901 |
| Cyfathrebu | 368,110 | 20,948 | - | 389,058 |
| **Is-gyfanswm wedi ei gario ymlaen** | **3,432,039** | **100,022** | **-** | **3,532,061** |

Atodiad 1 (parhâd)

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**
**Cyllideb Ddiwygiedig 2024/25 ar 31 Mawrth 2025**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Is-gyfansymiau a Ddygwyd Ymlaen** | | | | |
| **CYNLLUNIO A RHEOLI TIR** | **1,655,650** | **322,008** | **-** | **1,977,658** |
| | | | | |
| **CORFFORAETHOL** | **3,432,039** | **100,022** | **-** | **3,532,061** |
| Ymgysylltu Â Phobl Ifanc | 39,310 | - | - | 39,310 |
| Llwybrau Llesiant (Grant Ll.C.) | 40,000 | - | - | 40,000 |
| Cynllun Rheolaeth a Phartneriaethau | 468,810 | 12,255 | - | 481,065 |
| Wyddfa Di-Blastig | 43,420 | 26,594 | - | 70,014 |
| Canolfannau Gwybodaeth | 186,580 | 11,657 | - | 198,237 |
| Llyn Tegid | - 20,180 | - | - | - 20,180 |
| Meysydd Parcio | - 483,210 | 17,267 | - | - 465,943 |
| Clirio Ysbwriel | 19,510 | - | - | 19,510 |
| Traffig a Chludiant | 5,000 | - | - | 5,000 |
| Cyfleusterau Ymwelwyr | 263,450 | - | - | 263,450 |
| Mynediad Cyhoeddus | 123,550 | - 680 | - | 122,870 |
| Wardeniaid, Gweithwyr Stad a Gwirfod | 1,207,230 | 44,544 | - | 1,251,774 |
| | **5,325,509** | **211,659** | **-** | **5,537,168** |
| | | | | |
| **BALANSAU** | | | | |
| Darpariaeth chwyddiant cyffredinnol | 30,000 | - 30,000 | - | - |
| Darpariaeth chwyddiant cyflogau | 349,000 | - 178,853 | - | 170,147 |
| | **379,000** | **- 208,853** | **-** | **170,147** |
| | | | | |
| **CYFANSWM** | **7,360,159** | **324,814** | **-** | **7,684,973** |
| | | | | |
| Llog a Enillwyd | - 100,000 | - | - | - 100,000 |
| Refeniw yn Ariannnu Gwariant Cyfalaf | 526,262 | 391,090 | - | 917,352 |
| Addasiad Taliadau Cyfalaf | - 591,050 | | - | - 591,050 |
| | **7,195,371** | **715,904** | **-** | **7,911,275** |
| **ARIANWYD O** | | | | |
| Grant Parc Cenedlaethol | 4,119,789 | | | 4,119,789 |
| Lefi Awdurdodau Cyfansoddol | 1,373,262 | | | 1,373,262 |
| Tros. o'r cronfeydd wrth gefn | 1,061,757 | 1,356,467 | - | 2,418,224 |
| **Cyllideb Net** | **6,554,808** | **1,356,467** | | **7,911,275** |

Atodiad 2

## Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
## Sefyllfa Refeniw Derfynol 2024/25 ar 31 Mawrth 2025

| | Cyllideb Net ddiwygiedig | Gwir Wariant | Wedi'i Neilltuo | Gwariant O dan/ (Trosodd) |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| **CYNLLUNIO A RHEOLAETH TIR** | | | | |
| Cadwraeth Coed & Amaeth | 552,650 | 377,624 | 175,003 | 24 |
| Prosiect Adfer Natur | - | -8,025 | 8,025 | - |
| Yr Ysgwrn | 128,937 | 139,029 | - | -10,092 |
| Awyr Dywyll | 59,878 | 33,889 | - | 25,989 |
| Coedwig Celtaidd (LIFE) | 84,321 | 578,550 | -494,229 | - |
| Mawndiroedd | 136,206 | 8,408 | 127,798 | - |
| Treftadaeth Diwyllianol | 82,478 | 80,855 | - | 1,623 |
| Ymylon Eryri | 20,622 | 4,272 | 16,350 | - |
| Archaeoleg | 92,790 | 71,884 | - | 20,906 |
| Rheolaeth Datblygu | 505,811 | 536,235 | 47,375 | -77,799 |
| Polisi a Chynllunio | 275,758 | 233,498 | 42,260 | - |
| Partneriaethau | 481,065 | 337,317 | 44,648 | 99,100 |
| Partneriaeth yr Wyddfa | - | 4,239 | -4,239 | - |
| Carneddau | 38,207 | 5,904 | 32,303 | - |
| | | | | |
| **Is-gyfanswm wedi ei gario ymlaen** | **2,458,723** | **2,403,678** | **-4,706** | **59,751** |
| | | | | |
| **CORFFORAETHOL** | | | | |
| Plas Tan y Bwlch | 500,901 | 496,066 | 4,835 | - |
| Cyfathrebu | 389,058 | 320,651 | - | 68,407 |
| Ymgyslltu a Phobl Ifanc | 39,310 | 13,701 | 25,609 | - |
| Llwybrau Llesiant | 40,000 | - | 40,000 | - |
| Wyddfa Di-Blastig | 70,014 | 54,115 | 15,899 | - |
| Canolfannau Gwybodaeth | 198,237 | 194,521 | - | 3,716 |
| Traffig a Thrafnidiaeth | 5,000 | - | - | 5,000 |
| Llyn Tegid | -20,180 | -32,822 | 12,642 | - |
| Meysydd Parcio | -465,943 | -650,896 | 184,953 | - |
| CyfleusterauYmwelwyr | 263,450 | 233,470 | 29,980 | - |
| Casglu Sbwriel | 19,510 | 46,185 | - | -26,675 |
| Eiddo | 251,958 | 292,445 | - | -40,487 |
| Costau Aelodau | 112,510 | 119,017 | - | -6,507 |
| Cefnogaeth Awdurdod | 96,601 | 97,859 | - | -1,258 |
| Gweinyddol a Gofal Cwsmer | 200,854 | 198,823 | - | 2,031 |
| Systemau Gwybodaeth | 382,498 | 414,178 | - | -31,680 |
| Cyfieithu | 110,228 | 95,446 | 12,000 | 2,783 |
| Pencadlys | 262,668 | 245,895 | - | 16,773 |
| Adnoddau Dynol | 247,099 | 285,783 | - | -38,684 |
| Cyfreithiol | 59,756 | 78,596 | - | -18,840 |
| Mynediad Cyhoeddus | 122,870 | 182,752 | - | -59,882 |
| Tîm y Wyddfa | 340,803 | 304,058 | - | 36,745 |
| Wardeiniad Gogledd | 331,446 | 314,152 | - | 17,294 |
| Wardeinaid De | 322,083 | 358,940 | - | -36,857 |
| Wardeinaid Rheolaeth | 257,444 | 248,552 | - | 8,892 |
| Rheolaeth Corffor. | 679,491 | -488,794 | 1,168,285 | - |
| Cyllid | 238,439 | 239,236 | -796 | - |
| | **5,056,105** | **3,661,930** | **1,493,407** | **-99,231** |
| | | | | |
| **BALANSAU** | 170,147 | - | 100,000 | 70,147 |
| | | | | |
| | **7,684,975** | **6,065,608** | **1,588,701** | **30,666** |
| | | | | |
| **CYFANSWM** | | | | |
| Llog a Enillwyd | -100,000 | -389,311 | - | 289,312 |
| Cyllido Cyfalaf | 917,352 | -36,512 | 872,772 | 81,092 |
| Addasiad Taliadau Cyfalaf | -591,050 | -591,050 | - | - |
| | **7,911,275** | **5,048,735** | **2,461,473** | **401,071** |
| | | | | |
| **WEDI'I ARIANNU O** | | | | |
| Grant y Parc Cenedlaethol | 4,119,789 | | | |
| Ardoll Awdurdod Cyfansoddol | 1,373,262 | | | |
| Defnydd o gronfeydd wrth gefn | 2,418,226 | | | |
| **Cyllideb Net Ddiwygiedig** | **7,911,275** | | | |

| | | | Atodiad 3 |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | (£) | (£) | (£) |
| **Cyfanswm balansau ar gael ar gyfer 2024/25** | | | 2,862,543 |
| | | | |
| **Trosglwyddiadau o Gronfeydd Wrth Gefn** | | | |
| | | | |
| **Cynllunio a Rheolaeth Tir** | | | |
| | | | |
| Cynllun Treftadaeth Dolgellau (Grant Cyfalaf Ll. Cymru) | 103,000 | | |
| Cynllun Adfywio Harlech (Grant Cyfalaf Ll.Cymru) | 48,245 | | |
| Cerbydau Amaeth | 30,500 | | |
| Cynllun Partneriaeth yr Wyddfa | 16,211 | | |
| | | 197,956 | |
| Coedwigoedd Glaw Celtaidd (LIFE) | 494,229 | | |
| Partneriaeth yr Wyddfa | 4,239 | | |
| | | 498,468 | |
| **Corfforaethol** | | | |
| | | | |
| Hafod Eryri (Cyfalaf) | 15,465 | | |
| Cadair Idris(Grant Cyfalaf Ll.C) | 33,595 | | |
| Betws y Coed (Grant Cyfalaf Ll.Cymru) | 31,659 | | |
| Arian Ychwanegol 2022/23 (Grant Cyfalaf Ll.C) | 2,127 | | |
| Cyfraniad prosiectau at waith Cyllidol | 797 | | |
| | | 83,643 | |
| | | | **780,067** |
| | | | |
| **Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn** | | | |
| | | | |
| **Cynllunio a Rheolaeth Tir** | | | |
| Gorseddau (Grant Ll. Cymru) | 148,116 | | |
| Terfynnau Traddodiadol (Grant T.C.Ll.C ar y cyd) | 121,429 | | |
| Prosiect Walio Grid Cenedlaethol | 113,476 | | |
| Treftadeth Diwyllianol | 93,576 | | |
| Coedwig Genedlaethol | 23,877 | | |
| Nant Peris (Taliad Yswiriant difrod sgrin) | 16,085 | | |
| Llwybrau Carneddau (Grant Ll.C) | 10,259 | | |
| Llefydd Lleol Natur (Cyfalaf) | 3,813 | | |
| LiDAR (Grant Cyfalaf Ll.C) | 3,000 | | |
| | | 533,631 | |
| Cadwraeth Coed ar Amaeth - arian cyfatebol LIFE | 149,375 | | |
| Mawndiroedd | 127,800 | | |
| Cynllunio - adran 106 | 47,375 | | |
| Partneriaethau - ariannu gwaith ieuenctid | 44,648 | | |
| Carneddau | 32,303 | | |
| Llefydd Lleol Natur (Grant WCVA) | 25,625 | | |
| Ymylon Eryri | 16,350 | | |
| Prosiect Adfer Natur | 8,025 | | |
| | | 451,501 | |
| **Corfforaethol** | | | |
| Grant Ychwanegol Cyfalaf (Ll.C) | 300,000 | | |
| Eryri Cymunedol (Grant T.C.Ll.C) | 94,320 | | |
| Natur Eryri SLSP | 59,287 | | |
| Eryri Carbon a Ni (Grant T.C.Ll.C) | 48,178 | | |
| Twristiaeth (Grant T.C.Ll.C) | 24,920 | | |
| Grant Grid Cenedlaethol | 24,187 | | |
| Lon Gwyrfai (Grant Ll.Cymru) | 23,850 | | |
| Llyn Llywelyn (grant Ll.Cymru) | 23,750 | | |
| Gwerthiant Cyfalaf | 11,450 | | |
| Cronfa Cymunedol Eryri (Cyfalaf) | 10,000 | | |
| | | 619,942 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Neilltuo i gyfarch yr her ariannol | 1,168,285 | | |
| Maesydd Parcio | 227,575 | | |
| Llwybrau Llesiant | 40,000 | | |
| Ymgysylltu Pobl Ifanc | 25,609 | | |
| Plas Tan y Bwlch | 4,835 | | |
| | | | |
| | | 1,466,304 | |
| | | | |
| | | | **(3,071,378)** |
| | | | |
| Cyfanswm | | | |
| | | | 571,232 |
| | | | |
| | | | |
| **Llithriant a Chostau Eraill (gweler atodiad 4)** | (170,159) | | (170,159) |
| | | | |
| **Balans ar gael i'w ailddyrannu** | | | **401,071** |
| | | | |

| | | |
|---|---|---|
| | | **Atodiad 4** |
| **Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri** | | |
| **Llithriant a Chostau Eraill 2024/25** | | |
| | (£) | (£) |
| **Polisi a Chynllunio** | | |
| Cynllyn Datblygu Lleol | 42,260 | |
| | | 42,260 |
| | | |
| **Cynllun Rheolaeth a Phartneriaethau** | | |
| Dadgarboneiddio | 15,899 | |
| | | |
| | | 15,899 |
| **Cyfieithu** | | |
| Gwaith ychwanegol Cynllun Datblygu Lleol | 12,000 | |
| | | 12,000 |
| | | |
| **Rheolaeth Corfforaethol** | | |
| Darparieth ychwanegol - chwyddiant cyflogau | 100,000 | |
| | | 100,000 |
| | | |
| **Cyfanswm Llithriant a Chostau Eraill 2024/25** | | **170,159** |

**Atodiad 5**

## ALLDRO CYFALAF 2024/25

| | Cyllideb Net (£) | Gwariant (£) | Incwm (£) | Gweddill (£) | Wedi'i Neilltuo (£) | Tan / (Tros) (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| AmgylcheddAdeiliedig | 149,490 | 19,269 | - | 130,221 | 93,576 | 36,645 |
| Cynllun Treftadaeth Dolgellau | - | 139,645 | - | - 139,645 | - 103,000 | - 36,645 |
| Gorseddau (Grant Ll.Cymru) | 148,222 | 106 | - | 148,116 | 148,116 | - |
| Awyr Dywyll (Grant Ll.Cymru) | 33,610 | - | - | 33,610 | - | 33,610 |
| Dehongli'r Wyddfa (Grant Ll. Cymru) | 23,000 | 32,142 | - | - 9,142 | - | - 9,142 |
| Nant Peris - cais yswiriant | 16,585 | 17,085 | - 16,585 | 16,085 | 16,085 | - |
| Partneriaeth yr Wyddfa (Grant Ll. Cymru) | 15,000 | 31,211 | - | - 16,211 | - 16,211 | - |
| Cronfa Cymunedol Eryri | 10,000 | - | - | 10,000 | 10,000 | - |
| LiDAR-Gr.Ll.Cymru | 3,000 | - | - | 3,000 | 3,000 | - |
| Llwybr Carneddau (Grant Ll. Cymru) | 35,000 | 24,741 | - | 10,259 | 10,259 | - |
| Betws y Coed (Grant Ll.Cymru.) | - | 31,659 | - | - 31,659 | - 31,659 | - |
| Adfer Harlech (Grant Ll. Cymru) | - | 58,245 | - 10,000 | - 48,245 | - 48,245 | - |
| Bioamrywiaeth (Grant Ll. Cymru) | - | 7,652 | - | - 7,652 | - | - 7,652 |
| Grid Cenedlaethol -MIND THE GAP | - | 94,053 | - 118,240 | 24,187 | 24,187 | - |
| Amaeth-cerbydau | - | 33,100 | - 2,600 | - 30,500 | - 30,500 | - |
| Eryri Cymunedol (T.C.Ll.C) | - | 139,090 | - 233,410 | 94,320 | 94,320 | - |
| EryriCarbon a Ni (T.C.Ll.C) | - | 124,822 | - 173,000 | 48,178 | 48,178 | - |
| Natur Eryri (T.C.LL.C) | - | 136,220 | - 195,507 | 59,287 | 59,287 | - |
| Terfynnau Traddodiadol (T.C.Ll.C) | - | 96,321 | - 217,750 | 121,429 | 121,429 | - |
| Llefydd Lleol Natur 23-25 | - | 416,936 | - 428,401 | 11,465 | 3,813 | 7,652 |
| Prosiect Walio Grid Cenedlaethol | - | 48,562 | - 162,037 | 113,476 | 113,476 | - |
| Coedwig genedlaethol | - | 139,964 | - 163,841 | 23,877 | 23,877 | - |
| **Is-gyfanswm Cynllunio a Rheolaeth Tir** | **433,907** | **1,590,821** | **-1,721,371** | **564,457** | **539,989** | **24,468** |
| | | | | | | |
| **Corfforaethol** | | | | | | |
| Hafod Eryri | 288,000 | 556,465 | - 253,000 | - 15,465 | - 15,465 | - |
| Cerbydau wardeiniaid | 104,845 | 92,446 | - 17,756 | 30,155 | - | 30,155 |
| Lon Gwyrfai (Grant. Ll. Cymru) | 23,850 | - | - | 23,850 | 23,850 | - |
| Llyn Llywelyn (Grant Ll. Cymru) | 23,750 | - | - | 23,750 | 23,750 | - |
| Offer Technoleg Gwybodaeth | 22,340 | 20,006 | - | 2,334 | - | 2,334 |
| Prosiectau Mynediad | 20,660 | - | - | 20,660 | - | 20,660 |
| Gwaredu cerbydau | - | - | - 14,925 | 14,925 | 11,450 | 3,475 |
| Dehongli - Grant Ll Cymru | - | 2,127 | - | - 2,127 | - 2,127 | - |
| Cadair Idris - Grant Ll.Cymru | - | 33,595 | - | - 33,595 | - 33,595 | - |
| Grant Ychwanegol Ll.Cymru | - | - | - 300,000 | 300,000 | 300,000 | - |
| TwristieathathraSLSP | - | 223,670 | - 248,590 | 24,920 | 24,920 | - |
| **Is-gyfanswm Corfforaethol** | **483,445** | **928,308** | **- 834,271** | **389,408** | **332,783** | **56,624** |
| | | | | | | |
| **CYFANSWM** | **917,352** | **2,519,130** | **-2,555,642** | **953,864** | **872,772** | **81,092** |

**EITEM RHIF 13**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 9fed Gorffennaf 2025 |
| **TEITL** | **ADRODDIAD BLYNYDDOL AR Y GWIR WEITHGARWCH RHEOLAETH TRYSORLYS YN 2024/25** |
| **ADRODDIAD GAN** | Prif Swyddog Cyllid |
| **PWRPAS** | Adroddir yn unol â gofynion statudol. Gofynnir i aelodau'r Awdurdod nodi'r cynnwys er gwybodaeth yn unig. |

## 1. CRYNODEB

1.1 Mae'n ofynnol dan God Ymarfer CIPFA i adrodd ar ganlyniadau gwir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys yr Awdurdod. Yn ystod 2024/25 arhosodd gweithgarwch yr Awdurdod o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol. Ni fu unrhyw fenthyca. Nid oedd unrhyw fanciau yr oedd yr Awdurdod wedi'u defnyddio ar gyfer buddsoddi wedi methu â thalu.

1.2 Yn 2024/25, £386,792 oedd y cyfanswm llog a dderbyniwyd ar fuddsoddiadau, yn erbyn cyllideb o £120,000. Mae £2,518 o log a dderbyniwyd o fenthyciadau ceir yn cynyddu'r cyfanswm i £389,311.

1.3 Mae'r swm llog banciau a chymdeithas adeiladu o £386,792 am 2024/25 yn gynnydd sylweddol ar y swm o £354,477 a dderbyniwyd yn 2024/25. Deillir y cynnydd yn uniongyrchol o ganlyniad i chwyddiant a'r effaith ar y cyfraddau llog sydd wedi cynyddu yn sylweddol dros y ddwy flynedd ddwythaf.

## 2. CEFNDIR

2.1 Mae buddsoddiadau rheolaeth trysorlys yn deillio o lif arian yr Awdurdod, incwm a dderbyniwyd o flaen llaw gwariant, yn ogystal â balansau a reserfau sydd angen eu buddsoddi hyd nes bydd angen yr arian ar gyfer dibenion yr Awdurdod. Drwy fuddsoddi symiau sylweddol, mae'r Awdurdod yn agored i risgiau ariannol gan gynnwys colled o gyllid sydd wedi ei fuddsoddi. Mae swyddogion cyllid yr Awdurdod yn adnabod, arolygu a rheoli'r risgiau yma fel eu bod yn gyson â strategaeth rheolaeth trysorlys yr Awdurdod. Gan gydymffurfio hefo gofynion CIPFA (*Chartered Institute of Public Finance and Accountancy*) cymeradwyodd yr Awdurdod ei Strategaeth ar gyfer Rheolaeth Trysorlys 2024/25 yng nghyfarfod 7 Chwefror 2024.

2.2. Mae'n ofynnol yn ôl fframwaith CIPFA 'Rheolaeth Trysorlys yn y Sector Gyhoeddus: Cod Ymarfer' i'r Awdurdod gymeradwyo strategaeth rheolaeth trysorlys cyn cychwyn pob blwyddyn ariannol, ac i dderbyn adroddiad alldro trysorlys ar ddiwedd blwyddyn ariannol a phob hanner blwyddyn . Adroddir yma ar wir weithgaredd Rheolaeth Trysorlys (benthyca a buddsoddi) yr Awdurdod yn ystod 2024/25.

## 3. BENTHYCIADAU

3.1 Mae canllawiau buddsoddi CIPFA a Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r Awdurdod fuddsoddi yn bwyllog, gan ystyried diogelwch a hylifedd ein balansau/buddsoddiadau, yn hytrach nac anelu i sicrhau'r enillion gorau posibl.

A. **Terfynau Benthyca 2024/25**

Ar 7 Chwefror 2024 cymeradwyodd yr Awdurdod Derfynau Benthyca fel a ganlyn ar gyfer 2024/25 :-

(i) Uchafswm Benthyca Cyffredinol o £500,000 ar gyfer 2024/25, gan gynnwys Terfyn benthyca Tymor Byr o £100,000.

(ii) Peidio â gosod uchafswm ar gyfran llog taladwy sydd â chyfradd llog newidiol.

Nodwyd pryd gosodwyd y terfynau yma eu bod 'rhag ofn', a nad oedd disgwyliad i'r Awdurdod fenthyg.

B. **Benthyca Gwirioneddol 2024/25**

Dechreuodd yr Awdurdod y flwyddyn ariannol heb ddyled, a thalwyd am wariant refeniw a chyfalaf yn ystod 2024/25 gydag arian grantiau a chronfeydd refeniw. Felly, o safbwynt Rheolaeth Trysorlys, mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn ddiddyled.

## 4. BUDDSODDI

4.1 Bu'n bosibl i'r Awdurdod fuddsoddi ac ennill llog oherwydd swm y balansau a'r llif-arian positif. Cafodd yr arian hwnnw ei fuddsoddi fel a ganlyn, yn unol â'r Strategaeth Rheolaeth Trysorlys:

